

Adroddiad blynyddol

2021/22



TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Cynnwys

04 Ciplwng ar y flwyddyn

Adroddiad strategol

06	Datganiad y Cadeirydd	08	Datganiad y Prif Weithredwr	10	Ein gweledigaeth, gwerthoedd, pwrpas a chylch gwaith	12	Dod yn ôl ar y trywydd iawn
14	Strwythur Ein Grŵp	16	Y Dirprwy Weinidog dros Newid yn yr Hinsawdd	18	Adroddiad gan ein Swyddog Gweithredol dros Gyllid a Llywodraethu	22	Creu rhwydwaith trafnidiaeth diogel, cynaliadwy effeithiol a chydnerth
32	Datblygu profiad cwsmeriaid sy'n gwella'n barhaus	36	Darparu cyngor arbenigol dibynadwy, arweinyddiaeth ac arloesedd	48	Creu sefydliad a phartneriaethau sy'n gallu cyflawni ein diben	58	Risg

Llywodraethu

62	Ein Bwrdd	68	Pwyllgor y Bwrdd ac adroddiadau gan eu cadeiryddion	76	Datganiad llywodraethu corfforaethol	82	Datganiad cydnerthedd
84	Datganiad Adran 172	88	Datganiad datgarboneiddio trafnidiaeth	94	Adroddiad Tâl	98	Adroddiad y cyfarwyddwyr
100	Datganiad y Cyfarwyddwyr o gyfrifoldebau						

Datganiadau ariannol


104	Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol	108	Datganiad cyfun o incwm	109	Datganiad cyfun o'r sefyllfa ariannol	110	Datganiad cyfun o newidiadau mewn ecwiti
111	Datganiad cyfun o lloedd arian	112	Datganiad y cwmni o sefyllfa ariannol	113	Datganiad y cwmni o newidiadau mewn ecwiti	114	Nodiadau

Ein nod yw gwneud teithio ar y rheilffyrdd yng Nghymru yn wirioneddol gynaliadwy ac yn addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Cipolwg ar 2021/22



117
O swyddi newydd



Mae canolrif ein
bwllch cyflog rhwng
y rhywiau yn ein
Grŵp wedi gostwng i
32.8%



£49
miliwn
Grantiau
Teithio Llesol i
awdurdodau lleol

Ebrill - Mai

Y trenau Dosbarth 197 newydd cyntaf yn dod oddi ar y llinell gynhyrchu.

Lansio ein partneriaeth newydd gyda Stonewall Cymru.

Mehefin - Gorffennaf

Diwedd cyfnod wrth i'n trenau Pacer olaf adael y gwasanaeth.

Lansio cynllun peilot gwasanaeth bws newydd T10 TrawsCymru o Fangor i Gorwen.

Awst - Medi

Cytundeb wedi'i lofnodi gyda Colas Rail UK i brynu Pullman Rail Limited.

Pum busnes newydd yn cyflwyno eu syniadau busnes fel rhan o Labordy Trafnidiaeth Cymru.

Hydref - Tachwedd

Cyfarpar llinell uwchben wedi'i osod rhwng Merthyr Tudful a Phontypridd.

Lansio ein NVQ Lefel 3 newydd mewn gweithrediadau gyrwyr trenau.

Rhagfyr - Ionawr

Y trenau Dosbarth 231 FLIRT cyntaf yn cyrraedd Cymru o'r Swistir.

Gorffen adnewyddu trenau pellter hir Dosbarth 175.

Chwefror - Mawrth

Gwaith yn dechrau ar osod diffibrilwyr sy'n achub bywydau ar draws ein rhwydwaith.

Paratoi ar gyfer lansio 'Y Rhwydwaith Cymdeithasol Go lawn', ymgyrch drafnidiaeth gyhoeddus aml-ddull gyntaf Cymru.

£697 miliwn
Gwariant ariannol am y
flwyddyn

Datganiad y Cadeirydd

Scott Waddington



Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn un o heriau a newidiadau i Trafnidiaeth Cymru unwaith eto. Rydyn ni wedi parhau i weithio gyda phartneriaid i ddarparu gwasanaethau drwy'r pandemig mewn ffordd sydd wedi galluogi ein cwsmeriaid i deithio mor ddiogel a dibynadwy â phosibl, gan flaenoriaethu llesiant cwsmeriaid a chydweithwyr. Rydyn ni hefyd wedi parhau â'n cynlluniau uchelgeisiol ar gyfer rhwydwaith trafndiaeth Cymru wrth ddatblygu cynlluniau ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol ac wrth barhau â'n rhaglenni adeiladu, gan gynnwys Metro De Cymru.

Wrth i ni ddod allan o'r pandemig, mae ein nod canolog yr un fath o hyd; newid y ffordd mae pobl yn teithio ledled Cymru, drwy ddarparu rhwydwaith trafndiaeth y gall Cymru ymfalchio ynddo ac yn ei ddefnyddio'n fwy cynaliadwy. Mae hyn yn hanfodol er mwyn inni chwarae ein rhan i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Rydyn ni'n sbarduno newid moddol oddi wrth y car preifat ac at drafndiaeth gyhoeddus a theithio llesol, gan helpu i ddatgarboneiddio Cymru.

Mae'r angen i leihau allyriadau carbon yn golygu bod angen i bob un ohonom newid y ffordd rydym yn teithio. Mae angen mwy o bobl i gerdded, beicio neu ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus. Dyna pam mae ein ffocws ar newid moddol yn bwysicach nag erioed o'r blaen.

Bydd newid ymddygiad teithio ar y raddfa sydd ei hangen arnom yn cael ei gyflawni dim ond drwy greu rhwydwaith carbon isel, cydgysylltiedig, lle mae tocynnau integredig a gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus dibynadwy yn golygu mai dyma'r opsiwn hawsaf i bobl sy'n teithio ledled Cymru. Ochr yn ochr â newid ymddygiad teithio, bydd angen i ni newid rhai o'n gweithrediadau hefyd ac rydyn ni wedi ymrwymo i ddatgarboneiddio ein rhwydwaith.

Rydyn ni'n cefnogi targedau sero net 2050 Llywodraeth Cymru a'r targed i'r sector cyhoeddus yng Nghymru fod yn sero net ar y cyd erbyn 2030.

Mae ein ffigurau diweddaraf ar gyfer cwsmeriaid yn dangos bod pobl bellach yn dychwelyd i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus yn gyflym iawn. Mae rhai patrymau teithio eisoes yn newid ond mae angen i Gymru weld newid cynaliadwy, hirdymor. Er bod adfer y defnydd o wasanaethau yn dal yn flaenoriaeth i ni fel busnes, rhaid i ni fynd ymhellach i gyflawni ein targedau newid moddol fel cenedl. Mae hyn yn gofyn am fuddsoddiad parhaus yn nhwf ein darpariaeth trafndiaeth gyhoeddus gyda gwasanaethau a seilwaith carbon isel sy'n helpu i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae ein llwyddiannau eleni gydag integreiddio TrawsCymru, caffael PTI Cymru, buddsoddi mewn system docynnau aml-foddol a chyflwyno fflecsi, i gyd yn gamau mawr ymlaen i gyflawni'r nod hwn.

Mae'r coronafeirws wedi golygu bod y ddwy flynedd ddiwethaf wedi bod yn gyfnod anodd i bawb, ac rydw i a'r Bwrdd yn falch o sut mae ein tîm wedi ymateb i'r her. Rwy'n falch ein bod wedi cyflawni cymaint yn ystod y 12 mis diwethaf, y flwyddyn lawn gyntaf o fod yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau rheilffyrdd ledled Cymru a'r gororau.

Ar draws ein holl weithrediadau, rydym yn parhau i ymdrechu i wella ansawdd ein gwasanaethau, gan roi profiad cwsmeriaid ac integreiddio wrth galon ein darpariaeth, gan sicrhau ein bod yn gweld newid mewn ymddygiad i deithio mwy cynaliadwy ledled Cymru.

O drawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd i'n gwaith gyda Llywodraeth Cymru yn datblygu fframwaith monitro cenedlaethol ar gyfer teithio llesol, rydyn ni wedi parhau i ddarparu ar gyfer pobl Cymru, gan gael gwared ar rwystrau i roi mynediad i bawb at drafndiaeth gynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys cymorth i gydweithwyr a chwsmeriaid y mae'r gwrthdaro yn yr Wcráin yn effeithio arnynt, yn ogystal â chyflwyno cynlluniau peilot fflecsi ar gyfer cymunedau gwledig er mwyn darparu cysylltedd ar gyfer cymunedau heb fynediad blaenorol at drafndiaeth gyhoeddus.

Wrth i ni edrych ymlaen a chwarae ein rhan i helpu i greu Cymru sydd hyd yn oed yn well i fyw ynddi, nawr ac yn y dyfodol, hoffwn ddiolch i'n Bwrdd am eu cefnogaeth barhaus ac i James Price fel Prif Weithredwr am ei arweinyddiaeth gadarn. Hoffwn ddiolch hefyd i'n partneriaid ledled Cymru a'r gororau am barhau i weithio ar y cyd â Trafnidiaeth Cymru i'n helpu i gyflawni ein hamcanion cyffredin. Mae ein cwsmeriaid yn dal wrth galon popeth rydyn ni'n ei wneud ac rydw i'n edrych ymlaen at gyflawni ein hymrwymiaidau i wella eu profiadau, gan adeiladu ar y gwelliannau rydyn ni eisoes wedi'u cyflawni eleni.

Rwy'n falch o'r ffordd rydyn ni wedi ymdopi â chyfnod o ansicrwydd a her sylweddol ac rwy'n teimlo'n gadarnhaol am sut rydyn ni'n mynd i'r afael â'r heriau sydd o'n blaenau wrth i ni gyflawni ein gweledigaeth uchelgeisiol ar gyfer trafndiaeth gynaliadwy ar gyfer pobl Cymru a'r gororau

"Mae angen mwy o bobl i gerdded, beicio neu ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus. Dyna pam mae ein ffocws ar newid moddol yn bwysicach nag erioed o'r blaen."

Datganiad y Prif Weithredwr

James Price



Ein blaenoriaeth fel Trafnidiaeth Cymru yw sicrhau mai trafndiaeth gynaliadwy yw'r opsiwn hawsaf, mwyaf deniadol ac arferol i bobl Cymru. Rydyn ni'n creu'r set iawn o wasanaethau a chynnyrch ar gyfer y dyfodol ac yn cynyddu parodrwydd a gallu pobl i'w defnyddio. Bydd hyn yn ein helpu i gyflawni'r targedau uchelgeisiol y mae Llywodraeth Cymru wedi'u pennu ar gyfer newid moddol ac i roi rhwydwaith trafndiaeth i bobl Cymru y gallant fod yn falch ohono.

Yn dilyn anawsterau pandemig y coronafeirws ac wrth i ni wneud cynnydd cadarnhaol o ran adfer hyder a galw cwsmeriaid, mae her sylweddol o hyd o ran rhagweld newidiadau mewn anghenion a thueddiadau trafndiaeth. Rydyn ni'n falch iawn o sut mae ein tîm wedi parhau i ddelio ag effaith y pandemig arnyn nhw eu hunain, ein gilydd, ein partneriaid a'n cwsmeriaid. Mae'r pandemig yn sicr wedi creu heriau ond mae hefyd wedi creu cyfleoedd wrth i ni gydweithio i greu ffyrdd newydd o weithio gyda mwy o effeithlonrwydd. Diolch i bawb am eu gwaith caled, eu penderfyniad a'u dyfalbarhad yn ystod cyfnod anodd iawn. Rwyf hefyd yn diolch i'n partneriaid am barhau i weithio gyda ni i gyflawni ein blaenoriaethau cyffredin.

Er gwaethaf yr heriau, rydyn ni wedi parhau i ganolbwyntio'n llwyr ar y dyfodol ac rydyn ni'n parhau i weithio'n galed i gyflawni ein gweledigaeth i drawsnewid y rhwydwaith trafndiaeth ledled Cymru a'r gororau. Rydyn ni wedi ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol a fydd yn helpu i sicrhau bod ein system drafnidiaeth yn cael ei hintegreiddio gyda'r gwaith o reoli TrawsCymru, gosod darllenwyr cardiaid 'Tapio ar y Dechrau a'r Diwedd' ar draws fflyd bysiau Cymru, caffael PTI Cymru a datblygu fframwaith monitro cenedlaethol ar gyfer teithio llesol.

"Er gwaethaf yr heriau, rydyn ni wedi parhau i ganolbwyntio'n llwyr ar y dyfodol ac rydyn ni'n parhau i weithio'n galed i gyflawni ein gweledigaeth i drawsnewid y rhwydwaith trafndiaeth ledled Cymru a'r gororau."

O ran y rheilffyrdd a'r Metro, mae'r coronafeirws wedi golygu ein bod wedi gorfod diwygio rhai amserlenni ar gyfer cyflwyno fflyd a gwasanaethau newydd, ond rwy'n falch o ddweud bod cynnydd go iawn wedi cael ei wneud yn 2021/22. Mae hyn yn cynnwys gwaith adeiladu helaeth ar Linellau Craidd y Cymoedd, cyflwyno trenau ychwanegol ac adnewyddu ein fflyd bresennol o drenau. Rydyn ni wedi uwchraddio llawer o'n gorsafoedd trenau ac rydyn ni'n paratoi ar gyfer lansio tocynnau 'Talu Wrth Deithio'.

Ar yr un pryd, mae Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru wedi dod yn rhan o'n sefydliad ehangach. Roeddem hefyd yn falch o brynu Pullman Rail Limited ym mis Awst 2021 sydd wedi ein galluogi i edrych ar ein cyfleusterau yn Nhreganna mewn ffordd fwy strategol.

Yr ydym am i'n rhwydwaith bysiau fod yn un o'r gorau yn Ewrop o ran ei gyrhaeddiad, amllder ac ansawdd. Rydyn ni wedi bod yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a gweithredwyr bysiau i gefnogi'r rhwydwaith bysiau presennol a pharatoi ar gyfer model newydd ar gyfer rhedeg bysiau yng Nghymru yn dilyn lansio Papur Gwyn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Fysiau, 'Un Rhwydwaith, Un Amserlen, Un Tocyn: Cynllunio Bysiau fel Gwasanaeth Cyhoeddus'. Rhan allweddol o hyn yw datblygu cysylltiadau gydag awdurdodau lleol a'r sector bysiau, i sicrhau ein bod yn parhau i gael ein llywio gan flaenoriaethau cymunedau ledled Cymru.

Rydyn ni'n falch o sut mae fflecsi wedi parhau i ddarparu opsiwn cadarnhaol i ddefnyddwyr bysiau wrth i ni barhau i gyflwyno cynlluniau pilot mewn ardaloedd newydd.

Rydyn ni'n gweithio'n galed i wella argaeledd ac apêl seilwaith teithio llesol drwy ddatblygu system drafnidiaeth integredig sy'n cefnogi datgarboneiddio ac sy'n annog newid moddol oddi wrth gerbydau modur preifat.

Mae ein llwyth gwaith yn sylweddol wrth i ni addasu i'n cylch gwaith sy'n newid a chydbwysu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau presennol gyda buddsoddiad yn y dyfodol. Bydd gwreiddio cynaliadwyedd ym mhopeth a wnawn, cynghori ar bolisi, meithrin gwytnwch a dylanwadu ar newid ymddygiad cadarnhaol, gan adeiladu rhwydwaith trafndiaeth cynhwysol sy'n diwallu anghenion pawb, yn parhau i'n herio a'n profi am beth amser.

Wrth gwrs, ni fyddai hyn yn bosibl heb ein pobl. Mae teulu TrC wedi tyfu'n sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf wrth i ni barhau i ddenu, datblygu a chadw talent brwdfrydig, medrus ac amrywiol. Rydyn ni'n buddsoddi mewn prentisiaethau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol; datblygu ein rhaglenni hyfforddi a datblygu i fynd i'r afael â'r bwch sgiliau hirdymor ac anghenion y sector trafndiaeth yng Nghymru yn y dyfodol; a datblygu ein partneriaethau â thrydydd partion allweddol a chyrff allanol i gefnogi pobl ifanc yn ein cymunedau i ddilyn gyrfaedd cynaliadwy a thymor hir.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'n Cadeirydd, Scott Waddington, ein Bwrdd, ein cydweithwyr a'n partneriaid am eu cefnogaeth barhaus.

Cyflwyniad i Trafnidiaeth Cymru

Rydyn ni'n creu rhwydwaith trafndiaeth integredig sy'n addas ar gyfer y dyfodol, sy'n cyfrannu at gynaliadwyedd hirdymor Cymru a'r cymunedau hynny sydd wedi cysylltu â ni, i helpu i gyflawni saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ein gweledigaeth

Ein gweledigaeth yw creu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid drwy rwydwaith trafndiaeth diogel y gall Cymru ymfalchio ynddo.

Mae ein gwaith yn canolbwyntio ar wella cysylltedd. Rydym yn cyflawni hynny drwy gynllunio, comisiynu a rheoli rhwydweithiau trafndiaeth effeithlon, a drwy fanteisio ar y sgiliau gorau o bob rhan o ddiwydiant, llywodraeth a chymdeithas.

Ein pwrpas

Ein pwrpas yw darparu gwasanaethau trafndiaeth gynaliadwy sy'n cadw Cymru i symud.

Mae trafndiaeth yn cysylltu pobl â chymunedau, yn sail i ddatblygu cynaliadwy ac yn galluogi twf economaidd. Bydd gwell gwasanaethau/trafnidiaeth gyhoeddus yn arwain at fuddion gwirioneddol i bobl, yn cynnwys gwell mynediad at gyfleoedd gwaith ac addysg.

Ein gwerthoedd

Mae ein gwerthoedd yn hanfodol i bopeth a wnawn.

Maent yn rhan annatod o'n diwylliant a'n ffyrdd o weithio. Byddwn yn creu perthynas o ymddiriedaeth gyda'n cwsmeriaid, ein cydweithwyr a'n rhanddeiliaid, yn seiliedig ar y canlynol:


- **Bod yn ddiogel** iechyd, diogelwch a llesiant
- **Bod yn gysylltiedig** mentrus a rhwydweithiol
- **Bod y gorau** perfformiad uchel, cyflymder
- **Bod yn deg** gonestrwydd a chydaddoldeb
- **Bod yn bositif** gallu a bwriadu cyflawni
- **Creu llwyddiant ar y cyd** brwdfrydedd dros gael y fargen orau

Ein rôl

Mae TrC yn gwmni nid-er-elw, sydd ym mherchnogaeth lwyr Llywodraeth Cymru.

Mae TrC yn cydweithio â darparwyr trafndiaeth, partneriaid, cymunedau a rhanddeiliaid allweddol eraill. Gyda'n gilydd, rydym yn darparu rhwydwaith trafndiaeth diogel, hygyrch, dibynadwy a fforddiadwy sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd.

Nid yw TrC yn pennu polisïau, nac ychwaith yn cyflawni unrhyw swyddogaethau statudol. Ni yw partner cyflenwi trafndiaeth Llywodraeth Cymru, yn ogystal â chynghorydd arbenigol ac eiriolwr dros yr holl faterion sy'n ymwneud â thrafnidiaeth. Mae popeth a wnawn o fewn fframwaith polisi Llywodraeth Cymru.



Dod yn ôl ar y trywydd iawn

Roedd pandemig parhaus y coronafeirws wedi parhau i gael effaith uniongyrchol ar drafndiaeth gyhoeddus yn 2021/22. Roedd y cyfuniad o gadw pellter cymdeithasol a salwch staff yn golygu yr effeithiwyd ar ein gwasanaethau drwy gydol y flwyddyn. Mae ein rhaglen fuddsoddi wedi cael ei diwygio oherwydd y tarfu a achoswyd i'n cadwyn gyflenwi, yr effaith ar ddarparu'r seilwaith sydd ei angen i weithredu gwasanaethau newydd a'n gallu i recriwtio a datblygu cydweithwyr newydd.

Iechyd a diogelwch

Iechyd, diogelwch a lles sy'n dod gyntaf bob amser. Mae'r gwerthoedd craidd hyn yn byw ac yn anadlu drwy ein pobl, ein prosesau a'n llywodraethu. Drwy gydol pandemig y coronafeirws, mae ein timau iechyd a diogelwch a gweithrediadau wedi gweithio gyda'n cynrychiolwyr diogelwch i greu, adolygu a diwygio asesiadau risg i reoli'r gwaith o gyflwyno a dileu mesurau penodol. Mae'r prif fentrau yn 2021/22 wedi cynnwys:

- ✓ ailhyfforddi ac adleoli ein tîm arlwyio gweithredol i gefnogi glanhau ychwanegol ar drenau ac mewn gorsafoedd a defnyddio cynnyrch gwrthfeiryol newydd i gynyddu'r glanhau ar ardaloedd sy'n cael eu cyffwrdd yn aml
- ✓ gweithio gyda'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a'n gwasanaethau diogelwch ein hunain i reoli ymddygiad gwrthgymdeithasol. Roedd hyn yn cynnwys cynlluniau ar y cyd gyda gwasanaethau heddlu cymunedol ac elusennau fel School of Hard Knocks a'r Cynllun Troseddau leuenctid i ymgysylltu â phobl ifanc a'u teuluoedd i helpu i leihau digwyddiadau.
- ✓ cynnal asesiadau risg a gwiriadau lles i reoli effaith gweithio gartref ar iechyd meddwl cydweithwyr. Buom hefyd yn gweithio gyda darparwyr iechyd galwedigaethol i weithredu rhaglenni i leihau straen ac ystyried effeithiau Covid Hir ar ein cydweithwyr
- ✓ defnyddio ein rhaglen Teithio'n Saffach i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i gwsmeriaid am gyhoeddiadau a chyfathrebiadau rheolaidd sy'n helpu i annog pobl i deithio'n ddiogel
- ✓ cynnal mesurau cadw pellter cymdeithasol, cyflwyno gorsafoedd diheintio dwylo a dosbarthu dros 10,000 o orchuddion wyneb am ddim er mwyn gwella diogelwch cwsmeriaid sy'n defnyddio ein gwasanaethau
- ✓ cyflwyno cam 2 camerâu fideo sy'n cael eu gwisgo ar y corff i atal ymddygiad gwael gan gwsmeriaid

Amserlenni trenau mewn argyfwng

Mae pandemig y coronafeirws wedi golygu ein bod wedi gorfod cyflwyno nifer o amserlenni newydd ar fyr rybudd a newid arferion gweithio er mwyn diogelu cwsmeriaid a staff. Rhoddwyd yr amserlen argyfwng gychwynnol ar waith ym mis Mawrth 2020 pan nad oedd ond tua 5% o alw gan gwsmeriaid o'i gymharu â lefelau cyn y pandemig. Mae newidiadau dilynol i'r amserlen yn 2021/22 yn cynnwys:

- ✓ dychwelyd i 80% o wasanaethau ym mis Mai 2021 (o'i gymharu ag amserlen 2019). Roedd y galw ar ei uchaf yn 65% yn ystod gwanwyn 2021 o'i gymharu â lefelau cyn y pandemig, gyda'r rhan fwyaf o gwsmeriaid yn dod o'r farchnad hamdden
- ✓ roedd y galw gan gwsmeriaid wedi parhau i wella yn hydref 2021 wrth i nifer y teithwyr ddychwelyd i tua 80% o'r lefelau cyn y pandemig. Cafodd dros 1,000 o orsafoedd yr wythnos eu hychwanegu at ein hamserlen ym mis Medi 2021, gan ddod â darpariaeth gwasanaethau i fyny i 85%
- ✓ cyflwynwyd gwasanaethau ychwanegol ym mis Rhagfyr 2021, gan barhau'r twf i dros 90% o'r ddarpariaeth. Roedd hyn yn cynnwys y gwasanaeth newydd bob awr rhwng Cross Keys a Chasnewydd a gwasanaethau nos yn ddiweddarach i gefnogi adferiad yr economi yn ystod y nos.
- ✓ roedd dyfodiad amrywiolyn Omicron y coronafeirws wedi arwain at gyflwyno amserlen drenau argyfwng arall ar 22 Rhagfyr 2021. Bwriad hyn oedd helpu i reoli effaith prinder staff ar wasanaethau rheilffyrdd drwy leihau'r angen i ganslo ar fyr rybudd.
- ✓ ailgyflwyno gwasanaethau'n raddol ers mis Chwefror 2022 wrth i'r galw gan deithwyr gynyddu. Roedd hyn yn cynnwys gweithio gydag awdurdodau lleol, Network Rail, Amey Infrastructure Wales a'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig i ddarparu gwasanaethau gwell ar gyfer Pencampwriaeth y Chwe Gwlad.

Cyflwyno trenau newydd

Mae effaith y coronafeirws ar ein cadwyn gyflenwi yn golygu y bydd llawer o'r ymrwymadau gwreiddiol a wnaethom yn 2018 i gyflwyno gwasanaethau newydd yn cael eu cyflawni, ond mae rhai wedi cael eu diwygio:

- ✓ Caerdydd i Cheltenham: bydd un trên yr awr cyson i bob gorsaf yn cael ei ddarparu erbyn mis Rhagfyr 2022 fel y bwriadwyd yn wreiddiol
- ✓ Rheilffordd Calon Cymru: bydd un gwasanaeth ychwanegol y dydd i bob gorsaf yn cael ei ddarparu erbyn mis Rhagfyr 2022 fel y bwriadwyd yn wreiddiol
- ✓ Lerpwl i Landudno: bydd gwasanaeth newydd bob awr yn cael ei ddarparu erbyn mis Rhagfyr 2023
- ✓ bydd estyniad i wasanaeth presennol Maes Awyr Manceinion i Landudno yn cael ei gyflawni erbyn mis Rhagfyr 2023
- ✓ Aberystwyth i'r Amwythig: bydd un trên yr awr cyson i bob gorsaf yn cael ei ddarparu erbyn mis Mai 2024
- ✓ bydd gwasanaeth bob awr rhwng Lerpwl ac Amwythig, gyda'r gwasanaeth yn cael ei ymestyn i Gaerdydd bob yn ail awr, yn cael ei ddarparu erbyn mis Rhagfyr 2024.

“Y Rhwydwaith Cymdeithasol Go lawn’ yw ymgyrch drafndiaeth gyhoeddus aml-ddull gyntaf Cymru ac mae’n hyrwyddo cerdded, beicio, defnyddio bysiau a threnau fel ffordd gynaliadwy o deithio.”

Trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd

Mae canllawiau gan y Cyngor Arweinyddiaeth Adeiladu wedi ein helpu i ddeall y newidiadau sydd eu hangen i weithio'n ddiogel o ganlyniad i'r coronafeirws. Rydyn ni wedi bod yn gweithio gydag Amey Infrastructure Wales a'n partneriaid cyflenwi seilwaith i ddod o hyd i ffyrdd newydd o weithio, i ddsygu gan eraill ac i greu arferion gorau er mwyn canfod mesurau lliniaru i leihau'r gost ac effeithiau'r pandemig ar raglen Llinellau Craidd y Cymoedd.

Newid ymddygiad

Wrth i ni ddod allan o bandemig y coronafeirws, ein nod yw annog newid i drafndiaeth gynaliadwy. Bydd ein gwaith yn canolbwyntio ar wybodaeth a thystiolaeth sy'n seiliedig ar wyddorau ymddygiad, gan dynnu sylw at y dulliau a'r effaith y gall theori newid ymddygiad, modelau ac ymarfer ei gyflawni.

Byddwn yn annog pobl i newid y ffordd maen nhw'n teithio mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys drwy wella eu profiad teithio, gwneud trafndiaeth gynaliadwy yn fwy fforddiadwy a gwella'r gwaith o gynllunio teithiau integredig. Rydyn ni hefyd wedi dechrau defnyddio addysg, ymgyrchoedd a marchnata i drawsnewid y canfyddiad ynghylch cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus.

Yn ystod 2021/22 bu ein tîm yn gweithio ar ddatblygu ein hymgyrch farchnata newydd 'Y Rhwydwaith Cymdeithasol Go lawn'. Hon yw ymgyrch drafndiaeth gyhoeddus aml-ddull gyntaf Cymru ac mae'n hyrwyddo cerdded, beicio, defnyddio bysiau a threnau fel ffordd gynaliadwy o deithio. Defnyddir delweddau o'r ymgyrch yn yr adroddiad blynyddol hwn drwyddo draw, sy'n dangos sut y gellir defnyddio gwahanol dulliau o deithio i gysylltu â ffrindiau a theulu a dychwelyd i fyd addysg a'r gweithle.



Strwythur ein Grŵp

Mae Trafnidiaeth Cymru yn sefydliad sydd ym mherchnogaeth lwywr Llywodraeth Cymru. Rydym yn sefydliad nid-er-elw sydd yn bodoli i gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu rhwydwaith trafniadaeth diogel, integredig, fforddiadwy a chynaliadwy o safon uchel y mae pobl Cymru yn falch ohono. Rydym yn berchen ar dri is-gwmni: Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig, Gwasanaethau Arloesi TrC Cyfyngedig a Pullman Rail Limited.

Mae **Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig** yn gyfrifol am redeg gwasanaethau rheilffyrdd o ddydd i ddydd ar hyd rhwydwaith Cymru a'r Gororau. Cafodd Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig ei greu fel Gweithredwr y Dewis Olaf a benodwyd gan Lywodraeth Cymru, gan olynu KeolisAmey Cymru fel gweithredwr y rhwydwaith ym mis Chwefror 2021.

Mae Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig yn rheoli 248 o orsafoedd ac yn gweithredu'r holl brif wasanaethau sy'n gyfan gwbl yng Nghymru, yn ogystal â gwasanaethau sy'n cysylltu Cymru â Chaer, Amwythig, Lerpwl, Manceinion, Crewe, Bidston a Cheltenham.

Mae **Gwasanaethau Arloesi Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig** yn fenter ar y cyd rhwng TrC, Keolis ac Amey. TrC sydd â'r rhan fwyaf o gyfranddaliadau. Mae'r cwmni'n darparu arbenigedd a gallu arbenigol i sbarduno arloesedd a newid ar gyfer grŵp ehangach TrC, gan eu galluogi i ddarparu system drafniadaeth aml-ddull integredig ar gyfer pobl Cymru a'r gororau.

Mae **Pullman Rail Limited** yn gweithredu fel cwmni annibynnol sy'n darparu gwasanaethau o dan ei frand ei hun. Mae Pullman Rail Limited yn darparu arbenigedd technegol ar y rheilffyrdd, atebion peirianyddol arbenigol, uwchraddio a thrwsio cerbydau, adnewyddu a chynnal a chadw pob cerbyd rheilffordd cludo nwyddau a theithwyr.



TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig

Cwmni dan berchnogaeth
lwywr Trafnidiaeth Cymru

Pullman Rail Limited

Cwmni dan berchnogaeth
lwywr Trafnidiaeth Cymru

Gwasanaethau Arloesi Trafniadaeth Cymru Cyfyngedig

Menter ar y cyd rhwng
Trafniadaeth Cymru, Keolis ac Amey

Ein pencadlys ym
Mhontypridd



Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd

“Mae Llywodraeth Cymru yn frwd dros ddarparu rhwydwaith trafndiaeth o’r radd flaenaf sy’n rhoi pobl a newid yn yr hinsawdd wrth galon ei holl benderfyniadau. Ers dros 70 mlynedd, rydyn ni wedi’i gwneud hi’n haws teithio mewn car ac yn anoddach teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus. Rhaid i hynny newid.

“Gyda Trafnidiaeth Cymru, rydyn ni’n gweithio’n galed i drawsnewid rhwydwaith trafndiaeth Cymru a darparu dewis amgen cynaliadwy go iawn i bobl sy’n teithio. Mae hyn yn golygu darparu system sy’n hawdd ei defnyddio, yn hawdd cael mynediad iddi ac sydd wedi’i chysylltu’n dda fel ein bod yn gwneud y peth iawn, y peth hawdd i’w wneud; galluogi pobl i gamu allan o’u car a cherdded, beicio neu ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus yn lle hynny.

“Mae Trafnidiaeth Cymru wrth galon y trawsnewidiad hwn a fydd yn helpu i wneud gwahaniaeth go iawn i bobl, cymunedau a busnesau ledled Cymru wrth i ni barhau i ailadeiladu economi Cymru ar ôl y feirws.”



Lee Waters AS

Adroddiad y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Llywodraethu

Heather Clash



Yn wir, dyma'r flwyddyn lawn gyntaf gyda Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig dan berchnogaeth Trafnidiaeth Cymru. Mae hyn wedi rhoi cyfle i ni ddod â'n timau'n nes at ei gilydd, gan weithio'n fwy cydweithredol. Mae hyn wedi ein helpu i ddefnyddio ein hadnoddau'n well ac i reoli rhai o'n heriau ariannol sy'n deillio o bandemig y coronafeirws yn fwy effeithiol. Rwy'n falch ein bod wedi gweithio mor dda gyda'n gilydd dros y 12 mis diwethaf, gan ein helpu i ddarparu ar gyfer ein cwsmeriaid mewn ffordd fwy effeithlon ac effeithiol.

Rydyn ni hefyd yn cydweithio'n agos â'n cydweithwyr peirianeg arbenigol yn Pullman Rail Limited, ar ôl prynu'r busnes gan Colas Rail UK ym mis Awst 2021. Mae Pullman Rail yn parhau i weithredu fel busnes annibynnol ac rydyn ni'n gweithio gyda'n gilydd i ddatblygu ein depo yn Nhreganna yn barod ar gyfer cyflwyno trenau newydd a lansio'r Metro.

Mae'r gwaith o drawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd (CVL) yn mynd rhagddo'n dda erbyn hyn. Er gwaethaf heriau'r pandemig, a chyfraddau chwyddiant uchel, rydym wedi parhau â'n rhaglen o waith cyfalaf yn gyflym. Mae'r Undeb Ewropeaidd yn parhau i ddarparu cyllid rhannol ar gyfer Llinellau Craidd y Cymoedd yn yr un modd â chyllid a gafwyd yn flaenorol gan yr Adran Drafnidiaeth a chyllid parhaus gan Lywodraeth Cymru.

Fel bob amser, rydym yn cymryd ein cyfrifoldeb dros reolaeth ariannol a thryloywder o ddifrif yn unol â fframwaith Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. Mae'r agenda tryloywder a llywodraethu yn bwysig nid yn unig yng nghydestun ein cylch gwaith rheilffyrdd, ond mae hefyd yn un mor berthnasol i'n gweithgareddau darparu gwasanaethau ehangach, fel rheoli TrawsCymru a grantiau teithio llesol yn dilyn trosglwyddo o Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn.

O greu swyddi i ehangu ein gwasanaethau ar-alw fflecsi, a chymorth tuag at fuddsoddi mewn teithio llesol, rwy'n falch o TrC a'r rôl rydyn ni'n ei chwarae o ran helpu i wneud gwahaniaeth i bobl, cymunedau a busnesau ledled Cymru.

Mae wedi bod yn flwyddyn arall o newid sylweddol i Trafnidiaeth Cymru wrth i bandemig y coronafeirws barhau i brofi ein gwytnwch a herio ein ffordd o feddwl. Rydyn ni wedi parhau i gyflawni ein cynlluniau uchelgeisiol i drawsnewid y rhwydwaith trafnidiaeth, gan greu rhwydwaith cynaliadwy a fydd yn helpu pobl Cymru i ymateb i newid yn yr hinsawdd.

Rydyn ni wedi ymateb i'n heriau gydag ystwythder a gofal, gan roi ein cwsmeriaid ac anghenion cenedlaethau'r dyfodol wrth galon pob penderfyniad wrth i ni fwrw ymlaen â'r gwaith o adeiladu rhwydwaith trafnidiaeth sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Mae ein hiechyd a'n cydnorthedd ariannol yn allweddol i'n galluogi i ddarparu gwasanaethau i bobl Cymru a'r gororau, a hefyd i ariannu ein cynlluniau uchelgeisiol i drawsnewid y rhwydwaith trafnidiaeth. Fel sefydliad di-elw, po fwyaf llwyddiannus ydyn ni, y mwyaf y gallwn fuddsoddi mewn gwelliannau i'n helpu ni i gyd i ymateb i'r argyfwng hinsawdd.

Perfformiad am y flwyddyn

Mae'r tabl isod yn nodi canlyniadau Grŵp TrC ar gyfer y flwyddyn, gyda gwariant yn cael ei rannu yn ôl math o gyllid grant. Roedd ein gwariant yn unol â'n cylch gwaith terfynol a gwariant awdurdodedig arall, a oedd yn amrywio yn ystod y flwyddyn fel rhan o'r ymateb i Covid-19.

Mae'r canlyniadau'n seiliedig ar ffin gyllidebu'r llywodraeth ganolog ac nid ydynt yn cynnwys perfformiad Pullman Rail Limited sy'n cael ei ddsbarthu fel corfforaeth gyhoeddus hyd braich ac felly y tu allan i'r ffin ac eithrio ar gyfer trafodion cyllido a dosbarthu.

	Cyllid gan Lywodraeth Cymru (cylch gwaith ac ychwanegol)	Alldro			
		Cyfanswm gwariant (net referniw allanol)	Llai cyllid cyfalaf ERDF	Llai referniw allanol	Cyfanswm alldro a ariennir gan Lywodraeth Cymru*
Gwariant y gyllideb referniw	£346m	£469m	-	(£123m)	£346m
Gwariant y gyllideb cyfalaf	£351m	£359m	(£8m)	-	£351m

*Mae cyfanswm alldro grant Llywodraeth Cymru'n cynnwys yr elfennau canlynol.

	Alldro				
	Cyllid grant gwasanaethau trên	Grantiau bysiau a theithio llesol i Awdurdodau Lleol	Cyllid grant cylch gwaith arall Llywodraeth Cymru	Gweithgarwch nad yw'n cael ei ariannu gan grant gan Lywodraeth Cymru (wedi'i fynegi ar sail yr hyn sydd i'w gyflawni)	Cyfanswm cyllid gan Lywodraeth Cymru
Gwariant referniw sy'n cael ei ariannu gan grant	£281m	£3m	£56m	£6m	£346m
Gwariant cyfalaf sy'n cael ei ariannu gan grant	£55m	£49m	£247m	-	£351m
Cyfanswm	£336m	£52m	£303m	£6m	£697m

Mae'r cyllid grant gwasanaethau rheilffyrdd a dderbyniwyd yn ymwneud â thaliadau a wneir o dan y cytundeb grant i weithredu masnachfaint rheilffyrdd Cymru a'r Gororau, sy'n cael ei gweinyddu gan TrC ar ran Llywodraeth Cymru.

Mae perfformiad y fasnachfaint rheilffyrdd wedi'i nodi isod. Mae pandemig y coronafeirws wedi parhau i effeithio ar referniw rheilffordd yn ystod y flwyddyn ariannol gyda'r adferiad yn dechrau tua diwedd y flwyddyn ariannol ac i 2022/23. Roedd costau gweithredol ychwanegol hefyd oherwydd y pandemig ar gyfer rhannau o'r flwyddyn.

Cymhorthdal referniw masnachfaint rheilffyrdd	£000
Cyfanswm referniw	£110,330
Costau staff	(£161,926)
Costau cerbydau	(£120,481)
Costau perfformiad (net incwm gan Network Rail ar gyfer oedi arfaethedig)	(£6,466)
Costau seilwaith	(£63,556)
Costau gweithredu eraill	(£29,961)
Cyfanswm gwariant gweithredu	(£382,390)
Llog, dibrisiad ac amorteiddiad	(£5,257)
Yr angen am gymhorthdal referniw gan Lywodraeth Cymru	£281,219

Ein datganiadau ariannol

Mae'r datganiad incwm cyfunol yn dangos **colled** o £30m **ar gyfer y flwyddyn** (2021: £4m dros ben). Mae TrC yn defnyddio polisi ailbriso ar gyfer ei asedau rhwydwaith rheilffyrdd, sy'n golygu bod y dibrisiant blynyddol ar gyfer y rhwydwaith rheilffyrdd yn sylweddol uwch (2022: £44m) na'r cyllid grant i gaffael y rhwydwaith rheilffyrdd (2022: £14m) sy'n cael ei amortio drwy'r datganiad incwm. Bydd hyn felly'n arwain at golled flynyddol barhaus yn y datganiad incwm yn unig, sy'n cael ei wrthbwyso drwy drosglwyddiad yn y Datganiad Newidiadau mewn Ecwiti o'r gronfa ailbriso wrth gefn i'r gwaged wrth gefn (2022: £30m).

Ar ben hynny, mae canlyniadau 2020/21 wedi cael eu diwygio i adlewyrchu addasiadau gwerth teg a wnaed yn ystod y cyfnod ail-fesur i'r asedau a'r rhwymedigaethau a gafwyd fel rhan o'r broses o drosglwyddo masnachfaint rheilffyrdd Cymru a'r Gororau ym mis Chwefror 2021.

Mae'r gwaged/(colled) wrth gefn ar ôl yr addasiadau hyn wedi'u nodi isod.

Cymhorthdal refeiwi	2021/22 £000	2020/21 £000
Gwaged/(colled) cyn trosglwyddo cronfeydd wrth gefn ac addasiadau caffael masnachfaint rheilffyrdd	(£29,732)	£348
Addasiadau gwerth teg i asedau caffaeledig masnachfaint rheilffyrdd	-	£3,901
Trosglwyddo arian wrth gefn	£29,622	-
Symudiadau OCI eraill	£44	(£54)
Gwaged/(colledion) wrth gefn ar gyfer y flwyddyn	(£66)	£4,195

Gan nad yw TrC a Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyf yn gwneud elw, mae'r gwaged wrth gefn yn cynnwys y perfformiad yn Pullman Rail Limited yn unig, yn ogystal â gwahaniaethau amseru yn Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyf mewn perthynas â lesodded a threth gorfforaeth.

Roedd cyfanswm y treuliau ar gyfer y flwyddyn yn £565 miliwn. Nid yw'r gymhariaeth â chostau 2021 o £118 miliwn yn debyg i'w gilydd oherwydd newidiadau yn y Grŵp. Mae'r gwahaniaeth yn bennaf yn cynnwys blwyddyn lawn o ddarpariaeth gwasanaethau rheilffyrdd o'i gymharu â dau gyfnod trenau (wyth wythnos) y llynedd a chaffael Pullman Rail Limited ym mis Awst 2021.

Roeddem hefyd wedi hwyluso **taliadau grant uniongyrchol** i awdurdodau lleol o £3 miliwn o daliadau grant bws refeiwi Traws Cymru a £49 miliwn o daliadau grant cyfalaf teithio llesol, yn dilyn trosglwyddo'r gwaith o weinyddu'r grantiau hyn i TrC gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2021 (fel gwerth net yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr gan fod TrC yn gweithredu fel asiant gweinyddol, nid rhoddwr grant).

Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd yr **asedau cyfalaf** sydd gennym yn werth £2.7 biliwn. Cawsom £286 miliwn o ychwanegiadau cyfalaf sydd wedi'u hariannu gan grantiau yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â £6 miliwn o wariant cyfalaf wedi'i ariannu gan grant mewn perthynas â gwariant nad yw yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cyfalafu ar ein mantolen. Mae hyn wedi'i gynnwys yn y treuliau gweinyddol yn y datganiad incwm.

Rydym yn asesu gwerth **rhwydwaith trên Llinellau Craidd y Cymoedd** drwy broses briso, sydd wedi'i nodi yn nodyn 8 y cyfrifon. Mae'r prisiad yn seiliedig ar gost amnewid dibrisiant cyfwerth modern, ac mae'r gwerth ym mis Mawrth 2022 yn £2,024 miliwn, gostyngiad o £574 miliwn o'i gymharu â'r ffigur seiliedig ar gostau blaenorol yn bennaf oherwydd newidiadau mewn oes ddefnyddiol wrth i'n dealltwriaeth fanwl o'r sylfaen asedau dyfu yn dilyn caffael gan Network Rail ym mis Mawrth 2020, yn ogystal ag amcangyfrif wedi'i ddiweddarau o gostau iawndal tir yn dilyn adolygiad manwl o gostau iawndal diweddar a dalwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn newid yn yr amcangyfrif cyfrifyddu ac nid yw'n effeithio ar ein gofyniad cyllido na gwerth caffael yr ased.


Mae'r rhan fwyaf o'n **hasedau eiddo, offer a chyfarpar** yn gysylltiedig â seilwaith rheilffyrdd ond rydym hefyd yn dal £173 miliwn o asedau cyfalaf mewnol eraill. Mae'r rhain yn cynnwys eiddo, cerbydau, offer a pheiriannau, prydlesi, TG a meddalwedd a thwyddedau data. Mae gennym £474 miliwn o asedau wrthi'n cael eu hadeiladu ym mis Mawrth 2022, sy'n cynnwys y rhaglen waith sy'n cael ei gwneud i gefnogi'r gwaith o ddatblygu Metro De Cymru a chostau cyfalaf mewn perthynas â sefydlu fflyd newydd.

Roedd **caffael Pullman Rail Limited** ym mis Awst 2021 wedi arwain at ddefnyddio o £2 filiwn o asedau cysylltiedig â chwsmeriaid anniriaethol a £4 miliwn o ewyllys da – gweler nodyn 23 y cyfrifon i gael rhagor o fanylion.

Mae gennym £207 miliwn o **asedau cyfredol**, symiau masnach derbyniadwy yn bennaf a £237 miliwn o rwymedigaethau cyfredol, tymor byr, symiau taladwy cronodig yn bennaf. Mae'r symiau taladwy drwy fasnach a anfonebir yn gymharol isel (£35 miliwn) gan ein bod yn ceisio talu'r holl gyflenwyr yn brydlon.

Mae gennym **rwymedigaethau anghyfredol** o £1,147 miliwn, y mae'r rhan fwyaf yn ymwneud â balansau grant cyfalaf gohiriedig i'w rhyddhau yn erbyn yr asedau. Mae'r gweddill yn cynnwys rhwymedigaethau pensiwn buddion diffiniedig, prydlesi a darpariaethau dadfeiliadau cysylltiedig.


Sut gwnaethom wario cyllid Llywodraeth Cymru



Sut rydyn ni'n creu rhwydwaith trafndiaeth diogel, cynaliadwy, cydnerth ac effeithiol

Rydyn ni'n ei gwneud hi'n haws i deithio, drwy drawsnewid ein rhwydwaith trafndiaeth yn un sy'n addas ar gyfer y dyfodol ac yn un y gellir dibynnu arno. Wrth deithio ar drên, bws, beic neu'n cerdded, gall ein cwsmeriaid ddisgwyl gwasanaethau diogel, mwy effeithlon a chysylltiadau gwell. Rydyn ni'n gwneud hyn drwy fanteisio i'r eithaf ar dechnoleg a chynaliadwyedd.

Ein ffocws



Darparu a rheoli gwasanaethau trafndiaeth ar draws moddau

Gweithredu a chynnal gwasanaeth rheilffyrdd Cymru a'r Gororau a chynyddu ein darpariaeth a'n rheolaeth o wasanaethau sy'n gysylltiedig â thrafndiaeth



Gwreiddio cynaliadwyedd wrth ddarparu trafndiaeth

Sicrhau bod cynaliadwyedd yn flaenllaw ym mhob penderfyniad, gan helpu ein teithwyr i leihau eu heffaith amgylcheddol drwy greu rhwydwaith trafndiaeth gynaliadwy a defnyddio ffynonellau ynni adnewyddadwy ar gyfer ein gweithrediadau i helpu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwyrdd a lleihau gwastraff.



Meithrin cydnerthed yn ein rhwydwaith trafndiaeth

Mae cael gwell gwybodaeth am ein hasedau a'n seilwaith, defnyddio technoleg a meithrin gallu i ddelio â sefyllfaoedd yn y dyfodol ar yr un pryd â sicrhau iechyd, diogelwch a lles wrth galon popeth a wnawn.



Cynllunio a darparu system drafndiaeth integredig o'r dechrau i'r diwedd

Gwneud teithio'n haws a gwella cysylltiadau rhwng gwahanol fathau o drafndiaeth a gwahanol ranbarthau drwy ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel, seilwaith trafndiaeth integredig ac o'r dechrau i'r diwedd, gwybodaeth a gwasanaethau.



Llinellau Craidd y Cymoedd (CVL)

Fel perchennog seilwaith Llinellau Craidd y Cymoedd, rydyn ni'n rheoli adnewyddu pob ased gan gynnwys cledrau, strwythurau, signalau, gorsafoedd, cloddwaith a chyfrifoldebau oddi ar y trac fel ffensio a draenio. Mae ein rhaglen waith yn cynnwys y canlynol:

- ✓ gosod offer llinellau uwchben i bweru ein trenau tram trydanol newydd
- ✓ trydaneiddio dros 105 milltir o gledrau
- ✓ gosod signalau o'r radd flaenaf
- ✓ adeiladu o leiaf dwy orsaf newydd yng Nghaerdydd a'r cyffiniau
- ✓ addasu pontydd, croesfannau rheilffordd ac offer signalau
- ✓ rheoli llystyfiant.

Mae ein gwaith eleni wedi cynnwys:


- ✓ rheoli'r oedi o ran comisiynu signalau o ganlyniad i Covid-19. Mae'r gwaith aildrefnu wedi dechrau ond mae angen integreiddio'n sylweddol â'r Rhaglen Waith Genedlaethol ar draws y Diwydiant Rheilffyrdd oherwydd y llwybrau dargyfeiriol rhyng-gysylltiedig ar gyfer y Gwasanaethau Cludo Nwyddau a Theithwyr yn ogystal â'r gronfa gyfyngedig o adnoddau peirianeg arbenigol.
- ✓ parhau â'r gwaith adeiladu ar ein depo newydd a chanolfan rheoli integredig Llinellau Craidd y Cymoedd yn Ffynnon Taf, Rhondda Cynon Taf. Gan ddefnyddio'r system rheoli traffig ddiweddaraf, sy'n cyfuno gweithrediadau a rheoli seilwaith â gwybodaeth i yrwyr a theithwyr, bydd yn gartref i'n trenau tram Metro newydd yn ogystal â 400 o grîw trenau, 35 o staff cynnal a chadw a 52 o staff canolfan rheoli'r Metro.
- ✓ ynghyd â'n partneriaid cyflenwi seilwaith fel Cynghair Craidd, ni oedd y gynghrair rheilffyrdd gyntaf yn y byd i gael ardystiad ISO44001 – Systemau Rheoli Cysylltiadau Busnes Cydweithredol.

Rheoli asedau

Ein partner cyflenwi Amey Infrastructure Wales Limited yw rheolwr seilwaith rhwydwaith rheilffyrdd Llinellau Craidd y Cymoedd sy'n rhedeg o Gaerdydd i Dreherbert, Aberdâr, Merthyr Tudful, Coryton, Rhymni a Chwmbargoed. Roedd ein gwaith yn 2021/22 yn cynnwys:

- ✓ delio'n effeithiol â chanlyniadau Storm Arwen, Storm Eunice a Storm Dennis; lliniaru effeithiau'r stormydd drwy leihau gwasanaethau trenau ac yna ymgymryd â gweithrediadau glanhau helaeth ar draws rhwydwaith Llinellau Craidd y Cymoedd.
- ✓ parhau i reoli llystyfiant gan roi sylw arbennig i ardaloedd o goed yn marw, sy'n marw ac nad ydynt yn iach sy'n debygol o ddisgyn ar y llinell ac sy'n effeithio ar wasanaethau o ganlyniad i hynny.
- ✓ gweithio'n agos gyda DB Cargo, Tata Steel, Breedon Cement a British Steel i reoli'r risgiau diogelwch sy'n gysylltiedig â materion capasiti pontydd drwy gyflwyno cyfyngiadau pwysau. Roedd hyn yn cynnwys adnewyddu Pont Tan Reilffordd Stryd Adam ar frys ar lwybr Caerdydd i Gwm Bargoed.
- ✓ llwyddo i gyflawni'r gwaith carthu banc tywod ym Melingriffith yng Nghaerdydd gyda 151 tunnelli o ddeunydd wedi'i dynnu o'r safle, gan leihau'r risg o lifogydd.

- ✓ cwblhau adolygiad o'r asedau draenio ar bob cloddwaith. Bydd y data hwn yn cael ei ddefnyddio i sbarduno rhagor o astudiaethau, gwaith adnewyddu a gwella capasiti er mwyn cyflawni gwaith lliniaru wrth i ni barhau i fonitro gwaith cloddio a chapasiti draenio yn dilyn gwersi a ddysgwyd ar ôl i drên ddod oddi ar y cledrau yn Stonehaven ym mis Awst 2020.
- ✓ adolygu pob croesfan ddiogelwch ar draws rhwydwaith Llinellau Craidd y Cymoedd er mwyn gwella diogelwch y cyhoedd. Roedd hyn yn cynnwys gwella dwy groesfan reilffordd yn Nhŷ Glas a'r Eglwys Newydd er mwyn rhoi gwell gweledd i ddefnyddwyr. Mae giatiau hefyd wedi cael eu gwneud yn rhai sy'n cau eu hunain gyda llwybrau ar y naill ochr a'r llall i'r gatiâu wedi'u lledu ac mae arwynebau croesi wedi cael eu gwneud yn rhai di-lithr a gwastad er mwyn hwyluso mynediad i bawb.
- ✓ treialu technoleg newydd gyda RoboK gan ddefnyddio datrysiaid monitro a alluogir gan Deallusrwydd Artiffisial (AI) ar gyfer safle croesfan reilffordd heb bŵer.
- ✓ cyflwyno System Gwybodaeth Geo-ofodol (GIS) ar-lein i alluogi peirianwyr i weld metadata mewn model map 2D gyda data cyfun gan bartion allanol gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Awdurdod Glo, Cymdeithas Daearegol Prydain, awdurdodau lleol a chwmnïau cyfleustodau.
- ✓ caffael a gwaredu tir i helpu awdurdodau lleol i fwrw ymlaen â chynlluniau sy'n gwella eu seilwaith trafniadaeth.



Rydyn ni'n paratoi ar gyfer cyflwyno trenau tram trydan newydd sbon. Mae gwaith seilwaith hanfodol ar Llinellau Craidd y Cymoedd eleni yn golygu ein bod ni'n gam arall ymlaen at gyflawni Metro De Cymru.





Adnewyddu ein fflyd rheilffyrdd

Mae ein trenau'n teithio dros 13 miliwn milltir bob blwyddyn. Rydyn ni'n parhau i adnewyddu ein fflyd bresennol er mwyn i ni allu darparu mwy o gapasiti a gwasanaethau gwell sy'n hygyrch i bawb. Roedd uchafbwyntiau 2021/22 yn cynnwys:

- ✓ cwblhau'r holl addasiadau 'PRM' ar y fflyd bresennol drwy addasu'r trenau Dosbarth 153 sy'n weddill, sy'n golygu bod holl drenau TrC nawr yn bodloni'r gofynion mynediad cyfredol
- ✓ cael gwared â'r 15 Pacer olaf, nad oedd yn bodloni gofynion mynediad, o'r gwasanaeth ym mis Mai 2021. Rhoddwyd llawer o'r rhain i grwpiau cymunedol a rheilffyrdd treftadaeth lleol
- ✓ gorffen y rhaglenni adnewyddu ac ailfrandio ar y fflyd Dosbarth 175, 158 a 153. Mae dros hanner y fflyd Dosbarth 150 ar Linellau Craidd y Cymoedd bellach wedi cael ei hadnewyddu a'i hailfrandio

- ✓ darparu capasiti ychwanegol a chyfleusterau gwell i deithwyr ar reilffordd Rhymni drwy gyflwyno gweddill y trenau Dosbarth 769. Roedd hyn yn cynnwys darparu man tanwydd pwrpasol yn Rhymni
- ✓ cyflwyno'r cerbydau Mark IV cyntaf i wasanaeth teithwyr ar y llwybr rhwng Caergybi a Chaerdydd. Mae tri gwasanaeth bob dydd yr wythnos i bob cyfeiriad nawr yn cael eu gweithredu gan y trenau hyn sy'n cynnig amgylchedd teithio pellter hir cyfforddus, gan gynnwys cerbydau dosbarth cyntaf a chyfleusterau arlwyio llawn.
- ✓ paratoi ar gyfer y pum swp ychwanegol o stoc cerbydau Mark IV fydd yn ymuno â'r gwasanaeth ar wasanaethau De Cymru i Fanceinion o fis Rhagfyr 2022 ymlaen
- ✓ paratoi ar gyfer cyflwyno trenau Dosbarth 230 ar y llwybr rhwng Wrecsam a Bidston. Mae hyn wedi cynnwys derbyn yr holl drenau sy'n weddill gan Vivarail, profion helaeth ar y llwybr rhwng Wrecsam a Bidston, gwella'r chyfleusterau cynnal a chadw yn Birkenhead a rhaglen hyfforddi ddwys ar gyfer gyrwyr a goruchwylwyr.

"Mae ein trenau'n teithio dros 13 miliwn milltir bob blwyddyn."

Buddsoddi mewn trenau newydd

Rydyn ni'n buddsoddi £800 miliwn mewn trenau newydd gan y gweithgynhyrchwyr trenau Stadler a CAF i gyflwyno cyfnod newydd o deithio ar drenau i'n cwsmeriaid. Roedd cynnydd yn 2021/22 yn cynnwys y canlynol:

- ✓ cyflwyno dau FLIRT Dosbarth 231 ar gyfer profion comisiynu a math cyn eu derbyn i'r gwasanaeth ar Linellau Craidd y Cymoedd. Bydd eu peiriannau disel diweddaraf sy'n cydymffurfio â safon allyriant Cam V yn cyfyngu ar garbon monocsid, nitrogen ocsidiau a hydrocarbonau, gan helpu i leihau llygredd aer.
- ✓ adeiladu'r FLIRT Dosbarth 756 tri-modd cyntaf gyda phroffion statig a phŵer batri cychwynnol yn rhedeg ar y trac profi wedi'i gwblhau. Disgwylir cyflawni ym mis Tachwedd 2022 cyn y profion yn barod i'w cyflwyno ar Linellau Craidd y Cymoedd yn 2023
- ✓ cynhyrchu Dosbarth 398 CityLink, uned ddwy-fodd sy'n gallu gweithredu ar drydan uwchben neu bŵer batri. Mae profion wedi cael eu cwblhau yn Valencia ar yr unedau cyntaf, a disgwylir y bydd y tri cyntaf yn cael eu cyflwyno i'r DU ym mis Mai 2022 ar gyfer profion math traciau
- ✓ CAF yn cynhyrchu unedau disel Dosbarth 197. Mae'r rhaglen wedi cael ei hoedi ond mae pob parti bellach yn gweithio gyda'i gilydd i gytuno ar amserlenni ar gyfer cyflwyno'r uned gyntaf. Mae gwaith profi wedi cael ei wneud ar y rhan fwyaf o'r llwybrau yng ngogledd y rhwydwaith ac mae hyfforddiant criwiau trenau wedi dechrau ar yr unedau sydd ar gael gan CAF. Bydd y gwaith o uwchraddio seilwaith rheilffordd y Cambrian a'n depos yng Nghaer a Machynlleth yn cael ei gwblhau cyn i'r unedau gael eu derbyn.



Cyflwyno

**2 FLIRT
Dosbarth 231**

Adeiladu'r

**FLIRT Dosbarth
756 cyntaf**

Profi'r

**Citylink
Dosbarth 398**

Cynhyrchu

**Dosbarth
197 gan CAF**

Gwasanaethau trafndiaeth

Mae ein tîm gwasanaethau trafndiaeth yn cynnwys cydweithwyr sy'n gweithio ym maes glanhau, arlwyo, ansawdd gwasanaeth a Chyfnwidfa Bws Caerdydd. Yr ydym i gyd yn rhannu ymrwymiad i ddarparu'r gwasanaeth gorau un i gwsmeriaid. Roedd uchafbwyntiau ein gwaith yn 2021/22 yn cynnwys:

- ✓ ailgyflwyno arlwyo ar drenau ym mis Hydref 2021 gyda gwasanaethau bwyty'n gweithredu ar chwe gwasanaeth y dydd rhwng Caerdydd a Chaerdybi ac ar droli seddi arlwyo ar wasanaethau dethol. Roedd ein tîm arlwyo wedi cael ei symud o'r blaen i gefnogi glanhau a stiwardio manau cyffwrdd ychwanegol mewn gorsafedd yn ystod cyfnod prysuraf y pandemig
- ✓ recriwtio cogyddion ychwanegol i ddarparu ar gyfer yr angen am wasanaethau bwyty newydd gyda thri chogydd yn gweithredu o Gaerdybi erbyn hyn. Mae adborth cwsmeriaid ar ein bwydleni newydd wedi bod yn ardderchog
- ✓ buddsoddi yn ein gweithle yng Nghasnewydd i ddarparu mwy o le. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn gallu diwallu'r cynnydd yn y galw sy'n cael ei greu gan y gwasanaethau dosbarth cyntaf ychwanegol sydd wedi cael eu cyflwyno a hefyd yn barod ar gyfer cyflwyno gwasanaethau bwyty ychwanegol rhwng De Cymru a Manceinion o fis Rhagfyr 2022 ymlaen.
- ✓ darparu cyfleoedd ar y cyd â Choleg Caerdydd a'r Fro i fyfyrwyr arlwyo weithio gyda chogyddion TrC a phrofi'r amgylchedd ar y trên
- ✓ cyflwyno cenhedlaeth newydd o gynnyrch technoleg glanhau wedi'u gwneud o gynhwysion o darddiad naturiol. Rydyn ni wedi lleihau allyriadau carbon drwy ddewis cyflenwr sy'n defnyddio technoleg gynaliadwy a pheycynnu o ffynonellau cyfrifol.


Prosiectau gorsafedd rheilffordd

Gyda 248 o orsafoedd rheilffordd ar draws ein rhwydwaith, rydyn ni'n buddsoddi mewn gwella gorsafedd. Mae 33 o brosiectau gwahanol wedi cael eu cwblhau yn 2021/22.

Dyma rai o'r uchafbwyntiau:

- ✓ uwchraddio Caerdydd Canolog, megis gwell ystafelloedd aros a chyfleusterau toiled, cyflwyno pwyntiau USB ac arwyddion newydd. Bydd sgriniau gwybodaeth i gwsmeriaid hefyd yn cael eu hadnewyddu
- ✓ adnewyddu'r gorsafedd rheilffordd yn Abertawe, Pen-y-bont ar Ogwr, Cyffordd Dyfi, Machynlleth a Wrecsam Cyffredinol, a bydd y gwaith yn dechrau'n fuan yng Nghaer, Flint a Dwyrain Runcorn
- ✓ gosod system CCTV newydd a sgriniau gwybodaeth i gwsmeriaid yng ngorsaf drenau'r Fenni
- ✓ cyfleusterau staff wedi'u hadnewyddu yng Nghasnewydd a Manceinion Piccadilly
- ✓ darparu manau cymunedol wedi'u hadnewyddu yn y Barri, Bangor, Llandudno ac Abergele. Bydd y gwaith adnewyddu'n rhoi lle i denantiaid a chymunedau gynnal gweithgareddau a meithrin ymdeimlad o berthyn i'r rheilffordd
- ✓ cyflwyno manau ail-lenwi dŵr mewn gorsafedd hwb ledled Cymru. Mae ein tri phwynt ail-lenwi dŵr cyntaf wedi cael eu gosod yng ngorsafedd rheilffordd Machynlleth, Llandudno a Chaerdydd Canolog
- ✓ dechrau rhaglen i osod 200 o ddiffibrilwyr a chabinetau ar draws ein rhwydwaith
- ✓ cyflwyno marcwyr stopio ar gyfer ein trenau CAF newydd. Bydd 215 o orsafoedd yn cael eu huwchraddio i gyd cyn cyflwyno'r fflyd newydd.

“Yr ydym i gyd yn rhannu ymrwymiad i ddarparu'r gwasanaeth gorau un i gwsmeriaid”



248
gorsaf
rheilffordd
ar draws ein
rhwydwaith



33
o brosiectau
gorsafedd rheilffordd
wedi cael eu cwblhau
yn 2021/22

3 cogydd
newydd yng
Nghaerdybi



Datblygu cynaliadwy

Ein nod yw gwneud teithio ar y rheilffyrdd yng Nghymru yn wirioneddol gynaliadwy ac yn addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Bydd y gwelliannau rydyn ni'n eu gwneud yn helpu Cymru i gyrraedd ei thargedau datgarboneiddio uchelgeisiol. Roedd uchafbwyntiau ein gwaith yn 2021/22 yn cynnwys:

Llwybrau Gwyrdd

✓ Ar ôl cael dyfarniad llwyddiannus o £100,000 gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol drwy Gynllun Lleoedd Lleol ar gyfer Byd Natur Llywodraeth Cymru, fe wnaethom lansio ein prosiect Llwybrau Gwyrdd #NATUR. Rydyn ni'n darparu nodweddion gwyrdd a gwelliannau bioamrywiaeth mewn 22 o orsafoedd ledled Cymru ac mewn pum ardal gymunedol sy'n agos at ein gorsafoedd rheilffordd. Mae'r nodweddion bioamrywiol hyn yn cynnwys planwyr sy'n ystyriol o bryfed peillio, blychau bywyd gwyllt, paneli wal gwyrdd a thoeau.

✓ Gan weithio gyda'n pum partner cymunedol (Sefydliad Enbarr, Neuadd Bentref Ffynnon Taf, Ymddiriedolaeth Pentref Cambria, Rhandiroedd Bron Fair a Hyb Cymunedol Twyn), rydym wedi cefnogi creu mannau gwyrdd a chyflwyno blychau plannu, gerddi synhwyrdd a blychau bywyd gwyllt. Rydyn ni hefyd wedi darparu bytiau dŵr ac offer garddio i helpu gwirfoddolwyr i gynnal a chadw'r mannau gwyrdd hyn.

✓ Rydyn ni wedi cwblhau ein gorsaf Llwybrau Gwyrdd gyntaf yng Nghaerffili drwy gyflwyno planhigion wrth fynedfa'r gorsafoedd. Mae gwirfoddolwyr sy'n mabwysiadu gorsafoedd wedi cymryd yr awenau o ran plannu sy'n gyfeillgar i bryfed peillio a gofalu am y planwyr.

✓ Rydyn ni wedi cydweithio ag Ymddiriedolaeth Pentref Cambria i gefnogi'r gymuned, creu mannau gwyrdd ac annog bioamrywiaeth yng Nghwm Clydach <https://www.youtube.com/watch?v=xtEhdRQjTAK>

Gwobr Cenedlaethau'r Dyfodol Gwerth Cymdeithasol Cymru

✓ Roeddem yn falch o ennill y categori Cymru Ffyniannus, Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghynhadledd Gwerth Cymdeithasol Cymru ym mis Tachwedd 2021. Roedd hyn ar gyfer dodrefnu ein swyddfa newydd ym Mhontypridd.

✓ Buom yn gweithio gyda Swyddfa Rype a Sefydliad y Deillion Merthyr Tudful i aildefnyddio ac uwchgyrchu ein hen ddodrefn swyddfa, dod o hyd i ddodrefn ail-law a chynhyrchu dodrefn newydd wedi'u hailgylchu 100%. Roedd dodrefn ein swyddfa wedi arbed 92,000 kg o garbon o'i gymharu â phrynododrefn swyddfa newydd.

✓ Darparodd Sefydliad y Deillion Merthyr Tudful gyflogaeth i bump o bobl ag anableddau ar y Cyflog Byw Gwirioneddol.



Mae Ymddiriedolaeth Pentref Cambria a'u gwirfoddolwyr yn bartneriaid yn ein prosiect Llwybrau Gwyrdd

92,000 kg

O garbon wedi'i arbed ar ein dodrefn swyddfa

22

O orsafoedd yn elwa o nodweddion bioamrywiol gan gynnwys potiau planhigion sy'n gyfeillgar i bryfed peillio a phaneca wal werdd

£100,000

O arian y Loteri Genedlaethol wedi'i dderbyn

Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth

✓ Lanswyd ein Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth ym Mehefin 2021. Mae'n nodi egwyddorion i sicrhau ein bod yn gwarchod, yn gwella ac yn hyrwyddo bywyd gwyllt, bioamrywiaeth a'n hecosystemau ym mhopeth a wnawn. Mae hyn yn cynnwys targedau uchelgeisiol o beidio â cholli bioamrywiaeth net yn ein gweithrediadau erbyn 2024, a lle bo'n bosibl, enillion net o ran bioamrywiaeth.

Y Ddraig Werdd

✓ Mae Gwobr y Ddraig Werdd yn System Rheoli Amgylcheddol Cymru, y gellir ei throsglwyddo ar Lefel 5 i ISO14001. Rydyn ni wedi ennill ardystiad Lefel 3 y Ddraig Werdd ar gyfer ein pencadlys, ein canolfannau arlwyio a'n canolfannau glanhau. Mae gan ein depos yn Nhreganna, Machynlleth a Chaerdybi i gyd Lefel 5 ac mae gan ein gorsafoedd Lefel 2.



Rydym ni wedi bod yn helpu deiliaid rhandiroedd i greu ardal llesiant yn rhandiroedd Bron Fair ym Maesteg.

Sut ydym yn datblygu profiad sy'n gwella trwy'r adeg, rhoi'r cwsmer wrth galon yr hyn rydyn ni'n ei wneud

Mae ein cwsmeriaid wrth galon popeth rydyn ni'n ei wneud, ac rydyn ni'n parhau i wella ein dealltwriaeth o'u hanghenion er mwyn darparu gwasanaethau gwell. Bydd ein gweithwyr a'n gwasanaethau'n gwneud i'n cwsmeriaid deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a byddwn ni'n grymuso ein gweithwyr i wneud y penderfyniadau iawn.

Ein ffocws



Gwella profiad teithio a thrafnidiaeth ein cwsmeriaid

gan wneud teithio'n haws drwy ddarparu gwasanaethau trafndiaeth integredig o safon, sy'n diwallu anghenion heddiw ac yn y dyfodol.



Darparu gwasanaethau trafndiaeth fforddiadwy, atyniadol a hygyrch

datblygu rhwydwaith trafndiaeth cynhwysol sy'n diwallu anghenion pawb.



Dylanwadu ar newid cadarnhaol mewn ymddygiad cwsmeriaid a llywio disgwyladau

creu ymwybyddiaeth o'r angen i ddefnyddio gwasanaethau ac adnoddau'n gynaliadwy ac yn annog pobl i fod yn fwy cyfrifol yn eu dewisiadau.



Creu profiad sy'n canolbwyntio ar fyw'n iach

creu profiad diogel, iach a phleserus i'n cwsmeriaid, boed hynny ddydd neu nos ac o dan bob tywydd.



Bod yn frand uchel ei barch, dwyieithog sy'n canolbwyntio ar y cwsmer

bod yn falch o fod yn Gymreig ac ennill ymddiriedaeth a balchder yn ein brand.



Darparu gwasanaeth dibynadwy o ansawdd uchel

Mae pandemig y coronafeirws wedi creu heriau sylweddol i gymdeithas, gan newid y ffordd rydyn ni i gyd yn byw ein bywydau a'r ffordd mae cwsmeriaid yn defnyddio ein gwasanaethau. Rydyn ni wedi gweithio'n galed i gynnal gwasanaeth cyson a dibynadwy ar yr un pryd â pharhau i adeiladu rhwydwaith trafndiaeth y gall Cymru fod yn falch ohono. Mae ein prif lwyddiannau yn 2021/22 yn cynnwys:

- ✓ Rydyn ni wedi gweithio'n agos gyda Chyngor Sir Caerfyrddin i baratoi ar gyfer cyflwyno gwasanaeth newydd T1 TrawsCymru yn hydref 2022. Fe wnaethom ddarparu cyngor technegol i'w galluogi i brynu wyth bws trydan newydd sy'n defnyddio batri i'w defnyddio ar y llwybr. Fe wnaethom hefyd roi cyngor ar greu depo newydd sy'n eiddo i'r cyhoedd.

Integreiddio TrawsCymru

- ✓ Roeddem wedi ymgymryd â'r gwaith o reoli TrawsCymru yn weithredol ym mis Ebrill 2021. Ers hynny, rydyn wedi datblygu cynlluniau i ymgymryd â gwaith rheoli llwybrau TrawsCymru gan awdurdodau lleol ar ran Llywodraeth Cymru. Mae ffurf safonol o gontract i'w ddefnyddio ar draws pob llwybr wedi cael ei ddatblygu a fydd yn sicrhau dull gweithredu cyffredin a gwell profiad i gwsmeriaid. Rydyn ni wedi cynnal ymgynghoriad â theithwyr ar gyfer y llwybr T1 cychwynnol ac wedi ymgynghori â gweithredwyr bysiau. Mae brandio ar gyfer bysiau newydd wedi cael ei ddatblygu a fydd yn rhan o deulu brand TrC.

Trawsnewid gwasanaeth TrawsCymru

- ✓ Mae dau aelod penodol o staff wedi cael eu penodi i gaffael gwasanaethau newydd a bysiau dim allyriadau.
- ✓ Rydyn ni wedi darparu porth grantiau ar-lein TrawsCymru er mwyn i awdurdodau lleol allu gwneud cais am grantiau TrawsCymru ar gyfer contractau presennol a gwneud hawliadau chwarterol. Mae hyn yn disodli ceisiadau blaenorol ar ffurf e-bost a phapur. Rydyn hefyd wedi datblygu system monitro dan dreial gan ddefnyddio amrywiaeth o ddata, gan gynnwys telemateg.

Datblygu'r cynnig i gwsmeriaid yn barhaus

- ✓ Rydym wedi ymrwymo o hyd i greu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid y gall Cymru fod yn falch ohonynt a chyflwyno ffyrdd newydd a symlach i'n cwsmeriaid deithio ar rwydwaith trafndiaeth integredig. Yn ystod 2021/22, rydym wedi gwella mynediad i'n rhwydwaith, wedi buddsoddi mewn technoleg ddigidol ar gyfer tocynnau ac wedi creu partneriaethau ag adwerthwyr lleol yn y gymuned. Mae ein gwaith wedi cynnwys:

Tocynnau Talu wrth Deithio

- ✓ Rydyn ni'n parhau i ddatblygu'r cynnig tocynnau Talu Wrth Deithio yng Nghymru, gyda chynlluniau ar waith i gyflwyno'r cynllun o 2022 ymlaen. Byddwn yn cynnal cynlluniau peilot yng Ngogledd a De Ddwyrain Cymru, ar lwybrau bysiau a threnau ar wahân i ddechrau, cyn eu hintegreiddio i system docynnau aml-ddull.
- ✓ Rydyn ni wedi bod yn datblygu ac yn profi ein datrysiadau technoleg talu wrth deithio, wedi dechrau gweithio gyda gweithredwyr rheilffyrdd a bysiau ar eu defnydd ac wedi dechrau datblygu cynnig i'n cwsmeriaid. Rydyn ni wedi comisiynu ein partneriaid cyflenwi allweddol i weithio gyda ni ar ddatblygu'r cynllun a dros y flwyddyn nesaf byddwn yn gweithio i'w greu a'i brofi ar y rhwydwaith. Rydyn ni'n disgwyl rhoi ein treialon cyntaf ar waith yng Nghaerdydd a Chasnewydd ddiwedd 2022.

Technoleg tocynnau bws

- ✓ Rydyn ni'n parhau i weithio gyda gweithredwyr bysiau i osod darllenwyr cardiaid 'tapio' ar draws ffylod bysiau Cymru. Bydd y buddsoddiad hwn yn cefnogi cyflwyno cardiaid credyd neu ddebyd Talu wrth Deithio yn y dyfodol, gan alluogi teithio di-dor ledled Cymru.
- ✓ Rydyn ni'n gweithio gyda gweithredwyr bysiau yng Ngogledd Cymru i newid y tocyn diwrnod 1bws aml-weithredwr sy'n caniatáu i chi deithio drwy'r dydd i dechnoleg 'tapio' ar y dechrau a'r diwedd. Rydyn ni yn disgwyl cwblhau'r gwaith hwn yn 2022.

Partneriaeth tocynnau manwerthwyr lleol

- ✓ Rydym wedi lansio partneriaeth newydd gyda Payzone, a fydd yn galluogi siopau a swyddfeydd post i werthu tocynnau trê. Rydyn ni'n treialu'r cynnig hwn i ddechrau yn ardal Metro De Ddwyrain Cymru gyda dros 90 o leoliadau newydd. Yn dibynnu ar lwyddiant y treial hwn, rydym yn bwriadu ehangu'r gwasanaeth hwn ledled Cymru, gan ddarparu mynediad i dros 700 o ganolfannau Payzone ledled y wlad.

Darparu gwybodaeth, cyfathrebu ac ymgysylltu â chwsmeriaid o ansawdd uchel

Mae effaith pandemig y coronafeirws ar ein gwasanaethau yn golygu bod gwybodaeth glir a chyson am gwsmeriaid yn bwysicach nag erioed. Rydyn ni'n gweithio'n galed i wella ein hymgysylltiad â chwsmeriaid. Rydyn ni wedi buddsoddi yn ein llwyfannau digidol a'n gwybodaeth a chreu deunyddiau cyfathrebu newydd. Roedd uchafbwyntiau 2021/22 yn cynnwys:

PTI Cymru

- ✓ Rydyn ni wedi paratoi ar gyfer caffael PTI Cymru. Mae'r cwmni y tu ôl i'r brand 'Traveline Cymru' cyfarwydd ac uchel ei barch sydd wedi darparu gwybodaeth ddwyieithog ar-lein a dros y ffôn i deithwyr ledled Cymru a'r gororau. Bydd y caffaeliad yn ein galluogi i ddod â gwasanaeth gwybodaeth cwsmeriaid Traveline, sydd wedi ennill gwobrau, ynghyd ag arbenigedd cyflawni gweithredol TrC.

Sgwrs

- ✓ Rydyn ni wedi lansio 'Sgwrs', cymuned ar-lein newydd i roi cyfle i'n cwsmeriaid helpu i siapio'r gwaith o drawsnewid teithio yng Nghymru. Mae aelodau'r gymuned yn cymryd rhan mewn arolygon, trafodaethau ar-lein, a fforymau trafod ar-lein wedi'u cymedroli ar amrywiaeth o bynciau sy'n ymwneud â thrafnidiaeth er mwyn ein helpu i wella ein gwasanaethau. Bydd 'Sgwrs' yn galluogi TrC i gasglu barn a syniadau ar gyfer dyfodol teithio, gan gynnwys trenau, bysiau a theithio llesol.

Panel Cyngori

- ✓ Mae ein Panel Cyngori annibynnol wedi bod yn edrych ar atebion aml-ddull i dtrafnidiaeth gyhoeddus ac yn cyfrannu at Fwrdd Perfformiad Trafnidiaeth newydd Llywodraeth Cymru sydd wedi ei sefydlu fel un o argymhellion [Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru](#).
- ✓ Ym mis Rhagfyr 2021, bu aelodau'r panel yn ymweld â'n hunedau i weld â'u llygaid eu hunain y cerbydau newydd a'r gwelliannau y byddant yn eu gwneud i ddefnyddwyr y rheilffyrdd.

Galluogi teithiau esmwyth a didrafferth ledled Cymru

Un o flaenoriaethau allweddol TrC yw integreiddio system drafnidiaeth Cymru. Rydyn ni wedi gweithio'n galed drwy gydol 2021/22 i gynyddu teithiau esmwyth a di-dor ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys integreiddio trafndiaeth yn well mewn gorsafoedd a chyfnewidfeydd, o fewn a rhwng gwahanol ddulliau trafndiaeth a thrwy'r systemau gwybodaeth a thocynnau a ddefnyddiwn. Dyma rai o'r uchafbwyntiau:

Cyfnewidfeydd bysiau

- ✓ Cynhaliwyd archwiliad llawn gennym o'r holl orsafoedd bysiau yng Nghymru yn ystod 2021/22 i sefydlu cronfa ddata o gyfleusterau. Bydd y data hwn yn sail i restr gyfun i'n galluogi i ddatblygu cyfnewidfeydd bysiau allweddol ledled Cymru ynghyd â chreu cyfleusterau mwy deniadol sy'n canolbwyntio ar y cwsmer.
- ✓ Fe wnaethom gwblhau astudiaeth o safleoedd bysiau yn ardal Metro Gogledd Cymru i gyd-fynd â'r rhwydweithiau bysiau diwygiedig — gan sicrhau bod gennym y seilwaith cywir a'r wybodaeth amser real i deithwyr ar gael i weithredwyr a chwsmeriaid.
- ✓ Fe wnaethom gwblhau arolygon o amrywiaeth o safleoedd posibl ar gyfer depos bysiau TrawsCymru a allai gael y seilwaith i weithredu bysiau trydan a hydrogen heb allyriadau. Rydyn ni hefyd wedi dechrau ystyried y seilwaith sydd ei angen ar gyfer gweddill y rhwydwaith bysiau i'r dyfodol.

Integreiddio rheilffyrdd TrawsCymru

- ✓ Ym mis Medi 2021, gwnaethom lwyddo i lansio gwasanaeth tocynnau integredig ar lwybr T1 TrawsCymru (rhwyng Caerfyrddin ac Aberystwyth) a chreu 'rith orsafoedd' yn Aberaeron a Llanbedr Pont Steffan. Mae ein gwefan newydd yn galluogi cwsmeriaid i gynllunio teithiau ac archebu tocynnau o'r trê i T1 TrawsCymru.
- ✓ Byddwn yn parhau i ehangu'r gwasanaethau hyn i lwybrau TrawsCymru eraill ac rydym yn gobeithio galluogi teithiau integredig ar draws pob llwybr erbyn dechrau 2023. Byddwn hefyd yn gwella'r gwasanaeth drwy gyflwyno gwybodaeth amser real ar gyfer rhannau daith fydd ar fysiau.

Prisiau a thocynnau integredig

- ✓ Rydym wedi parhau i greu tocynnau a phrisiau rhatach a mwy integredig ledled Cymru. Rydyn ni'n gweithio i ddatblygu atebion o ran tocynnau sy'n gwneud teithio'n haws i bawb, gan ddileu cymhlethdod lle bynnag y bo modd.
- ✓ Rydyn ni wedi gweithio gyda gweithredwyr bysiau yng Ngogledd Cymru i gyflwyno'r tocyn aml-weithredwr 1bws, sy'n golygu bod modd teithio ar draws gwahanol weithredwyr gan ddefnyddio'r un tocyn. Dyma ein cam cyntaf hefyd o ran galluogi teithiau ar draws gwahanol fathau o drafnidiaeth yng Ngogledd Cymru. Rydyn ni'n bwriadu datblygu'r dechnoleg, yn enwedig yn rhanbarthau Metro Cymru.
- ✓ Yn ystod 2022, rydym yn bwriadu lansio ein treialon cyntaf o Docynnau Tocynnau Talu wrth Deithio yn Ne Ddwyrain Cymru, sy'n galluogi teithwyr i deithio gan ddefnyddio eu cerdyn banc a thechnoleg 'tapio' ar y dechrau a'r diwedd' i deithio ar draws y rhanbarth.

Prisiau teg

- ✓ Rydyn ni wedi parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i greu cynllun prisiau teg ledled Cymru. Rydyn ni wedi ymrwymo i greu rhwydwaith hygyrch a syml i'w ddefnyddio gyda gwasanaeth o safon uchel.

Cynllun Tocynnau Teithio Consesiynol

- ✓ Rydyn ni'n parhau i gefnogi Llywodraeth Cymru drwy ddarparu data ar ddefnyddio cardiaid teithio consesiynol a darparu gweithgareddau i gefnogi'r cynllun.
- ✓ Rydyn ni wedi sefydlu porth rheoli cysylltiadau cwsmeriaid newydd i alluogi ceisiadau ar-lein haws ar gyfer cardiaid consesiynol a gwell cefnogaeth i ddefnyddwyr y cynllun. Mae'r newid hwn wedi cael ei gyflwyno'n llwyddiannus ac mae'n caniatáu i'r rhan fwyaf o geisiadau am gardiau gael eu gwirio a'u cymeradwyo heb ymyrraeth bellach.

“Rydym ni wedi ymrwymo i greu rhwydwaith hygyrch a syml i'w ddefnyddio gyda gwasanaeth o safon uchel.”



Sut rydyn ni'n darparu cyngor arbenigol dibynadwy drwy arwain, arloesi a chydweithio

Rydyn ni'n datblygu ein gallu i fod yn gynghorydd dibynadwy ac i gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer trafndiaeth yng Nghymru. Rydyn ni'n gwneud hyn drwy gydweithio â'n cwsmeriaid, ein partneriaid a'n rhanddeiliaid a drwy fod yn arweinydd yn y sector. Ein nod yw cael ein parchu am ein cyngor dibynadwy a gwybodus.

Ein ffocws




Data a mewnwelediad

Ddefnyddio data a gwybodaeth i ategu ein penderfyniadau; ein helpu ni i ddeall y rhwydwaith rydyn ni'n ei weithredu yn well a chefnogi Llywodraeth Cymru gyda gwybodaeth glir fel ei gynghorydd arbenigol ar drafndiaeth.



Dylunio a datblygu

Gweithio gyda Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a'n partneriaid i ddylunio a datblygu rhwydwaith trafndiaeth y gall Cymru fod yn falch ohono; cefnogi a chyflawni Llwybr Newydd: Strategaeth Drafndiaeth Cymru 2021 a'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafndiaeth.



Datgarboneiddio

Gweithio gyda Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a chyrrff cyflawni cenedlaethol, yn cynnwys Network Rail i ddarparu rhwydwaith trafndiaeth wedi ei ddatgarboneiddio yng Nghymru.



Datblygu asedau

Datblygu ein hasedau er budd pobl Cymru a'r gororau; darparu gofod a chyfleoedd i gymunedau, yn ogystal â chreu ffrydiau incwm newydd i gyllido ail-fuddsoddi pellach yn rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus Cymru.





Teithio llesol

Ystyr teithio llesol yw cerdded a beicio ar gyfer teithiau bob dydd. Mae [Deddf Teithio Llesol \(Cymru\) 2013](#) yn pennu gofyniad cyfreithiol ar awdurdodau lleol yng Nghymru i fapio a chynllunio llwybrau addas ar gyfer teithio llesol.

Yn 2021/22, rydym wedi:

- ✓ gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu fframwaith monitro cenedlaethol ar gyfer teithio llesol i gefnogi eu hamcan o gynyddu lefelau cerdded a beicio
- ✓ parhau i weithio ar argymhellion Uned Gyflawni Burns gan ganolbwyntio ar wella mynediad at opsiynau trafndiaeth gynaliadwy rhwng Casnewydd a Chaerdydd. Rydyn ni wedi cynnal ymgynghoriadau ar gyfer coridorau bysiau a beiciau Caerdydd a Chasnewydd ac ar gyfer gwella mynediad i orsaf reilffordd Cyffordd Twnnel Hafren
- ✓ cwblhau astudiaeth gychwynnol ar gyfleoedd i ehangu argaeledd llogi beiciau ac e-sgwteri fel rhan o'n hymrwymiad i newid moddol a datgarboneiddio
- ✓ datblygu systemau a phrosesau newydd i dderbyn a gweinyddu hawliadau am gyllid grant am £49 miliwn sy'n cael ei ddarparu gan awdurdodau lleol drwy Raglen y Gronfa Teithio Llesol. Mae hyn yn gynnydd amlwg o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol ac mae'n cynnwys cydlynu rownd fidio ychwanegol er mwyn i awdurdodau lleol allu cael gafael ar ragor o gyllid teithio llesol a sefydlu mecanweithiau ar gyfer amrywiadau cyllido rhwng cynlluniau awdurdodau lleol.
- ✓ darparu cefnogaeth, cyngor ac arweiniad i holl awdurdodau lleol Cymru ar ddylunio a datblygu eu rhaglenni teithio llesol
- ✓ lansio'r Grŵp Swyddogion Teithio Llesol Cenedlaethol a'r Fforwm Cyngori Cenedlaethol ar Deithio Llesol, gan alluogi ein rhanddeiliaid i gyfrannu at ein gwaith a helpu i lunio ein cynlluniau
- ✓ gweithio ar ran Llywodraeth Cymru i adolygu a diweddarau Canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol. Rydyn ni hefyd wedi darparu canllawiau ar safonau sylfaenol ar gyfer dylunio a datblygu seilwaith teithio llesol yng Nghymru
- ✓ datblygu rhestr wirio i sicrhau bod teithio llesol wedi'i wreiddio yn natblygiad holl brosiectau TrC. Mae hyn yn hyrwyddo datblygu system drafnidiaeth integredig i gefnogi'r agenda datgarboneiddio ac annog newid moddol o geir preifat
- ✓ datblygu cynlluniau rhwydwaith gorsafoedd teithio llesol ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr, Llanelli, Castell-nedd a Phontypridd. Bydd y gwaith hwn yn annog defnyddio dulliau trafndiaeth cynaliadwy gyda phrofiad gwell i gwsmeriaid
- ✓ diweddarau cynllun Teithio TrC i helpu i godi ymwybyddiaeth o'r opsiynau teithio llesol a chynaliadwy sydd ar gael i'n cydweithwyr fel rhan o'n hymrwymiad ehangach i greu Cymru iachach.

“Rydyn ni'n cefnogi Llywodraeth Cymru gyda'i hamcan o gynyddu lefelau cerdded a beicio.”



£49
miliwn

Grantiau
Teithio Llesol i
Awdurdodau Lleol



Bysiau

Mae ein cylch gwaith yn parhau i esblygu wrth i ni weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu Bws Cymru, cynllun pum mlynedd sy'n edrych ar bob agwedd ar wella darpariaeth gwasanaethau bysiau i deithwyr gan gynnwys seilwaith, dyrannu ffyrdd, hygyrchedd ac integreiddio â dulliau trafniadaeth gyhoeddus eraill. Mae'r prif lwyddiannau yn 2021/22 yn cynnwys:

- ✓ cynhyrchu Asesiad Effaith Integredig ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Llywodraeth Cymru, a fydd yn ddogfen allweddol i gefnogi'r Bil Bysiau
- ✓ gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddatblygu model gweithredu diwygiedig y cytunir arno gydag awdurdodau lleol. Mae'n nodi cyfrifoldebau ac atebolrwydd mewn perthynas â'r dirwedd bysiau yn y dyfodol a chyllid ar gyfer cymorth bysiau
- ✓ gweithredu gwasanaeth data ariannol a gweithredol newydd i gefnogi taliadau a chysoni, monitro cydymffurfiad gweithredwyr, atal twyll a llywio penderfyniadau strategol
- ✓ gweithio gyda darparwyr meddalwedd gweithredwyr bysiau a Cityswift i gyflwyno prawf o gysyniad sy'n helpu i ganfod cyfleoedd ar gyfer rhwydweithiau gwell a mwy effeithlon. Gan ddefnyddio data byw ar y trênn gan y chwe gweithredwr mwyaf yng Nghymru, bydd y gwaith hwn yn helpu'r diwydiant i ddeall proffiliau cwsmeriaid yn well a theithiau wrth i Gymru ddod allan o bandemig y coronafeirws
- ✓ cydweithio ag awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru i ddatblygu rhwydweithiau bysiau rhanbarthol a lleol uchelgeisiol. Mae hyn wedi cynnwys asesiadau i ddangos lle gellir gwella seilwaith ac amseroedd teithio
- ✓ cyflwyno 11 o gynlluniau peilot fflecsi ledled Cymru, gan gynnwys Casnewydd, sydd â dros 2,500 o deithiau bob wythnos ac sy'n ategu gwasanaethau bws llinell sefydlog yn y ddinas
- ✓ mae pum llwybr fflecsi newydd wedi cael eu cyflwyno: Blaenau Gwent, Treffynnon, estyniad Casnewydd, Bwcabws a gwasanaeth tymhorol O Ddrws i Ddŵr ar Benrhyn Llŷn
- ✓ cynllunio ar gyfer cyflwyno 40 o fysiau hydrogen a seilwaith cysylltiedig i ardal Bae Abertawe. Bydd hwn yn cael ei ddefnyddio fel cynllun peilot ar gyfer cyflwyno bysiau hydrogen ledled Cymru.
- ✓ llunio manyleb safonol ar gyfer cynlluniau Bysiau Cyflym (BRT) yng Nghymru. Mae hon yn cael ei ddefnyddio i gynhyrchu astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer cynllun BRT rhwng Casnewydd a Chaerdydd, fel rhan o Fetro De Ddwyrain Cymru
- ✓ gosod 1,800 o ddarllenwyr cardiau tapio ar fysiau ledled Cymru. Bydd hyn yn darparu'r data am gyrchfannau teithiau er mwyn gallu datblygu cynigion ar gyfer tocynnau aml-weithredwr
- ✓ cynnal astudiaeth o safleoedd bysiau yn ardal Metro Gogledd Cymru i gyd-fynd â'r rhwydweithiau bysiau diwygiedig. Bydd hyn yn sicrhau bod y seilwaith cywir gennym, gan gynnwys gwybodaeth amser real i deithwyr, fydd ar gael i weithredwyr a chwsmeriaid
- ✓ gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu ei pholisi a'i chynlluniau ar gyfer cyflwyno bysiau dim allyriadau ar draws rhwydwaith Cymru gyfan.



1,800

O ddarllenwyr cardiau tapio wedi'u gosod ar fysiau ledled Cymru



Cysylltu'r Gymru wledig

- ✓ Rydyn ni wedi bod yn cefnogi Llywodraeth Cymru i gyflawni [Llwybr Newydd – Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021](#). Mae'r strategaeth hon yn cynnwys mesurau i wella dibynadwyedd, diogelwch ac amlder gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru. Rydyn ni wedi bod yn diffinio cwmpas y gwaith hwn ac yn dadansoddi cyrhaeddiad daearyddol presennol trafnidiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd allweddol.
- ✓ Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu astudiaethau achos peilot a fydd yn darparu'r data ar gyfer dull gweithredu Cymru gyfan ar gyfer cysylltu Cymru wledig.

“Rydyn ni wedi bod yn dadansoddi cyrhaeddiad daearyddol presennol trafnidiaeth gyhoeddus mewn aneddiadau allweddol gyda'r nod tymor hwy o wella dibynadwyedd, diogelwch ac amlder gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru.”



Cyngor arbenigol a rheoli prosiectau

- ✓ Rydyn ni'n cefnogi Llywodraeth Cymru i baratoi'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth. Mae'r cynllun yn dwyn ynghyd y rhaglenni, y prosiectau a'r ymyriadau trafndiaeth ar draws pob sector trafndiaeth yng Nghymru.
- ✓ Mae Geoff Ogden, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cynllunio, Datblygu a Chyngori, wedi cael ei benodi i'r Panel Adolygu Ffyrdd gan Lywodraeth Cymru.
- ✓ Sefydlwyd y panel i gyngori ar brosiectau ffyrdd cyfredol a sut y dylem ystyried prosiectau ffyrdd yn y dyfodol. Mae TrC hefyd wedi cael ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i ddarparu cyngor technegol a chyngor rheoli prosiectau arbenigol i'r Panel.
- ✓ Rydyn ni wedi bod yn helpu Llywodraeth Cymru i gyflwyno wyth treial fel rhan o gam cyntaf Adroddiad Terfynol Grŵp y Tasglu 20mya yng Nghymru. Mae hyn cyn cyflwyno'n llawn ledled Cymru yn 2023.
- ✓ Rydyn ni'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru, Cyngor Gwynedd a'r gymuned leol i ddatblygu cyfleoedd tymor byr ac atebion cynaliadwy tymor hwy yn lle Cynllun Ffordd Fynediad Llanbedr. Bydd y gwaith cychwynnol yn cael ei gwblhau yn 2022-23.
- ✓ Ym mis Mawrth 2022, roeddem wedi dechrau datblygu achos busnes amlinellol ar gyfer cam un Crossrail Caerdydd. Rydyn ni wedi bod yn cydweithio â Llywodraeth Cymru a Chyngor Caerdydd i hwyluso cytundeb datblygu ar gyfer y coridor rhwng Caerdydd Canolog ac Alexandra Head, drwy Stryd Pierhead a Phorth Teigr. Nid yw'r cytundeb wedi'i gwblhau eto ond bydd yn cynnwys y datblygiadau arfaethedig yn yr ardal ynghyd â'r mecanweithiau cyllido a'r cyfrifoldeb ar gyfer cyflawni. Mae wedi'i ariannu'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop.
- ✓ Rydym wedi sefydlu rhaglen newydd sy'n canolbwyntio ar brif linell De Cymru gyda'r nod o ddatblygu gwasanaethau rheilffyrdd a gwelliannau seilwaith i'r llwybr rhwng Gorllewin Cymru, Caerdydd a Bryste. Bydd yn cryfhau cysylltedd rhanbarthol ac yn mynd i'r afael â thagfeydd ar yr M4. Mae astudiaeth strategol ar yr amserlen yn mynd rhagddi'n awr i ddeall yr anghenion cynllunio tymor hir.

Cefnfordd yr A465 Blaenau'r Cymoedd


- ✓ Fel asiant a dyfarnwr penodedig yr awdurdod ar gyfer adrannau olaf y gwelliannau i brosiect yr A465 rhwng Dowlais a Hirwaun (Adrannau 5 a 6), rydym yn gweithio ar ran Llywodraeth Cymru i fonitro ac ardystio dyluniad, adeiladwaith a chynnal a chadw seilwaith y prosiect.
- ✓ Bydd y cynllun deuoli, sydd wedi bod ar waith ers 2002, yn cefnogi adfywio economaidd drwy wella mynediad at wasanaethau allweddol, swyddi a marchnadoedd, cefnogi mewnfuddsoddi, gwella llif traffig drwy gyflwyno cyffyrdd wedi'u gwahanu i ddileu oedi wrth gylchfannau a gwella diogelwch ar y ffyrdd drwy ddarparu cyfleoedd ar gyfer goddiweddud yn fwy diogel.
- ✓ Bydd llwybrau newydd ar gyfer beicwyr a cherddwyr, sydd â 12 milltir arall o lwybrau beicio a llwybrau troed, yn cael eu creu hefyd.

"Rydyn ni'n cefnogi Llywodraeth Cymru i baratoi'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth, gan ddwyn ynghyd y rhaglenni, y prosiectau a'r ymyriadau trafndiaeth ar draws pob sector trafndiaeth yng Nghymru."

Gwasanaethau dadansoddi

- ✓ Rydyn ni'n datblygu ein tri model trafndiaeth aml-ddull rhanbarthol i'w defnyddio i ddeall y sylfaen dystiolaeth ac asesu effaith bosibl ymyriadau polisi a seilwaith.
- ✓ Rydym wedi gwella ein galluoedd mewnol o ran mapio System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS), modelu trafndiaeth, dadansoddi data ac offer cyflwyno data. Mae hyn yn ein galluogi i ddarparu cyngor ar sail tystiolaeth i Lywodraeth Cymru.
- ✓ Rydyn ni wedi rhoi datrysiad GIS newydd ar waith i wasanaethu'r sefydliad wrth i ni ehangu. Bydd hyn yn darparu llawer mwy o fynediad at alluoedd mapio a dadansoddi gofodol ar draws ein timau.
- ✓ Rydyn ni wedi dechrau ar waith datblygu cynnar ar Arolwg Teithio Cenedlaethol newydd Cymru, gan gynnwys drafftio cwestiynau a chaffael cyngor arbenigol ar fethodolegau a samlo arolygon.
- ✓ Rydym wedi bod yn gweithio gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru i lunio fframwaith monitro ar gyfer Strategaeth Drafnidiaeth Cymru ac adroddiad methodoleg technegol ar gyfer pob dangosydd monitro. Mae'r gwaith gwaelodlin ar gyfer pob dangosydd hefyd bron â dod i ben.
- ✓ Rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda Gwasanaethau Arloesi TrC i ymchwilio i ffynonellau data newydd, fel GPS, er mwyn deall y gofynion teithio ledled Cymru.

"Rydym yn datblygu tri model trafndiaeth aml-ddull rhanbarthol ac yn gwella ein galluoedd mewnol."



Rhaglen Metro Canolog

- ✓ Rydyn ni wedi parhau â'n gwaith ar Raglen Metro Canolog i sefydlu canolfan drafnidiaeth integredig yng nghanol Caerdydd ar gyfer gwasanaethau bysiau, rheilffyrdd a theithio cynaliadwy. Bydd hyn yn darparu gwell mynediad at gysylltiadau trafndiaeth a dewisiadau teithio mwy cynaliadwy.
- ✓ Rydyn ni wedi cwblhau adroddiad dichonoldeb ar welliannau i Orsaf Drenau Caerdydd Canolog. Mae hyn wedi nodi mesurau i leihau gorlenwi a thagfeydd. Bydd hefyd yn helpu i ddarparu ar gyfer capasiti ar gyfer twf tymor hir teithwyr. Bydd y gyfnewidfa well yn annog newid moddol i drafnidiaeth gyhoeddus, yn gwella ansawdd yr aer ac yn helpu i newid i fod yn ddi-garbon.


Metro De Cymru

- ✓ Rydym yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i ddatblygu a darparu Metro. Mae hyn yn cynnwys cynhyrchu astudiaethau achos busnes a thechnegol amrywiol ar draws y rhanbarth, gan gefnogi buddsoddiad sylweddol mewn trafndiaeth gynaliadwy yn y dyfodol.
- ✓ Rydyn ni wedi symud ymlaen â'r gwaith strategol ar draws ardaloedd blaenoriaeth Fframwaith Gwella'r Metro (MEF), gydag astudiaethau'n ymwneud â choridor Gogledd Orllewin Lloegr (Caerdydd i Talbot Green a Beddau): Cas-gwent i Gasnewydd a Chymoedd y Dwyrain a Phen-y-bont ar Ogwr i Fro Morgannwg.
- ✓ Rydyn ni wedi datblygu astudiaethau ar gyfer parcio a theithio rhwng Aberdâr a Hirwaun a Chanol Rhymni, ac rydyn ni wedi dod â'r achos strategol a'r astudiaethau technegol at ei gilydd yn ardal Bae Caerdydd i fwrw ymlaen â'r achos busnes amlinellol ar gyfer Caerdydd Canolog a Heol Casnewydd.
- ✓ Rydyn ni wedi datblygu manyleb bysiau cyflym ar gyfer cymhwyso gydag opsiynau Metro ar goridor yr A48 rhwng Caerdydd a Chasnewydd a choridor y Gogledd Orllewin.

“Wedi'i ariannu'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru, bydd Metro De Cymru yn drawsnewidiol, yn creu cyfleoedd i bobl a'u galluogi i deithio'n fwy cynaliadwy.”

Metro Gogledd Cymru

- ✓ Rydyn ni'n parhau â chynlluniau ar gyfer ein Rhaglen Metro Gogledd Cymru sy'n werth miliynau o bunnoedd; fydd yn trawsnewid gwasanaethau rheilffyrdd, bysiau a theithio llesol ar draws Cymru. Mae gwaith datblygu wedi cael ei wneud ar gapasiti, amseroedd teithio, gwell cyfnewid a gwella mynediad ar draws y rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus, gyda buddsoddiad o £18 miliwn ar draws 22 o ffrydiau gwaith gwahanol.
- ✓ Mae adroddiadau Arweiniad ar Arfarnu Trafndiaeth Cymru (WelTAG) 2 wedi cael eu cyflwyno ar Brif Reilffordd Gogledd Cymru a Lein y Gororau yn ogystal ag astudiaethau o opsiynau gorsafoedd rheilffordd newydd ym Mrychdyn a Greenfield. Rydyn ni wedi gweithio'n agos gyda gweithredwyr i gyflwyno cynllun diwygiedig drafft ar gyfer rhwydwaith bysiau Gogledd Cymru i gefnogi uchelgeisiau Metro Gogledd Cymru a gwella'r gwaith o integreiddio â'r rheilffyrdd. Rydyn ni'n treialu gwasanaeth T10 newydd o Fangor i Gorwen ac yn cyflwyno chwe chynllun peilot fflecsi ledled Gogledd Cymru, gan gynnwys y gwasanaeth fflecsi cyfan gwbl drydan cyntaf yn Rhuthun.
- ✓ Mae gwaith datblygu i wella cyfnewidfeydd allweddol yng Nghaerdybi, y Gororau, Porth Bangor a Phorth Wrecsam wedi'i gwblhau. Mae hwn yn edrych ar opsiynau ar gyfer integreiddio rheilffyrdd, bysiau a theithio llesol yn well gyda hybiau trafndiaeth gyhoeddus newydd neu well.
- ✓ Rydyn ni'n ystyried opsiynau i wella ac annog gwell defnydd o ddulliau teithio cynaliadwy drwy leihau'r defnydd o geir ym Mharc Cenedlaethol Eryri ac o'i gwmpas. Mae ein gwaith hyd yma yn cynnwys cyngor ar wella rheoli parcio, adolygiad o gyfnewidfeydd y rhwydwaith bysiau a dyluniadau cysniadol ynghyd ag adroddiad cwmpasu Nant Gwynant.
- ✓ Rydyn ni wedi cyflawni 11 o gynlluniau rhwydwaith gorsafoedd teithio llesol i helpu i greu mynediad haws at system trafndiaeth gyhoeddus Metro Gogledd Cymru. Rydyn ni'n gweithio ar gynlluniau teithio llesol mwy datblygedig ar gyfer gorsafoedd rheilffordd y Rhyl a Wrecsam fel rhan o Drawsnwid Trefi, cynllun gan Lywodraeth Cymru i wella canol trefi.
- ✓ Rydyn ni'n gweithio gyda phartneriaid ar draws y rhanbarth i gefnogi ceisiadau am gyllid ac rydyn ni wedi cefnogi Ailagor eich Rheilffyrdd, Cysylltedd yr Undeb a bidiau Ffyniant Bro i gynyddu'r buddsoddiad ym Metro Gogledd Cymru.



Metro Bae Abertawe a Gorllewin Cymru

- ✓ Rydym wedi datblygu perthynas waith gadarnhaol gyda'r awdurdodau lleol yn Ne Orllewin Cymru ac wedi sefydlu rhaglen ddatblygu a fydd yn helpu i wella'r ddarpariaeth trafndiaeth gyhoeddus yn yr ardal.
- ✓ Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2021 ar gyfer nifer fawr o welliannau ar y rheilffyrdd ar draws y rhanbarth. Derbyniodd yr ymgynghoriad, a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru, gryn ddiddordeb. Cyhoeddwyd adroddiad ddiwedd 2021 a oedd yn cyflwyno'r gwerthusiadau technegol a'r gwaith datblygu ar gyfer yr elfennau rheilffyrdd.
- ✓ Rydyn ni'n arwain y gwaith o ddatblygu'r orsaf drenau newydd yn San Clêr, sy'n cael ei hariannu gan Gronfa Gorsafoedd Newydd yr Adran Drafnidiaeth.
- ✓ Dechreuodd cam nesaf y gwaith datblygu rheilffyrdd ddechrau 2022. Rydyn ni'n edrych ar yr opsiynau ar gyfer gwella cyfnewidfeydd gorsafoedd yng ngorsafoedd rheilffordd Hendy-gwyn ar Dâf, Caerfyrddin, Pen-bre, Porth Tywyn a Llanelli. Rydym hefyd yn edrych ar sut y gallwn wella cysylltedd rhyng-drefol drwy wella gwasanaethau rheilffyrdd lleol — Pen-bre a Phorth Tywyn, Llanelli a phob gorsaf i Abertawe ar Brif Reilffordd De Cymru; ac yn ail ar linell Abertawe rhwng Pontarddulais, Castell-nedd ac Abertawe.
- ✓ Rydyn ni wedi gweithio mewn partneriaeth agos â Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i ddatblygu gweithrediad eang o fysiau cell tanwydd hydrogen yn ardaloedd Bae Abertawe a Sir Benfro. Bydd y prosiect yn creu sgiliau allweddol, dealltwriaeth a phrofiad o ddefnyddio seilwaith a thechnoleg celloedd tanwydd hydrogen.

“Rydyn ni'n parhau i weithio gyda rhanddeiliaid ledled Cymru i ddatblygu a darparu Metro.”






Sut rydyn ni'n creu sefydliad a phartneriaethau sy'n gallu cyflawni ein pwrpas

Mae ein diwylliant sefydliadol cryf, ein tîm galluog ac angerddol a'n partneriaethau agos yn hanfodol i'n llwyddiant o ran cyflawni ein diben. Mae diogelwch a llesiant pobl wrth galon popeth rydyn ni'n ei wneud ac rydyn ni'n datblygu gwybodaeth a sgiliau ein staff i gyflawni'r nodau hyn. Rydyn ni bellach yn gyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol achrededig ac rydyn ni'n bwriadu rhaedru hyn drwy ein cadwyn gyflenwi.

Ein ffocws



Manteisio i'r eithaf ar allu'r sefydliad

Darparu atebion datblygu i ddiwallu anghenion y sefydliad a'r gwasanaeth yn y dyfodol; sicrhau bod unigolion a thimau'n deall rolau, perthnasoedd a chyfrifoldebau proffesiynol; datblygu ein cynlluniau datblygu sgiliau a recriwtio pobl dalentog iawn.



Profiad gweithwyr



Creu diwylliant gwaith cynhwysol, amrywiol a pharchus; gan gynnig manteision cystadleuol a thryloyw; galluogi cyfraniad ac ymgysylltiad fel bod pawb yn gallu bod eu 'hunan gorau'.



Diwylliant

Canolbwyntio ar arweinyddiaeth ddilys ac addasol; bod yn wirioneddol gydweithredol; hyrwyddo llesiant a chael cynnig gwerth cryf i weithwyr.

Gwobrau a chydnyddiaethau



Ymgysylltu â'r gymuned a rhanddeiliaid

Rydyn ni'n meithrin perthnasoedd cryf a pharhaol â'n rhanddeiliaid. Y flaenoriaeth ar gyfer 2021/22 oedd adfer ar ôl pandemig y coronafeirws a chefnogi blaenoriaethau iechyd cyhoeddus ehangach wrth i ni annog cwsmeriaid i ddychwelyd i drafnidiaeth gyhoeddus yn ddiogel. Mae'r gwaith wedi cynnwys:

- ✓ meithrin cysylltiadau gyda'r trydydd sector a chydweithio â byrddau iechyd, awdurdodau lleol, sefydliadau addysgol, busnesau ac elusennau i hyrwyddo manteision trafndiaeth gyhoeddus a llywio datblygiad ein rhwydwaith trafndiaeth
- ✓ rheoli ein fforymau rhanddeiliaid yn barhaus, gyda thrafodaethau'n canolbwyntio ar ddiogelwch cymunedol, cynllunio trafndiaeth, gorsafoedd rheilffordd ac effaith y coronafeirws ar wasanaethau
- ✓ darparu cyfres o weithgareddau ysgolion cynradd sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch rheilffyrdd, gan gefnogi'r ymgyrch "I am Rail Safe". Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Network Rail, yr Heddlu Trafndiaeth Prydeinig a'r Samariaid i sicrhau bod ein hymgysylltiad yn cyd-fynd â'r Strategaeth Cadernid Gweithredol
- ✓ datblygu a dosbarthu 'Metro: Canllaw i Gymunedau' i oddeutu 50,000 o gartrefi. Roeddem hefyd wedi cynhyrchu fersiwn ar y we, opsiwn arall hygyrch gyda thestun wedi'i chwyddo a recordiad llafar. Mae'r canllaw yn egluro'r gwaith o drawsnewid y rhwydwaith sydd ar y gweill ac mae wedi cael ei gefnogi gan sesiynau galw heibio, cylchlythyrau a digwyddiadau i rhanddeiliaid yn y gymuned
- ✓ cymorth i awdurdodau lleol i ymgysylltu cymunedau â theithio llesol a helpu i gael mwy o bobl i gerdded a beicio. Mae hyn wedi cynnwys cyflwyno 13 sesiwn ymgysylltu â'r cyhoedd ar draws Ynys Môn, cyflwyno cyfarfodydd chwarterol rheolaidd gyda swyddogion teithio llesol ledled Cymru a chreu grŵp cynghori ar deithio llesol i ddod â rhanddeiliaid allweddol o'r trydydd sector, y sector cyhoeddus a'r sector preifat at ei gilydd i roi cyngor ar faterion sy'n ymwneud â cherdded, olwynio a beicio.

"Y flaenoriaeth ar gyfer 2021/22 oedd adfer ar ôl pandemig y coronafeirws a chefnogi blaenoriaethau iechyd cyhoeddus ehangach wrth i ni annog cwsmeriaid i ddychwelyd i drafnidiaeth gyhoeddus yn ddiogel."

Rheilffyrdd Cymunedol

Rydyn ni'n parhau i weithio gyda'n partneriaid rheilffyrdd cymunedol i annog cymunedau ledled Cymru a'r gororau i fanteisio i'r eithaf ar eu rheilffyrdd drwy hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, teithio cynaliadwy a hygyrch a rhoi bywyd i orsafoedd. Roedd ein gwaith yn 2021/22 yn cynnwys:

- ✓ cefnogi Partneriaeth Rheilffyrdd Cymunedol Dyffryn Conwy i ymestyn o Gyffordd Llandudno i Gaerdybi ar arfordir Gogledd Orllewin Cymru
- ✓ ymestyn CRP presennol Caer Amwythig i gynnwys y rheilffordd o Crewe i Amwythig. Bydd y CRP hwn yn cael ei gynnal gan Groundwork Gogledd Cymru ac mae Swyddog Rheilffyrdd Cymunedol newydd wedi cael ei recriwtio i yrru cynllun gweithgaredd diwygiedig yn ei flaen.
- ✓ gweithio gyda'r trydydd sector, gan gynnwys y Groes Goch Brydeinig, i helpu pobl agored i niwed sy'n dioddef o unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol i deimlo'n fwy hyderus wrth ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus. Rydym ni hefyd wedi cydweithio â CRP Dyffryn Conwy i ddatblygu fideo hyder i deithio. Bydd yn cael ei ddefnyddio gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) ar gyfer eu cleientiaid di-waith hirdymor sydd â heriau iechyd meddwl cyn ei chyflwyno'n ehangach ym mis Ebrill 2022
- ✓ datblygu rhwydwaith o deithiau cerdded hamdden a llesiant o'n gorsafoedd rheilffordd ar y cyd ag Y Cerddwyr a CRP. Mae gwirfoddolwyr wedi dod gyda ni ar deithiau cerdded ac mae tîm yr Arolwg Ordnans wedi helpu i gasglu data
- ✓ cefnogi CRP i gyflwyno gweithgareddau 'cerdded er lles' i fynd i'r afael ag iechyd a lles. Rhoddwyd canmoliaeth uchel i'n CRP Dyffryn Conwy yn y Gwobrau Rheilffyrdd Cymunedol Cenedlaethol am eu cydweithrediad â MIND. Mae CRP De-orllewin Cymru wedi bod yn defnyddio cymeriadau cartŵn ar gyfer 'Ramble and Scramble' i hyrwyddo eu teithiau cerdded sy'n addas i deuluoedd
- ✓ dathlu 20 mlynedd ers i wirfoddolwyr fabwysiadu gorsaf yn Nhal y Cafn. Mae 151 o orsafoedd rheilffordd yn cael eu mabwysiadu yng Nghymru ar hyn o bryd, gan ddod â chymunedau at ei gilydd a helpu i greu amgylcheddau croesawgar mewn gorsafoedd rheilffordd
- ✓ cydweithio ag Incredible Edibles i ddatblygu gerddi cymunedol mewn gorsafoedd rheilffordd. Dechreuodd y gwaith clirio ym mis Mawrth 2022 yng ngorsafoedd rheilffordd Llanelli ac Abergele a Phensarn.


Gwaith Elusennol

Dewisodd ein cydweithwyr a'n cwsmeriaid dair elusen i'w cynnwys ar ein trenau. Mae dyluniadau brand ar gyfer Hosbis Plant Tŷ Gobaieth, Cymdeithas Alzheimer's Cymru a Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub wedi cael eu defnyddio ar gyfer ein fflyd o drenau Mark IV sy'n darparu gwasanaethau rhwng Caerdybi a Chaerdydd.

Recriwtio a sgiliau

Mae ein sefydliad yn dal i dyfu. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael â gofynion swyddi gwag ar unwaith tra'n ystyried bylchau mewn sgiliau yn y dyfodol fel cyflogwr cyfle cyfartal. Yn 2021/22 rydym wedi:

- ✓ creu 117 o swyddi newydd gyda'r niferoedd wedi cynyddu o 481 ar 1 Ebrill 2021 i 598 ar 31 Mawrth 2022 (heb gynnwys Rheilffyrdd Trafndiaeth Cymru). Roedd hyn yn cynnwys 170 o benodiadau newydd ac 80 o symudiadau mewnol, gyda 50 ohonynt yn ddirchafiadau
- ✓ cyflogi pum cynorthwydd TG drwy Kickstart, cynllun yr Adran Gwaith a Phensiynau sy'n darparu cyllid i greu swyddi newydd i bobl 16 i 24 oed sy'n cael Credyd Cynhwysol ac sydd mewn perygl o fod yn ddi-waith am gyfnod hir. Mae nifer bellach wedi cael swyddi parhaol gyda TrC
- ✓ lansio partneriaeth gyda Chyngor Cymru ar gyfer Pobl Fyddar, gan ddarparu lleoliadau gyda gofal cofleidiol am 16 awr yr wythnos dros 16 wythnos i'r rheini sydd â nam ar eu clyw
- ✓ cyflwyno ein rhaglen llwybr i gyn-droseddwyr, sy'n cynnig profiad gwaith a chyfleoedd gwaith i'r rheini sy'n gadael carchar. Gan weithio gyda Charchar EM Prescoed, rydym ni wedi cynnig swyddi i nifer o gyn-droseddwyr hyd yma ac rydym ni nawr yn edrych ar gyflwyno rhaglen ar gyfer cyn-droseddwyr sy'n fenywod.
- ✓ cydweithio ag Amey Infrastructure Wales, Siemens, Alun Griffiths a Balfour Beatty fel rhan o Gynghrair Craidd, partneriaeth diwydiant sy'n cydweithio i gau'r bwlch sgiliau a sefydlu llwybrau cyflogaeth ar gyfer grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli.





Dysgu a datblygu

Mae dysgu a datblygu yn allweddol i lwyddiant ein sefydliad gan ei fod yn llywio'r ymddygiadau, y cymwyseddau a'r galluoedd sydd eu hangen ar ein sefydliad i fod yn llwyddiannus. Dros y 12 mis diwethaf, mae ein tîm wedi darparu:

- ✓ Cymhwyster Gyrrwyr Trenau NVQ Lefel 3 newydd. Fel y cymhwyster cyntaf o'i fath yng Nghymru, rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â Choleg y Cymoedd, EAL ac ASLEF fel yr undeb llafur cenedlaethol ar gyfer gyrrwyr trenau i greu'r fframwaith. Mae pob gyrrwr newydd yn cael ei gofrestru'n awtomatig ar y rhaglen
- ✓ rhaglen datblygu arweinyddiaeth 12 mis sy'n cefnogi creu un diwylliant sefydliadol gydag ymddygiadau a gwerthoedd a rennir sy'n canolbwyntio ar hyder, grymuso a dylanwad. Mae 96 o gydweithwyr wedi cofrestru ar 'Arwain gyda...' hyd yma. Mae'n cael ei gefnogi gan becyn cymorth ymddygiadol o'r enw 'Insights'
- ✓ system rheoli dysgu newydd o'r enw 'ilearn'. Mae'n gysylltiedig â systemau presennol ac yn darparu llwyfan canolog i rannu deunyddiau, dogfennau a fideos e-ddysgu
- ✓ hyfforddiant hygyrchedd a chynhwysiant ar gyfer 1,200 o gydweithwyr gweithredol, gan ein helpu i barhau i gefnogi a diwallu anghenion ein cwsmeriaid
- ✓ cyfleusterau hyfforddi newydd yng Nghaerdydd gydag efelychwyr trenau ychwanegol a newydd i ateb y galw cynyddol wrth i ni ddod â phobl a threnau newydd i mewn. Mae gwaith yn mynd rhagddo hefyd ar gyfleusterau yng Nghaer.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI) yn sail i bopeth rydyn ni'n ei wneud. Yn 2021/22 sefydlwyd ein tîm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant fel rhan o'n hymrwymiad i greu Cymru decach ac er mwyn adlewyrchu gwir amrywiaeth poblogaeth Cymru a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Rydym wedi ennill Gwobr Cyflogwr Chwarae Teg gan Chwarae Teg. Mae ein cyflawniadau allweddol yn cynnwys:

- ✓ sefydlu model cyflogau a pherfformiad sy'n cefnogi lleihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau wrth inni weithio tuag at gydraddoldeb cyflog
- ✓ sicrhau Dyfarniad Arweinydd Hyderus o ran Anabledd Lefel 3 gan gynllun cyflogwyr Hyderus o ran Anabledd Llywodraeth y DU yr Adran Gwaith a Phensiynau – mae hyn yn golygu ein bod yn un o ddim ond 57 o sefydliadau ledled Cymru i ennill y statws
- ✓ cyflwyno rhaglen 12 mis o fân sesiynau EDI ar-lein ac enwebu 70 o lysgenhadon Tegwch, Cynhwysiant a Pharch (FIR)
- ✓ gweithio mewn partneriaeth â Materion Cydraddoldeb Hiliol i lansio'r ymgyrch 'My Name Is' fel rhan o Fis Hanes Pobl Dduon ym mis Hydref 2021. Mae llwyddiant yr ymgyrch wedi arwain at gwmnïau trenau eraill yn cefnogi'r ymgyrch drwy ein gwaith gyda Rail Industry Unites a'r Grŵp Cyflawni Rheilffyrdd
- ✓ cydweithio â Llywodraeth Cymru a PTI Cymru i lansio Merched mewn Trafnidiaeth yng Nghymru ym mis Mawrth 2022, gan helpu i rymuso menywod i wneud y gorau o'u potensial yn y sector trafniadaeth.

Doniau cynnar

Mae ein Rhaglenni Doniau Cynnar yn chwarae rhan hollbwysig o ran denu talent yn y dyfodol; gan ein galluogi i gyflawni ein pwrpas a sicrhau bod Cymru'n symud er budd cenedlaethau'r dyfodol. Roedd ein gwaith yn 2021/22 yn cynnwys:

- ✓ lansio ein Cynllun i Raddedigion ym mis Medi 2021. Fe wnaethom groesawu chwech o raddedigion ym maes peirianeg, cyllid, risg a chynllunio trafniadaeth. Bydd 11 o raddedigion newydd yn ymuno â charfan 2022
- ✓ croesawu chwe phrentis newydd a chyflwyno ein rhaglen brentisiaeth gyntaf ym maes cyllid
- ✓ dathlu pen-blwydd cyntaf ein Academi Prentisiaeth. Wedi'i alinio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r rhaglen ddatblygu amrywiol yn canolbwyntio ar gyfoethogi profiad ein prentisiaid a chefnogi eu datblygiad gyrfa yn y dyfodol
- ✓ gweithio mewn partneriaeth â Gweithwyr Proffesiynol Ifanc y Rheilffyrdd i gynnal y noson rhwydweithio prentisiaeth traws-sector gyntaf lle bu prentisiaid, graddedigion ac interniaid yn creu eu rhwydweithiau proffesiynol ac yn hwyluso'r cyfle i raddedigion a phrentisiaid gymryd rhan yn [Her Arweinyddiaeth Cymdeithas Contractwyr Peirianeg Sifil Cymru](#)
- ✓ croesawu tri intern newydd ar gyfer interniaeth 20 wythnos fel rhan o'n partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd a'r Ysgol Fusnes. Mae'r rhaglen yn rhoi cyfle i fyfyrwyr weithio ar brosiectau heriol ac ystyrlon, gan ddatblygu gwybodaeth a sgiliau allweddol ac ymddygiad ar yr un pryd.

Math o brentisiaeth	Wedi'u cwblhau hyd yma
Gradd-brentisiaethau	5
Prentisiaeth Uwch Lefel 5	2
Prentisiaeth Uwch Lefel 4	19
Prentisiaeth Sylfaen Lefel 3	44
Prentisiaeth Sylfaen Lefel 2	6

Ein prentisiaethau

 Peirianeg	 Rheoli Prosiectau
 Data	 Arweinyddiaeth
 Dysgu a datblygu	 Gweinyddu Busnes
 Gwasanaethau Cwsmeriaid	 Cyllid
 Gyrrwr trên	 Cyfryngau cymdeithasol a chynnwys digidol

11 o raddedigion newydd yn ymuno yn 2022

Bwlch cyflog rhwng y rhywiau Trafnidiaeth Cymru

Canolrif ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar 31 Mawrth 2021 oedd 33.2%. Mae hyn wedi gostwng i 32.8% dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r gostyngiad hwn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau.

Mae lleoliad dynion a menywod yn y chwarteli wedi newid. Gellir priodoli hyn yn rhannol i nifer y swyddi newydd yn un o'r bandiau cyflog is sy'n cyfrif am 24.5% o gyfanswm y recriwtio. O'r rheini, roedd 75% yn fenywod. Gellir priodoli'r cynnydd o 11 pwynt canran yn y chwartel isaf i'r ffaith fod 53% o ddirchafiadau a gadawyr wedi cyfuno yn y gwaelod roedd y chwartel o fis Ebrill 2021 yn ddynion, gan adael mwy o fenywod yn y chwartel isaf. Mae hyn yn egluro pam fod canran y menywod yn y chwartel isaf wedi cynyddu.

Ym mis Mawrth 2022, cyhoeddwyd y dyfarniad cyflog ar gyfer mis Ebrill 2021. Roedd hwn yn fodel hybrid o godiadau cynyddrannol a chynnydd sy'n gysylltiedig â pherfformiad. Roedd effaith y model hwn yn gadarnhaol o ran lleihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau.

O ran recriwtio, rydym wedi parhau i gymryd camau cadarnhaol dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda menywod yn cyfrif am 47.9% o'r holl benodiadau. Roedd menywod yn cyfrif am 51.3% o gyfanswm y dyrchafiadau mewnol a wnaed yn ystod y flwyddyn, o'i gymharu â 32.1% yn y flwyddyn flaenorol. Mae hefyd yn galonogol bod nifer y menywod sy'n cael dyrchafiad i rolau band un a dau wedi treblu o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (o dair yn 2020/21 i ddeg eleni).

Rydym wedi parhau â'n hymrwymiad i Gyfamod y Lluoedd Arfog, gan ddefnyddio hyn fel llwybr i wella'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau a chynrychioli menywod mewn swyddi STEM. Rydym hefyd wedi sefydlu perthynas gyda sefydliad recriwtio sy'n arbenigo yn y lluoedd arfog fydd yn cefnogi denu talent drwy ddarparu CVs i ni o fenywod sydd wedi gadael neu sy'n gadael y lluoedd arfog.

Hefyd, mae menywod sy'n gwneud cais am le STEM sy'n bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer un o'n rolau yn cael cyfweiliad dan ein Cynllun Gwarant Cyfweiliad, ynghyd â chyn-filwyr ac ymgeisywyr anabl. Fel rhan o'n gweithdrefn recriwtio safonol, ein nod yw cael cydbwysedd rhwng y rhywiau ar bob un o'n paneli cyfweiliad er mwyn sicrhau nad oes rhagfarn yn ein penderfyniadau.

Chwarae Teg

Rydym yn parhau i weithio ar ein cynllun cydraddoldeb strategol. Rydym ni wedi darparu hyfforddiant EDI ar gyfer yr adran Adnoddau Dynol, yr uwch dîm arwain a rheolwyr pobl. Rydym ni hefyd wedi datblygu carfan o lysgenhadon Tegwch, Cynhwysiant a Pharch. Ynghyd â'n partner Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant allanol Delsion, rydym wedi cwblhau adolygiad o'n polisïau i benderfynu lle mae angen gwneud gwelliannau i sicrhau eu bod yn cyflawni amcanion ein cynllun cydraddoldeb strategol. Bydd y gwelliannau a nodir yn cael eu rhoi ar waith yn 2022.

Rydym ni wedi noddi LeadHerShip Chwarae Teg rhaglen am ail flwyddyn. Nod LeadingHerShip yw sicrhau bod menywod yn cael eu cynrychioli'n well mewn rolau gwneud penderfyniadau ac yn rhoi llwyfan i fenywod fel bod eu lleisiau'n cael eu clywed a'u hysbrydoli i weld eu hunain fel arweinwyr y dyfodol. Mae'r rhaglen yn helpu i hyrwyddo ein rôl fel cyflogwr i fenywod ifanc ac felly bydd yn helpu i recriwtio yn y tymor hwy.

Rydym ni hefyd wedi gweithio mewn partneriaeth â Chwarae Teg ar eu rhaglen Step to Non-Exec sy'n rhoi cyfle i fenywod ymuno â bwrdd fel cyfarwyddwr anweithredol cysgodol. Mae'r ymgeisydd allanol llwyddiannus cyntaf wedi cael ei phenodi ac mae wedi cael ei pharu ag Alexia Course, ein Cyfarwyddwr Gweithrediadau Trafnidiaeth.

Symud Ymlaen

Gan weithio ochr yn ochr â Rheilffyrdd TrC Cyfyngedig a PTI Cymru, rydym wedi adolygu'r gweithgorau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant er mwyn creu fforwm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant sy'n ceisio cefnogi gweithgareddau mewnol ac allanol. Mae'r strwythur yn cynnig dull cyfannol, gan gysylltu'r grŵp â'r panel hygyrchedd a chynhwysiant, grwpiau adnoddau gweithwyr a gweithgorau fforwm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.


Ar y cyd â Llywodraeth Cymru a PTI Cymru, cytunwyd ar gyllid ar gyfer Hyb Menywod yn Trafnidiaeth Cymru. Gobeithiwn y bydd yr Hyb yn darparu pwynt canolog o gefnogaeth a datblygiad proffesiynol i ferched sydd eisoes yn gweithio ym maes trafndiaeth ac i'r rheini sy'n ystyried gyrfa yn y sector.

"Mae nifer y menywod a gafodd eu dyrchafu i rolau band un neu ddau wedi treblu."

Cyfrif Pennau Mawrth 2022




Cyfrif Pennau Mawrth 2021




Chwartelau 2022




Cymedr 2022




2021




Canolrif 2022




2021




Cymedr 2022 (ac eithrio arlwy, glanhau a chydweithwyr Llinellau Craidd y Cymoedd)




2021



Cymedr 2022 (ac eithrio arlwy, glanhau a chydweithwyr Llinellau Craidd y Cymoedd)



2021



Mae camgymeriad gyda'n data ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn ein hadroddiad blynyddol ar gyfer 2020/21 yn golygu bod y ffigurau ychydig yn wahanol eleni gan ein bod bellach wedi cywiro'r wybodaeth.



Bwlch cyflog rhwng y rhywiau Rheilffordd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig

Mae'r adroddiad cyflog cyntaf ar sail rhyw ar gyfer Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 7 Chwefror 2021 a 5 Ebrill 2021. Bydd data ar gyfer cyfnod 2021/22 ar gael yn nes ymlaen yn 2022.

Ar 5 Ebrill 2021, roedd Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig yn cyflogi 2,633 o bobl. O blith y rhain, roedd 19% yn fenywod ac roedd 81% yn ddynion. Y cyflog cymedrig fesul awr i ddynion oedd £26.48. I fenywod roedd yn £20.69. Mae hyn yn cynrychioli bwlch cyflog rhwng y rhywiau o 21.9%. Y canolrif cyflog fesul awr i ddynion oedd £25.63. I fenywod roedd yn £19.12. Mae hyn yn cynrychioli bwlch cyflog rhwng y rhywiau o 25.4%.

Talwyd bonws i 0.3% o ddynion. Roedd y taliadau bonws a wnaed yn ystod y cyfnod adrodd hwn yn ganlyniad i gamamseru taliadau comisiwn gan na wnaed taliadau bonws.

Rhaniad cymhareb rhywiau 2021



Chwarteli 2021

Brig




Canol uchaf



Canol isaf



Gwaelod



Cyflog bonws

Gan fod yr holl gydweithwyr cymwys yn ddynion a bod taliadau bonws yn cael eu gwneud i un rhyw yn unig, nid yw'n bosibl cyfrifo'r bylchau cyflog bonws cymedrig a chanolrifol.

Lleihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau

Rydyn ni wedi ymrwmo i fod yn agored ac yn dryloyw wrth gydnabod y sefyllfa heriol rydyn ni'n gweithio ynddi i gau ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Eleni, rydym wedi canolbwyntio ar fenywod mewn arweinyddiaeth er mwyn i ni allu cefnogi a thyfu ein harweinwyr benywaidd presennol a rhai'r dyfodol. Bydd hyn yn ein helpu i fynd i'r afael â'r diffyg menywod yn y chwarterl uchaf.

Mae rhaglenni fel Hyb Merched Cymru mewn Trafnidiaeth, Merched mewn Arweinyddiaeth a Step to Non-Exec yn rhan o strategaeth AD ehangach sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd sy'n cael ei rhoi ar waith ar draws TrC. Rydym yn rhagweld y bydd hyn yn helpu i ddenu mwy o fenywod i drafnidiaeth ac yn lleihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau.

Cymedr 2021

Bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau mewn cyflog yr awr



Bwlch cyflog canolrif rhwng y rhywiau mewn cyflog yr awr



Risg

Mae risg yn rhan o fywyd bob dydd i bawb. Rydyn ni'n gwybod bod deall risgiau'r penderfyniadau rydyn ni'n eu gwneud, y gweithgareddau rydyn ni'n eu gwneud a'r effeithiau arnom ni, yn ein helpu ni i lywio a manteisio ar gyfleoedd drwy ein proses rheoli risg.

Mae gan ein fframwaith rheoli risg dair llinell amddiffyn. Mae'r model hwn yn sicrhau bod cyfrifoldeb ac atebolrwydd yn cael ei gynnal mewn perthynas â risgiau a materion ar lefel briodol:

- ✓ ein llinell amddiffyn gyntaf yw'r timau gweithrediadau neu brosiectau sydd yn y sefyllfa orau i reoli risgiau o ddydd i ddydd. Cânt eu cefnogi i gyflawni'r cyfrifoldeb hwn drwy ddefnyddio ein cronfa ddata risg a chynghor ein harbenigwyr risg sy'n cynnal cyfarfodydd adolygu risg misol, sicrhau bod gan y timau gweithrediadau a phrosiectau yr arfau a'r mynediad angenrheidiol ar gyfer arferion gorau
- ✓ mae'r ail linell amddiffyn yn darparu goruchwyliaeth ar y broses risg drwy broses uwchgyfeirio ac adrodd sefydledig i gyfarfodydd lefel uwch, adolygiadau ac adroddiadau prosiectau, ac yn y pen draw i'r Pwyllgor Archwilio a Risg, ac yn achos prosiectau i'r Pwyllgor Prosiectau Mawr
- ✓ ein trydedd linell amddiffyn yw ein swyddogaeth archwilio mewnol sy'n adolygu effeithiolrwydd systemau rheolaeth fewnol a rheoli risg y cwmni ac adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae'r broses hon yn golygu y gall y Bwrdd fod yn hyderus bod systemau risg Grŵp TrC yn effeithiol.

Mae penodi Leyton Powell yn Brif Swyddog Risg y llynedd wedi cryfhau ein dull o ymdrin â risg. Mae'n cydlynu'r tîm rheoli risg a'r systemau ac yn adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Prosiectau Mawr a'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

Yn 2021/22, mae risgiau rheilffyrdd wedi cael eu hintegreiddio ym mhroses a gweithdrefnau llywodraethu Grŵp TrC. Mae hyn wedi arwain at adolygiad llawn o'r risgiau hyn ac ail-sgorio, fel ein bod yn cyflwyno sgôr risg, disgrifiadau, adroddiadau a llywodraethu safonol. Mae'r gwaith hwn yn parhau a bwriedir gwneud rhagor o welliannau yn ystod y flwyddyn i ddod drwy ein strategaeth rheoli risg. Rydym hefyd wedi cwblhau adolygiad o risgiau busnes yn dilyn caffael Pullman Rail Limited.

Risg sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws

Mae'r coronafeirws yn amlwg wedi ymddangos ar ein proffil risg ac mae wedi effeithio'n uniongyrchol ar y busnes drwy salwch staff a'n mesurau ein hunain i ddiogelu gweithwyr agored i niwed. Mae hefyd wedi effeithio ar ein cadwyn gyflenwi a nifer y teithwyr. Rydyn ni wedi lliniaru'r colledion hyn drwy weithio'n agos gyda'n timau gweithredol ac iechyd a diogelwch i sicrhau dull cyson o reoli risg, gan sicrhau ein bod yn gallu darparu'r safonau uchaf o amddiffyniad i'n cydweithwyr a'n cwsmeriaid.

Byddwn yn parhau i fonitro ein prosesau rheoli risg wrth i ni ddod allan o bandemig y coronafeirws, gan sicrhau ein bod yn gallu darparu system drafndiaeth ddiogel i groesawu nifer cynyddol o gwsmeriaid yn ôl.

Gwella'n barhaus

Fe wnaethom ddechrau adolygiad strategol o'n system rheoli risg yn 2021 i sicrhau ein bod yn rheoli risgiau i hybu arloesedd a newid ac felly'n cyfrannu at gyflawni ein hamcanion busnes cyffredinol a'n huchelgais.

Fel rhan o'n diwylliant gwelliant parhaus, rydyn ni wedi datblygu adnodd aeddfedrwydd risg ac wedi defnyddio hwn i feincnodi ac asesu ein gweithrediadau. Rydyn ni nawr yn cwblhau'r asesiad hwn bob blwyddyn i fesur ein perfformiad a'r cynnydd rydyn ni'n ei wneud.

“Ar sail yr archwiliad a'r adolygiad diweddaraf, mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn fodlon ar effeithiolrwydd y rheolaeth risg a'r systemau rheoli.”

Adnodd aeddfedrwydd risg
Sylfeini
✓ Diwylliant risg
✓ Llywodraethu risg
Galluogwyr
✓ Capasiti a gallu
✓ Methodolegau ac arfau
✓ Data a gwybodaeth
Integreiddio
✓ Strategaeth a chynllunio busnes
✓ Prosiectau
✓ Rhaglenni a pherfformiad gweithredol
✓ Adrodd a chyfathrebu

Mae ein hadolygiad cychwynnol yn dangos bod y lefel aeddfedrwydd risg bresennol yn amrywio o lefel dau (ailadroddadwy) i lefel tri (systematig). Mae hyn yn dangos system rheoli risg menter iach. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i sicrhau diwylliant a systemau sydd wedi'u gwreiddio'n well a lefelau aeddfedrwydd uwch yn cael eu datblygu ar hyn o bryd drwy strategaeth wella. Mae hyn wedi dechrau drwy adolygu a diwygio'r datganiadau archwaeth risg busnes, gan gydnabod y newidiadau sefydliadol, gwleidyddol ac economaidd-gymdeithasol presennol a disgwylidiedig.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cynnal adolygiadau rheolaidd o'r system rheolaeth fewnol a rheoli risg drwy'r swyddogaeth archwilio mewnol, a thrafodaethau a her dilynol drwy'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Ar sail yr archwiliad a'r adolygiad diweddaraf, mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn fodlon ar effeithiolrwydd y rheolaeth risg a'r systemau rheoli.

Y byd go iawn, risgiau go iawn

Rhaid i reoli risg yn effeithiol fod yn ystwyth er mwyn ymateb i sefyllfaoedd newydd. Mae'n rhaid iddo edrych ymlaen er mwyn rhagweld risgiau posibl i weithrediadau a phrosiectau hysbys ac ymateb i'r potensial i ddioglyddiadau allanol neu fyd-eang gael effaith ar y sefydliad.

Fel rhan o'n proses sganio'r gorwel, rydyn ni wedi dechrau adolygiad llawn o'r Gofrestr Risgiau Genedlaethol i ystyried digwyddiadau arwyddocaol a allai effeithio ar TrC. Ein harbenigwyr mewnol ar barhad busnes, diogelwch, cynaliadwyedd a adolygu iechyd a diogelwch ac asesu'r risg a'r mesurau lliniaru sy'n deillio o ymosodiadau maleisus, troseddau difrifol a chyfundrefnol, peryglon amgylcheddol, iechyd pobl ac anifeiliaid, damweiniau mawr a risgiau cymdeithasol.

Er mwyn asesu effeithiau posibl gwrthdaro yn yr Wcráin a Rwsia ar TrC, bu ein tîm risg yn gweithio ar y cyd â'n timau cadwyn gyflenwi, caffael, Adnoddau Dynol a gweithredol. Roedd y dull gweithredu strategol hwn yn caniatáu i ni weithredu ymatebion strategol presennol fel ein cynlluniau parhad busnes ar gyfer prinder tanwydd a chymorth i weithwyr sydd â chysylltiadau â'r gwrthdaro. Rydyn ni hefyd wedi gallu llywio drwy'r gadwyn gyflenwi i liniaru neu leihau effeithiau colli cyflenwad a chynyddu costau. In addition, we were able to recognise secondary risks from theft such as the copper used in our infrastructure cabling, as the cost of raw materials rises, theft becomes more attractive to those with criminal intent

“Gallwn ddarparu system drafndiaeth ddiogel i groesawu nifer cynyddol o gwsmeriaid yn ôl.”

Prif risgiau

Mae'r tabl hwn yn nodi'r prif risgiau a allai effeithio ar TrC fel y pennir gan ein Prif Swyddog Risg, wedi'i oruchwylio gan y Pwyllgor Archwilio a Risg, ac wedi'i ystyried a'i gymeradwyo gan y Bwrdd. Nid yw'r tabl yn rhestr gynhwysfawr o'r risgiau a'r ansicrwydd a all godi.

Mae'r tabl hwn yn nodi'r camau lliniaru sydd ar waith; nodyn ar gynnydd o ran rheoli'r risg; asesu effaith posibl o'r risg yn cynyddu, yn lleihau neu a yw'n gyson â'r cyflymder y gallai'r risg hwnnw daro.

Teitl y risg	Disgrifiad o'r Risg	Camau lliniaru	Cynnydd	Y cyflymder y gallai'r risg daro
Methiant y partner rheoli seilwaith i weithredu.	Y partner rheoli seilwaith yn methu â chyflawni ei awdurdodiad i weithredu fel Rheolwr Seilwaith Llinellau Craidd y Cymoedd fel y cytunwyd gan y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd (ORR) gan arwain at golli'r gallu i reoli a chynnal Seilwaith Llinellau Craidd y Cymoedd. Effaith — y gallu i weithredu ar Linellau Craidd y Cymoedd ac oedi/tarfu ar y rhaglen drawsnewid.	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Llywodraethu ar lefel uwch a monitro perfformiad allweddol. ✓ Monitro iechyd y gadwyn gyflenwi yn rheolaidd er mwyn deall iechyd cyflenwyr. ✓ Archwiliadau, arolygiadau ac adolygiadau sicrwydd. ✓ Adborth ac ymgysylltiad ORR. ✓ Proses seilwaith y dewis olaf fel cynllun parhad busnes. 	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Trefniadau llywodraethu a rheoli perfformiad clir ar waith ac yn cael eu defnyddio. ✓ Proses uwchgyfeirio adroddiadau iechyd caffael. ✓ Rhaglenni sicrwydd ac archwilio TrC sy'n gysylltiedig â llywodraethu. ✓ Rhyngweithio rheolaidd ag ORR. ✓ Rheoli parhad busnes. 	Llai na chwe mis
Methiant Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig.	Methiant Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig i gyflawni ei awdurdodiad i weithredu fel Gweithredwr Trên fel y cytunwyd gan yr ORR, gan arwain at golli'r gallu i weithredu gwasanaethau gan arwain at oedi/tarfu ar y rhaglen drawsnewid.	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Llywodraethu ar lefel uwch a monitro perfformiad allweddol. ✓ Systemau, prosesau a rhaglenni integredig. ✓ Archwiliadau, arolygiadau ac adolygiadau sicrwydd. ✓ Adborth ac ymgysylltiad ORR. ✓ Cynlluniau llywodraethu'r bwrdd a pharhad busnes. 	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Trefniadau llywodraethu a rheoli perfformiad clir ar waith ac yn cael eu defnyddio. ✓ Rhaglenni sicrwydd ac archwilio TrC sy'n gysylltiedig â llywodraethu. ✓ Rhyngweithio rheolaidd ag ORR. ✓ Rheoli parhad busnes. 	Llai na chwe mis
Adfer ar ôl y Coronafeirws ac effeithiau yn y dyfodol.	Adferiad o ran nifer y cwsmeriaid a reffeni yn dilyn pandemig y coronafeirws. Risg y gallai achosion o bandemig y coronafeirws godi eto yn y DU, gan effeithio ar y busnes oherwydd salwch gweithwyr a chwsmeriaid, y gadwyn gyflenwi a dychwelyd at fesurau llym.	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Cael gwared ar fesurau coronafeirws yn ddiogel, cynnal a chadw eraill a chyfleu rhaglen teithio'n fwy diogel er mwyn gwella hyder cwsmeriaid. ✓ Cynnal mesurau coronafeirws fel mwy o awyru, deunyddiau glanhau gwrthfeirysol a'r gwiriwr capasiti. ✓ Sefydlu rhaglenni parhad busnes, gan fonitro data'r llywodraeth a'r diwydiant. 	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Mae cael gwared ar rai mesurau yn caniatáu i staff rheng flaen a gwasanaethau arlwygo ddychwelyd i weithgareddau arferol. ✓ Cyfathrebu ar drenau a gorsafoedd, a thrwy gyfryngau cymdeithasol. ✓ Rhaglenni diogelu reffeni a arweinir gan wybodaeth. ✓ Monitro achosion pandemig y coronafeirws drwy'r llywodraeth, gwasanaethau iechyd a fforymau lleol ar gydnerthedd. ✓ Rhaglenni sefydledig ar gyfer monitro sy'n gysylltiedig â chynllunio parhad busnes. 	Llai na thri mis
Cyflawni trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd.	Risg nad yw rhaglen trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd yn cael ei chyflawni o fewn yr amser a'r gyllideb ac nad yw'r system wedi'i hintegreiddio'n iawn. Gallai oedi yn y rhaglen arwain at golli cyllid ERDF.	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Rheolaeth gadarn dros reoli a rheoli rhaglenni a phrosiectau. ✓ Adolygiadau rheolaidd o raglenni Gweithredu gwell llywodraethu a chraffu. 	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Cynnal adolygiadau rheolaidd o'r rhaglen ac ail-bennu llinell sylfaen. ✓ Cynnal a chadw a chanolbwyntio blaenoriaethol ar gerrig milltir ERDF. ✓ Is-bwyllgor y Bwrdd yn ei le i fonitro a chefnogi prosiectau mawr. 	Llai na thri mis
Digwyddiadau tywydd eithafol.	Risg barhaus o amharu mawr ar y rhwydwaith oherwydd tywydd eithafol fel llifogydd, eira trwm a gwyntoedd stormus	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Strategaethau a rhaglenni tarfu tymhorol ar y cyd. ✓ Monitro rhybuddion a rhagolygon y tywydd. ✓ Rheoli llystyfiant ac asesiadau ar gyfer coed marw, coed sydd yn marw a choed nad ydynt yn iach. ✓ Adolygu safleoedd llifogydd a rhaglenni adfer. ✓ Caniatáu i docynnau tymor gael eu defnyddio ar linellau eraill cyfagos a chynnal cytundebau gyda gweithredwyr bysiau. 	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Cyfarfodydd paratoi a newid tymhorol ar waith gyda Rheolwyr Gweithrediadau Trenau a Seilwaith. ✓ Gwasanaethau yn lle trenau mewn contract. ✓ Datblygu cynllun addasu a chydnerthedd hinsawdd TrC. 	Llai na thri mis

Ein Bwrdd

Mae ein Bwrdd yn cynrychioli safbwyntiau annibynnol ac amrywiol ein cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid. Mae pob un yn chwarae rhan weithredol a gwerthfawr yn y gwaith o gyflawni ein hamcanion strategol ac maent yn gyfrifol ar y cyd am sicrhau ein bod yn parhau i yrru gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer rhwydwaith trafndiaeth diogel, integredig, fforddiadwy a hygyrch o ansawdd uchel y gall pobl Cymru fod yn falch ohono.

Cyfarwyddwr Anweithredol

- **Scott Waddington**
Cadeirydd
- **Sarah Howells**
Cadeirydd, Pwyllgor Cyfathrebu a Chwsmeriaid
- **Alison Noon-Jones**
Cadeirydd, Pwyllgorau Pobl a Thaliadau
- **Nicola Kemmery**
Cadeirydd, Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles
- **Alun Bowen**
Cadeirydd, Pwyllgor Archwilio a Risg
- **Vernon Everitt**
Cadeirydd, Pwyllgor Prosiectau Mawr

Cyfarwyddwyr Gweithredol

- **James Price**
Prif Weithredwr
- **Heather Clash**
Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Llywodraethu

Pwyllgorau'r Bwrdd

Mae gennym chwe is-bwyllgor. Mae pob pwyllgor yn cael ei gadeirio gan aelod annibynnol o'r Bwrdd. Maent yn cynnwys:

- **Archwilio a Risg**
- **Cyfathrebu a Chwsmeriaid**
- **Pobl**
- **Taliadau**
- **Iechyd, Diogelwch a Lles**
- **Prosiectau Mawr**





Scott Waddington

Cadeirydd

Yn wreiddiol o Abertawe ac wedi graddio o Brifysgol Reading, mae Scott wedi bod â nifer o swyddi uwch yn y sector lletygarwch, yn bennaf ym maes marchnata diodydd a manwerthu tafarndai.

Am 17 mlynedd, bu'n Brif Weithredwr y bragdy Cymreig a'r cwmni tafarndai preifat, SA Brains & Co, ble arweiniodd adolygiad cynhwysfawr o'r strategaeth gorfforaethol, gan ail-leoli brand Brains, gan fuddsoddi'n drwm yn y gwaith o ehangu'r ystâd tafarndai a phrynu, datblygu a gwerthu'r gadwyn Coffee#1. Roedd hefyd yn gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o greu menter ar y cyd i ailddatblygu safle'r Hen Fragdy yn y Cei Canolog.

Scott oedd Cadeirydd CBI Cymru yn 2010 a 2011. Ef oedd Comisiynydd Cymru Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau am bum mlynedd, o fis Ebrill 2012 ymlaen, ac ef oedd cadeirydd Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru.

Ar hyn o bryd mae'n Gadeirydd Clwb Busnes Caerdydd ac mae'n Llywodraethwr ar Fwrdd Prifysgol Metropolitan Caerdydd.



Sarah Howells

Cyfarwyddwr Anweithredol

Wedi'i magu ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Sarah yw prif swyddog cwsmeriaid Jurassic Fibre Limited, y prif ddarparwr gwasanaeth rhyngwlad sy'n gwasanaethu De Orllewin Lloegr.

Mae'n gyfrifol am arwain yr adrannau marchnata, gwerthu, gosod a gweithrediadau cwsmeriaid wrth iddynt gyflwyno rhyngwlad ffeibr llawn i gymunedau lleol.

Mae gan Sarah dros 20 mlynedd o brofiad ym maes gwasanaeth cwsmeriaid ar mewn amrywiaeth o ddiwydiannau. Mae hi wedi bod â sawl uwch swydd mewn sefydliadau mawr adnabyddus yn y DU a Seland Newydd, gan gynnwys Virgin Media, Vodafone, Les Mills Clothing and Merchandising a 2 Degrees Mobile. Bu hefyd yn arwain tîm o dros 1,000 o bobl i ddarparu cymorth gwasanaeth pan roedd hi'n Bennaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid i Tesco.

Mae gan Sarah enw da am ddatblygu pobl, gwella gallu digidol a sicrhau newid trawsnewidiol.



Alison Noon-Jones

Cyfarwyddwr Anweithredol

Mae gan Alison Noon-Jones dros 35 mlynedd o brofiad ym maes Adnoddau Dynol, 25 mlynedd ar lefel bwrdd cenedlaethol a rhyngwladol, o fewn ystod o sefydliadau proffil uchel o'r radd flaenaf, gan gynnwys Invacare Corporation, General Motors Acceptance Corporation ac Airbus Defence and Security. Mae hi wedi gweithio ar draws Ewrop ac yn y Dwyrain Canol.

Ar hyn o bryd, Alison yw Is-lywydd Pobl a Diwylliant Leidos UK and Ewrop. Mae hi'n gyfrifol am arwain tîm o 25 o weithwyr AD proffesiynol, gan ddarparu gwasanaethau AD i gefnogi'r busnes gwerth £500m sy'n cynnwys 1,200 o weithwyr a chontractwyr mewn 11 o safleoedd ledled y DU ac Ewrop. Ymunodd Alison â Leidos yn 2016 a chyn ymgymryd â'r rôl hon, hi oedd Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol y rhaglen LCST, rhaglen logisteg amddiffyn gwerth £8bn ar gyfer y Weinyddiaeth Amddiffyn.

Mae Alison wedi treulio llawer iawn o'i gyrfa ym maes trawsnewid a rhaglenni newid strategol ar raddfa fawr yn y maes adnoddau dynol, ac mae'n ffynnu ar feithrin timau i sicrhau'r perfformiad a'r ddarpariaeth orau bosib. Mae hi'n gydweithredol ac yn meithrin partneriaethau cryf ar draws rhaglenni a busnesau.

Mae gan Alison radd mewn ieithoedd modern o Brifysgol Abertawe, mae'n Gymrawd o'r CIPD ac mae'n Fentor ac yn Hyfforddwr Gweithredol cymwys.



Nicola Kemmery

Cyfarwyddwr Anweithredol

Gyda phrofiad helaeth dros 29 mlynedd, Nicola yw Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch Dŵr Cymru, lle bu'n gweithio ers symud i Gymru yn 2010.

Ar ôl treulio'r rhan fwyaf o'i gyrfa yn y diwydiant dŵr, mae Nicola yn gyfrifol am ddatblygu ac arwain strategaeth iechyd, diogelwch a gwella Dŵr Cymru. Rhoddodd y dull newydd hwn ar waith i helpu'r sefydliad i gadw ac ymestyn ei achrediad OHSAS 18001 ac wedyn cael statws ISO45001. Mae hi'n arwain tîm o weithwyr iechyd a diogelwch proffesiynol sy'n darparu amrywiaeth o swyddogaethau cynghori a llywodraethu sy'n cefnogi dros 3,500 o weithwyr a'u partneriaid contract.

Mae Nicola yn weithiwr iechyd a diogelwch siartredig a dechreuodd ei bywyd gwaith yn Swydd Efrog. Arferai fod yn Rheolwr Iechyd a Diogelwch ar gyfer y Grŵp Kelina (Gwasanaethau Dŵr Swydd Efrog) am 14 mlynedd. Yma, dyfeisiodd a gweithredodd systemau rheoli iechyd a diogelwch a chynlluniau gwella'r Grŵp.

Bu Nicola yn Aelod etholedig o Gyngor y Sefydliad Diogelwch ac Iechyd Galwedigaethol am chwe blynedd ac mae hi wedi bod yn aelod gweithgar o Grŵp Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol Dŵr y Deyrnas Unedig ers 22 o flynyddoedd.



Alun Bowen
Cyfarwyddwr Anweithredol

Ac yntau wedi graddio mewn gwyddorau naturiol yng Ngholeg y Drindod, Caergrawnt, bu Alun yn gweithio i KPMG am 37 o flynyddoedd, gan gyflawni nifer o swyddi ar draws y byd, gan gynnwys yng Nghaerdydd, Llundain, Hong Kong, Sydney a Kazakhstan.

Yn wreiddiol o Landeilo, Alun oedd prif ymgynghorydd cynllunio busnes Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru a Chanolfan Mileniwm Cymru. Ef oedd pennaeth byd-eang arferion gwasanaethau cynaliadwy KPMG cyn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros 600 o bobl yn adran Asia Ganol y busnes.

Yn gyn Gadeirydd Busnes yn y Gymuned yng Nghymru, roedd Alun yn aelod o Bwyllgor Archwilio Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr ac yn aelod o gyngor y Prince's Trust yng Nghymru. Ar hyn o bryd mae'n gadeirydd Pwyllgor Archwilio KAZ Minerals Limited. Alun hefyd yw Cadeirydd Pullman Rail Limited.



Vernon Everitt
Cyfarwyddwr Anweithredol

Gyda dros 40 mlynedd o brofiad ar draws y sectorau cyllid, trafniadaeth a thechnoleg, Vernon yw Comisiynydd Trafnidiaeth Manceinion Fwyaf. Mae'n cynghori'r Maer ar ddatblygu rhydwaiath trafniadaeth gyhoeddus integredig ar gyfer y rhanbarth ochr yn ochr â mwy o gyfleusterau teithio llesol.

Rhwng 2007 ac Ionawr 2022, Vernon oedd Rheolwr Gyfarwyddwr Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Thechnoleg yn Trafnidiaeth Llundain. Roedd Vernon yn canolbwyntio ar roi cwsmeriaid wrth galon strategaethau a gweithrediadau trafniadaeth, gan gynnwys sut y gall integreiddio gwasanaethau a thechnoleg a data arwain at deithiau gwell. Bu Vernon yn arwain strategaeth farchnata a chyfathrebu lwyddiannus ar draws y Llywodraeth a'r diwydiant trafniadaeth ar gyfer Gemau Olympaidd 2012 Llundain, yr ymgyrch integredig fwyaf erioed o'i bath.

Mae Vernon hefyd wedi gweithio ar lefel uwch gyda'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA) a Banc Lloegr mewn amrywiaeth o swyddogaethau bancio, rheoleiddio, corfforaethol a chyfathrebu.

Mae hefyd yn uwch gynghorydd i'r cwmni ymgynghori Teneo, mae'n aelod o Grŵp Cynghori Moesegol Marston Holdings ac mae'n cadeirio Cyngor Cynghori Technoleg ESO y National Grid. Ymunodd â TrC fel Cyfarwyddwr Anweithredol ym mis Medi 2019.



James Price
Prif Weithredwr

Penodwyd James, cyn Ddirprwy Ysgrifennydd Parhaol yn Llywodraeth Cymru, yn Brif Weithredwr TrC ym mis Ionawr 2018 ar ôl bod yn Gadeirydd yn ystod y cyfnod sefydlu.

Dechreuodd James ar ei yrfa ym maes contractio peirianeg sifil yn wreiddiol. Ac yntau'n economegydd proffesiynol, mae wedi gweithio ledled y DU gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a gydag asiantaethau sy'n eiddo i'r llywodraeth yng Nghymru a Lloegr.

Tan ddiwedd 2017, ef hefyd oedd y Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol ar gyfer yr Economi, Trafnidiaeth, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol, gan arwain tîm o tua 2,500 o weision sifil.

Mae James wedi bod yn gyfrifol am gyflenwi seilwaith i Lywodraeth Cymru er 2007, yn gyntaf fel Cyfarwyddwr Trafnidiaeth ac yna fel Cyfarwyddwr Cyffredinol a Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol.

Erbyn hyn, mae'n gyfrifol am weithrediadau o ddydd i ddydd Trafnidiaeth Cymru a stiwardiaeth briodol dros arian cyhoeddus. Mae James hefyd yn Gadeirydd Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyf ac yn Gyfarwyddwr Pullman Rail Ltd.



Heather Clash
Cyfarwyddwr Gweithredol, Cyllid a Llywodraethu

Ar ôl byw, astudio a gweithio yng Nghymru am dros 26 o flynyddoedd, ymunodd Heather â TrC ym mis Gorffennaf 2018. Mae hi'n weithiwr proffesiynol profiadol ym maes cyfrifyddu, ac astudiodd ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae hi wedi gweithio ym maes cyllid ar hyd ei yrfa.

Mae Heather yn arbenigo mewn rheolaeth a rheoli portffolios contractau allanol a swyddogaethau corfforaethol mewn sefydliadau corfforaethol mawr. Cyn ymuno â Trafnidiaeth Cymru, bu'n Gyfarwyddwr Cyllid mewn amrywiaeth o sefydliadau mawr gan gynnwys Is-adran Gwasanaethau TG Capita Group Plc a Gwerthu a Marchnata yn y Deyrnas Unedig i Compass yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon.

Mae Heather yn aelod o uwch dim arwain TrC ac mae'n gyfrifol am gynllunio a strategaeth ariannol, dadansoddi perfformiad a risg y sefydliad, goruchwylio ei swyddogaeth llywodraethu a chyllid, yn ogystal â'r holl reolaethau ariannol mewnol ac archwilio. Mae Heather hefyd yn gyfarwyddwr Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig.

Pwyllgorau'r Bwrdd ac adroddiadau gan eu cadeiryddion

Pwyllgor Archwilio a Risg

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn goruchwyllo system rheoli risg TrC, ei reolaeth fewnol, adroddiadau ariannol ac anariannol a'i gyfrifoldebau o ran y Gymraeg.



Alun Bowen
Cadeirydd, Pwyllgor Archwilio a Risg

Uchafbwyntiau 2021/22

Un o brif gyfrifoldebau'r Pwyllgor yw gwneud yn siŵr bod gwybodaeth ariannol TrC a chynnwys yr Adroddiad Blynyddol hwn yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn herio tybiaethau ac amcangyfrifon y tîm rheoli wrth baratoi'r datganiadau ariannol. Y mater pwysicaf, fel y llynedd, fu'r prisiad asedau seilwaith TrC, yn enwedig yng ngoleuni'r buddsoddiad parhaus yn Llinellau Craidd y Cymoedd.

Mae rheoli risg yn effeithiol yn rhan annatod o strategaeth a gweithrediadau TrC. Mae canfod risgiau'n gywir ac yn amserol, ac asesu a rheoli risgiau yn sgil hynny, yn helpu i wneud penderfyniadau ar bob lefel reoli ac yn sicrhau bod TrC yn gallu cyflawni ei nodau strategol a bodloni ei ddangosyddion perfformiad allweddol. Mae'r swyddogaeth risg well wedi gweithio'n galed i weithredu'r model amddiffyn tair llinell yn y sefydliad mwy ac mae yna ddealltwriaeth gyffredin bellach, er bod llawer o waith i'w wneud o hyd.

Mae'r Pwyllgor yn rhoi pwys mawr ar ansawdd ac effeithiolrwydd yr archwiliad a gynhaliwyd gan ei archwilydd allanol KPMG. Wrth asesu ansawdd ac effeithiolrwydd, mae'r pwyllgor yn edrych ar wrthrychedd, sgeptigaeth broffesiynol, annibyniaeth a pherthynas y tîm archwilio â'r rheolwyr.

Rydym yn cyfarfod yn rheolaidd yn breifat i sicrhau bod unrhyw faterion yn cael eu deall a'u cyfleu heb i'r rheolwyr fod yn bresennol.

Yn yr un modd, mae archwilio mewnol yn swyddogaeth hanfodol yn y model amddiffyn tair llinell. Rwyf wedi cwrdd â'r tîm archwilio mewnol cyfan yn ystod y flwyddyn, fel bod ganddynt ddealltwriaeth glir o'm materion a'm disgwyliadau i a'r pwyllgor. Maent yn gwneud gwaith ardderchog a bydd ein rhyngweithio rheolaidd yn parhau.

Cyhoeddodd y Pwyllgor Archwilio a Risg bolisi archwilio a sicrwydd drafft ar gyfer ymgynghori arno yn 2022. Cafodd y [polisi archwilio a sicrwydd](#) terfynol ar gyfer y tair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 ei gyhoeddi ar yr un pryd â'r adroddiad blynyddol hwn.

Mae'r pwyllgor wedi cael cyfrifoldeb goruchwyllo ar ran y Bwrdd i sicrhau bod TrC yn cofleidio'r Gymraeg ac yn cyflawni ei rwymedigaethau o ran yr iaith.

Rwy'n cyfarfod yn rheolaidd â'r rheini sy'n gyfrifol am y Gymraeg yn TrC i sicrhau bod materion yn bwrw ymlaen mor gyflym ag y gallant a bod digon o ffocws gan bob lefel o reolaeth ar faterion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg.

Blaenoriaethau 2022/23

Mae'r polisi archwilio a sicrwydd ar gyfer y tair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 yn nodi nifer o gynlluniau'r pwyllgor archwilio a risg ar gyfer 2022/23.

Yn benodol, cynlluniau ar gyfer goruchwyllo:

- ✓ y broses dendro archwilio allanol a ddechreuodd ym mis Mehefin 2022
- ✓ parhau i wella prosesau rheoli risg a rheolaeth fewnol TrC
- ✓ prosiect ar wella'r rheolaethau mewnol yn y systemau cydymffurfio, gweithredol ac adroddiadau ariannol ac anariannol
- ✓ risg twyll
- ✓ cynlluniau archwilio mewnol.

Yn ogystal, bydd y pwyllgor yn canolbwyntio ar sicrhau:

- ✓ bod prosesau adrodd anariannol yn TrC yn parhau i esblygu a bod y systemau a'r prosesau a'r sicrwydd drostynt yn symud tuag at fod yr un safon â gwybodaeth ariannol
- ✓ bod y cyfleoedd ar gyfer y Gymraeg sy'n cael eu darparu drwy ddigideiddio parhaus yn cael eu cofleidio'n llawn
- ✓ Mae TrC yn gwbl dryloyw o ran cyfathrebu pob agwedd ar weithgarwch ariannol ac anariannol mewn ffordd sy'n hygyrch ac yn ddealladwy i'n holl randdeiliaid.

Y Pwyllgor Cwsmeriaid a Chyfathrebu

Mae'r Pwyllgor Cwsmeriaid a Chyfathrebu yn goruchwylio strategaeth cwsmeriaid TrC a'i gynlluniau cyflawni. Mae'r pwyllgor hefyd yn adolygu metrigau perfformiad gweithredol anariannol (fel prydlondeb) ynghyd ag adborth gan gwsmeriaid a rhanddeiliaid.

Mae'r pwyllgor yn sicrhau bod ein cwsmeriaid yn ganolog i bopeth a wnawn a bod cynllun clir ar waith i gyflawni'r gwasanaeth a'r trawsnewid y mae ein cwsmeriaid yn ei ddisgwyl.



Sarah Howells
Cadeirydd

Uchafbwyntiau 2021/22

- ✓ Adolygu a monitro adborth teithwyr yn barhaus ynghylch teithio diogel drwy gydol pandemig y coronafeirws, gan sicrhau bod pwyntiau dysgu allweddol wedi cael eu nodi a chamau priodol wedi cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon.
- ✓ Monitro ein cynlluniau peilot fflecsi teithio sy'n ymateb i'r galw, gan ddarparu gwelliannau parhaus a sicrhau bod lefelau uchel o wasanaeth yn cael eu darparu.
- ✓ Craffu ar fetrigau perfformiad gweithredol, gan sicrhau bod mentrau gwella addas yn cael eu rhoi ar waith lle bo hynny'n berthnasol
- ✓ Monitro'r gwaith o gyflawni mentrau gwella digidol fel y gwiriwr capasiti rheilffyrdd a'r adnodd archebu lle
- ✓ Monitro perfformiad trawsnewid y Metro yn barhaus, gan roi sylw penodol i ymgysylltu â'r gymuned a pherfformiad gwasanaethau yn lle trenau. Lle nodwyd bod angen gwella, cymerwyd camau priodol.
- ✓ Craffu ar raglenni buddsoddi mewn gorsafoedd, gan sicrhau eu bod yn gwella profiad y cwsmer.
- ✓ Cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu a lansio 'Y Rhwydwaith Cymdeithasol Go lawn', ymgyrch farchnata newid ymddygiad aml-foddol graddfa fawr gyntaf TrC.
- ✓ Cefnogi'r gwaith o ddatblygu a lansio gwefan ac ap 'un parth' newydd TrC, sy'n cynnwys adnodd manwerthu newydd.

Blaenoriaethau ar gyfer 2022-23

- Parhau i gyflawni ein rhaglen 'teithio'n saffach', gan barhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod teithwyr yn teimlo'n ddiogel wrth deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus wrth i ni symud y tu hwnt i bandemig y coronafeirws.
- Mae monitro ac adolygu ein hymgyrch newid ymddygiad aml-foddol yn ogystal â'n rhaglenni buddsoddi mewn gorsafoedd, gan sicrhau bod adborth cwsmeriaid a diogelwch yn ysgogi'r broses flaenoriaethu.
- Monitro datblygiad a darpariaeth cynlluniau peilot tocynnau cenhedlaeth nesaf ledled Cymru ynghyd â datblygu cynnyrch tocynnau aml-ddull a phrisiau. Bydd hyn yn cynnwys adolygiad o brisiau tocynnau, datblygu cynlluniau peilot tocynnau aml-fodel ac adolygiad o docynnau aml-foddol
- Datblygu a monitro'r rhaglen cyswllt cwsmeriaid, sy'n ceisio darparu gwell gwybodaeth a chefnogaeth i'n cwsmeriaid yng Nghymru a'r rhanbarthau ar y ffin.
- Datblygu gwasanaethau fflecsi trafndiaeth seiliedig ar alw, gan ddarparu technoleg arloesol i gwsmeriaid sy'n defnyddio'r gwasanaeth.
- Parhau i graffu ar berfformiad gweithredol a monitro gwasanaethau parhaus yn lle trenau.

Y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles

Mae'r Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles yn rhoi sicrwydd i Fwrdd TrC bod ei fuddiannau a'i atebolrwydd o ran iechyd, diogelwch a lles yn cael eu rheoli'n briodol.

Mae'r pwyllgor yn sicrhau bod mesurau cadarn ar waith mewn perthynas â gweithgareddau'r cwmni gan eu bod yn effeithio ar y cyhoedd yn gyffredinol (gan gynnwys teithwyr), gweithwyr uniongyrchol ac anuniongyrchol, contractwyr a chyflenwyr. Mae'r pwyllgor yn gwneud argymhellion, yn herio ac yn atgyfnerthu gweithgareddau cadarnhaol i hyrwyddo gwelliant parhaus ac yn rhannu arferion gorau.



Nicola Kemmery
Cadeirydd

Uchafbwyntiau 2021/22

- ✓ Mae'r pwyllgor wedi adolygu ei rôl a'i gylch gwaith ac wedi ehangu aelodaeth i sicrhau ein bod yn ymgysylltu'n effeithiol â phob agwedd ar weithgareddau TrC, gan gynnwys unrhyw weithgareddau neu gaffaeliadau newydd.
- ✓ Rydyn ni wedi monitro'n ofalus y risgiau iechyd a diogelwch parhaus i weithwyr a chwsmeriaid yn sgil y coronafeirws. Canolbwyntiwyd yn barhaus ar atal ymddygiad gwrthgymdeithasol a sicrhau profiad teithio diogel i gwsmeriaid a gweithwyr
- ✓ Mae rheoli risg iechyd a diogelwch wedi gwella'n barhaus ar draws gweithgareddau TrC. Lle bu digwyddiadau, naill ai o fewn TrC neu'r diwydiant rheilffyrdd ehangach, mae pwyntiau dysgu allweddol wedi cael eu nodi a chamau gwella addas wedi cael eu cymryd
- ✓ Mae'r pwyllgor hefyd wedi gweld amrywiaeth o gynlluniau gwella iechyd, diogelwch a lles yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol, gan gynnwys:
 - Teithiau 'Arweinyddiaeth Weledol' i sicrhau bod uwch reolwyr yn ymgysylltu'n weithredol â chydweithwyr rheng flaen
 - gweithio mewn partneriaeth allanol gyda'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a School of Hard Knocks i fynd i'r afael â throseddau, tresmasu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol
 - ymchwilio i achosion y Signalau a Basiwyd yn Beryglus ac ymyriadau dilynol i atal digwyddiadau yn y dyfodol
 - mwy o ymgysylltu â chontractwyr, yn enwedig y rheini sy'n gweithio ar welliannau i seilwaith Llinellau Craidd y Cymoedd.

Blaenoriaethau ar gyfer 2022-23

- Byddwn yn parhau i fonitro iechyd, diogelwch a perfformiad llesiant ar draws holl weithgareddau TrC, gan sicrhau ein bod yn monitro perfformiad ein contractwyr yn effeithiol ac yn cynyddu lefel yr archwiliadau monitro a sicrwydd ar gyfer gweithgareddau allweddol.
- Byddwn yn cefnogi arweinyddiaeth iechyd a diogelwch amlwg, gan gynnwys teithiau diogelwch sy'n cael eu cynnal gan ein huwch arweinwyr a sesiynau briffio iechyd a diogelwch staff. Byddwn hefyd yn annog dysgu ar y cyd.
- Byddwn yn monitro'r broses o ddychwelyd i weithio mewn swyddfa yn ddiogel a'r cynnydd yn y defnydd o'n gwasanaethau ar ôl cael gwared ar lawer o gyfyngiadau coronafeirws.
- Byddwn yn meithrin diwylliant o welliant parhaus, gan sicrhau bod timau'n nodi cyfleoedd ar gyfer gwelliannau pellach i reoli risgiau ac atal anafiadau a salwch.
- Byddwn yn sicrhau bod gan y busnes brosesau effeithiol ar waith i reoli iechyd, diogelwch a lles wrth i'r sefydliad ddatblygu ac ysgwyddo swyddogaethau a chyfrifoldebau ychwanegol

Pwyllgor Prosiectau Mawr

Mae'r Pwyllgor Prosiectau Mawr yn gyfrifol am sicrhau bod y weithrediaeth yn canolbwyntio'n fanwl ar ddiogelwch, cyflawni, rheolaethau a rheoli risg prosiectau mawr.

Mae'r pwyllgor yn cael adroddiadau rheolaidd ar gyflawni prosiectau ar ran Bwrdd TrC ac yn monitro ac yn herio'r amgylchedd rheoli a lliniaru risg a sefydlwyd gan y weithrediaeth.



Vernon Everitt
Cadeirydd

Pwyllgor Pobl

Mae'r Pwyllgor Pobl yn cynorthwyo'r Bwrdd drwy oruchwylio strategaeth pobl y cwmni. Mae hyn yn cynnwys denu, datblygu a chadw talent a datblygu diwylliant busnes cyffredinol.

Mae'r pwyllgor yn sicrhau bod polisiau ac arferion y cwmni yn gyson â gwerthoedd TrC ac yn cefnogi cynaliadwydd yn y tymor hir.



Alison Noon-Jones
Cadeirydd

Uchafbwyntiau 2021/22

- ✓ Rydyn ni wedi parhau i ganolbwyntio ar ddylunio a darparu prosiectau'n ddiogel ac adfer prosiectau ar ôl y tarfu a achoswyd gan bandemig y coronafeirws.
- ✓ Rydym wedi pwysleisio'r angen i gefnogi iechyd, diogelwch a lles pawb sy'n gweithio ar brosiectau mawr, ac rydym wedi pwysleisio y dylai diogelwch fod yn brif flaenoriaeth bob amser.
- ✓ Rydym wedi monitro'r gwaith parhaus o gyflwyno systemau a rheolaethau ar gyfer rheoli cylch bywyd y prosiect o un pen i'r llall a rheoli risg yn effeithiol gan y weithrediaeth.
- ✓ Rydym wedi monitro datblygiad ac aeddfedrwydd pellach swyddfa rheoli'r prosiect fel peirianwaith allweddol ar gyfer rheoli prosiectau mawr yn effeithiol.
- ✓ Rydyn ni wedi cael adroddiadau rheolaidd am gynnydd o ran cyflawni prosiectau penodol (gan gynnwys trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd, prosiectau bysiau, adnewyddu ac uwchraddio gorsafoedd a cherbydau) i sicrhau bod effaith, os o gwbl, pandemig y coronafeirws ar gostau a chyflawni wedi cael ei hasesu'n llawn.
- ✓ Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar sut gall y rhaglen cynnal a chadw ac adnewyddu feithrin mwy o wydnwch yn erbyn newid yn yr hinsawdd a digwyddiadau tywydd eithafol mawr.

Blaenoriaethau ar gyfer 2022-23

- Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar ddylunio a chyflawni prosiectau mawr yn ddiogel, adfer ar ôl unrhyw amhariad a achosir gan y coronafeirws ac iechyd, diogelwch a lles pawb sy'n gweithio ar y prosiectau.
- Byddwn yn monitro'r gwaith o gyflawni a rheoli risg prosiectau mawr yn effeithiol, gan gynnwys Llinellau Craidd y Cymoedd, y rhwydwaith bysiau, seilwaith, uwchraddio cerbydau a theithio llesol.
- Byddwn yn monitro sut mae'r rhaglen adnewyddu yn cael ei rhoi ar waith yn effeithiol er mwyn sicrhau mwy o gydnerthedd mewn gwasanaethau.
- Byddwn yn parhau i fonitro aeddfedrwydd ac effeithiolrwydd y Swyddfa Rheoli Prosiectau.

Uchafbwyntiau 2021/22

- ✓ Cynnal cysylltiadau a phartneriaethau rhagorol gyda'r cyrff undebau cynrychioliadol craidd.
- ✓ Cynyddu a pharhau â'n hymrwymiad i wneud TrC yn weithle amrywiol a chynhwysol.
- ✓ Gwreiddio ffyrdd newydd o ddenu pobl o gefndiroedd amrywiol drwy gyflwyno hysbysebion swyddi mwy cynhwysol a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn briodol i rannu a dathlu ein newyddion a'n llwyddiannau.
- ✓ Canolbwyntio ar ein talent fewnol gyda dros 65 o ddyrchafiadau ar draws y busnes ar yr un pryd â hwyluso adolygiadau cadarn o dalent er mwyn gallu cynllunio ar gyfer olyniaeth.
- ✓ Cefnogi dysgu parhaus drwy ddylunio, treialu a chyflwyno camau cynnar ein rhaglen 'Arwain Gyda...'
- ✓ Parhau i gyflawni ein cynlluniau gweithredu i gefnogi ein gwaith o gau y bwll cyflog rhwng y rhywiau.
- ✓ Lansio ymgyrchoedd llesiant misol i hyrwyddo a chefnogi llesiant i bawb a lansio Byrddau Pobl ar gyfer yr uwch dîm arwain.

Blaenoriaethau ar gyfer 2022-23

- iParhau i gysoni arferion sy'n ymwneud ag atyniad, datblygiad a pholisiau iawndal a fydd yn cefnogi ein taith ddiwylliannol.
- Cynnal ffocws ar ddiogelwch a lles gweithwyr drwy arferion cefnogol er mwyn cael cydbwysedd iach rhwng bywyd a gwaith.
- Dathlu amrywiaeth ein poblogaeth gweithwyr a'r gwahaniaeth maent yn ei wneud i TrC bob dydd; hwyluso cyfranogiad mwy o fenywod yn y sector trafndiaeth ledled Cymru a grymuso ein pobl i lywio eu dysgu a'u twf.
- Sicrhau bod prosesau gwobrwyo a chydabod teg a chysylltu yn cael eu defnyddio i gadw ein talent; monitro dylanwadau a thueddiadau'r farchnad i sicrhau cystadleurwydd yn ein cynnig gwobrwyo cyflawn
- Gwerthfawrogi arloesedd ac unigolrwydd; parhau i ddefnyddio pob sianel gyfathrebu briodol i rannu a dathlu llwyddiant ein pobl, ein partneriaid.
- Cynnal diwylliant o barch, cydweithio ac ymrwymiad i ragoriaeth.
- Creu opsiynau symudedd mewnol drwy broses gydnerth o ddatblygu rheolwyr.
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu a siapia ein model gweithredol a sefydliadol, gan gynnwys integreiddio PTI Cymru yn llawn.
- Parhau i ddarparu partneriaethau busnes AD lefel uchel sy'n canolbwyntio ar drosglwyddo a chyflawni'r strategaeth cysylltiadau diwydiannol yn effeithiol.

Y Pwyllgor Taliadau

Mae'r Pwyllgor Taliadau yn pennu polisi taliadau'r cwmni i sicrhau tegwch a chysondeb o ran iawndal gweithredol a'i ddull ehangach o ymdrin â thâl a buddion.

Ein hamcan craidd yw sicrhau bod staff o ansawdd uchel yn cael eu denu, eu datblygu a'u cadw. Mae'r Pwyllgor Taliadau yn mynd ati'n ddiwyd i adolygu ei berfformiad ei hun i sicrhau ei fod yn gweithredu mor effeithiol â phosibl.



Alison Noon-Jones
Cadeirydd

Uchafbwyntiau 2021/22

- ✓ Cadw 100% o'r tîm gweithredol sy'n perfformio'n dda.
- ✓ Penodi sgiliau arwain busnes ychwanegol a pherthnasol sy'n cefnogi'r gwaith estynedig o gyflawni cyfrifoldebau TrC yn Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyf.
- ✓ Cyflawni casgliad boddhaol i newidiadau mewnol a chyfrifoldebau arweinyddiaeth i gefnogi cynlluniau datblygu strategol a thwf.
- ✓ Cynnal cysylltiadau rhagorol â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill.

Blaenoriaethau ar gyfer 2022-23

- Cynyddu a pharhau â'n hymrwymiad i wneud TrC yn weithle amrywiol a chynhwysol.
- Cefnogi cydbwysedd cyflog rhwng y rhywiau drwy ganolbwyntio ar gynyddu talent uwch amrywiol i benodiadau gweithredol.
- Creu datblygiad gweithredol mewnol drwy aseiniadau ymestyn.
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu a siapio ein model gweithredol a sefydliadol, gan gynnwys integreiddio PTI Cymru yn llawn.
- Darparu cyfle ar gyfer datblygiad gweithredol drwy rwydweithio allanol ehangach ac aseiniadau siaradwyr.



Datganiad llywodraethu corfforaethol

Fel Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu TrC, rydw i'n bersonol gyfrifol am reoli a llywodraethu grŵp cwmnïau TrC yn gyffredinol, gan gynnwys ei dri is-gwmni – Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig, Gwasanaethau Arloesi TrC Cyfyngedig a Pullman Rail Limited.

Mae'r Datganiad Llywodraethu hwn yn amlinellu sut rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau i reoli adnoddau TrC yn ystod y flwyddyn. Mae TrC yn ymrwmo i'r safonau uchaf o ran llywodraethu, atebolrwydd a thryloywder, sy'n hanfodol i lwyddiant pob rhan o Grŵp TrC.

Mae TrC yn cael ei lywodraethu gan y canlynol:

- cyfrifoldeb cyffredinol y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog dros Newid Hinsawdd dros y cwmni;
- cyfrifoldeb Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru, i'r Dirprwy Weinidog dros Newid yn yr Hinsawdd ac yn uniongyrchol i Senedd Cymru, fel Prif Swyddog Cyfrifyddu dros wariant a rheolaeth TrC;
- fy nghyfrifoldeb fel Swyddog Cyfrifyddu TrC
- Bwrdd TrC, a gefnogir gan ei is-bwyllgorau, sydd â chydgyfrifoldeb dros oruchwylio gwaith y cwmni, yn ogystal â goruchwylio, craffu a chynnig sicrwydd i wneud yn siŵr bod TrC yn cyflawni ei nodau a'i amcanion gyda lefel priodol o reolaeth
- byrddau is-gwmnïau TrC: Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru, Gwasanaethau Arloesi Trafnidiaeth Cymru, a Pullman Rail Limited.

Mae system lywodraethu TrC hefyd yn cynnwys y tîm gweithredol.

Mae ein fframwaith llywodraethu yn seiliedig ar ein Herthyglau Cymdeithasu a Chytundeb Rheoli rhwng TrC a Gweinidogion Cymru. Ar gyfer TrC, mae llywodraethu corfforaethol da yn golygu sicrhau bod grŵp cwmnïau TrC yn cyd-fynd ag amcanion Gweinidogion Cymru fel y nodir yn y ddwy ddogfen hon, yn ogystal â'n Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol ein hunain, Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a'n hamserlen ar gyfer dirprwyo.

Bwrdd TrC

Mae Bwrdd TrC yn goruchwylio ein holl weithgareddau, gan gynnig arweinyddiaeth a gweledigaeth strategol i wneud yn siŵr bod TrC yn cynnal safonau uchel o ran llywodraethu corfforaethol a ffyrdd o weithio. Mae'n gweithredu ar y cyd, gan ganolbwyntio ar:

- sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith o ran llywodraethu a goruchwylio
- materion strategol a sylweddol sy'n effeithio ar weithrediadau Trafnidiaeth Cymru o ran cyflawni ei gylch gwaith
- rhoi strategaeth y Bwrdd ar waith. Mae'n llywio, yn herio ac yn craffu ar effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd perfformiad TrC, gyda'r bwriad o sicrhau ei ddyfodol a'r weledigaeth o greu rhwydwaith trafndiaeth y mae Cymru'n falch ohono.

Gall y Bwrdd ddirprwyo i'r tîm gweithredol gyfrifoldeb am yr holl faterion rheoli o ddydd i ddydd, ond yn y pen draw mae'n dal yn gyfrifol ac yn atebol am bob mater. Mae ein Cyfarwyddwyr Anweithredol annibynnol yn craffu ar berfformiad y tîm gweithredol wrth gyflawni amcanion y cytunwyd arnynt. Mae aelodau tîm gweithredol TrC yn mynychu'n rheolaidd i gyflwyno dogfennau gydag awgrymiadau ac i ddarparu gwybodaeth gyfredol.

Mae sylwedydd enwebedig o'r Undebau Llafur yn ymuno â'r Bwrdd ar gyfer rhan o'r sesiwn strategol. Caiff y sylwedydd ei ethol drwy broses a oruchwylir gan Gyngres Undebau Llafur Cymru (TUC) ac er nad yw'n aelod llawn o'r Bwrdd ac nad oes ganddo hawliau pleidleisio, mae'n gallu cymryd rhan mewn trafodaethau.

Mae ein Cyfarwyddwyr wedi arwyddo Datganiad Gwrthdaro Rhwng Buddiannau ac yn diweddarau datganiadau buddiannau'n chwarterol. Mae'r buddiannau a ddatganwyd ar gael ar wefan TrC. Mae datganiadau buddiannau yn cael eu gwneud ar ddechrau pob cyfarfod.

Disgwylir i bob cyfarwyddwr ymddwyn yn unol â saith egwyddor bywyd cyhoeddus ac mae pob un wedi llofnodi telerau Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol TrC sy'n cynnwys Cod Ymddygiad Swyddfa'r Cabinet ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus. Mae TrC wedi dewis cydymffurfio ag Egwyddorion Llywodraethu Corfforaethol Cymru.

Fe gyfarfu'r Bwrdd un ar ddeg o weithiau yn ystod y flwyddyn. Mae cofnodion pob cyfarfod y Bwrdd yn cael eu cyhoeddi yn <https://trc.cymru/cy/cofnodion-y-bwrdd>

Mae'r tabl canlynol yn dangos presenoldeb y cyfarwyddwyr mewn cyfarfodydd y Bwrdd a chyfarfodydd is-bwyllgorau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022:

Cyfarwyddwr	Bwrdd	Archwilio a Risg	Cwsmeriaid a Chyfathrebu	Iechyd, Diogelwch a Lles	Prosiectau Newid Mawr	Pobl	Taliadau
Alun Bowen	8/11	4/4			6/7		
Heather Clash	11/11	4/4			6/7		
Vernon Everitt	11/11			3/5	7/7		
Sarah Howells	11/11	3/4	6/6				
Nicola Kemmery	10/11			5/5		3/5	2/2
Alison Noon-Jones	11/11		3/6			5/5	2/2
James Price	11/11		6/6		7/7		1/1
Scott Waddington	11/11						2/2

Mae ein Bwrdd yn cyfuno gwybodaeth a sgiliau chwe aelod anweithredol annibynnol a dau aelod gweithredol annibynnol i gynnig gwybodaeth a phrofiad er mwyn helpu i siapio ein cyfeiriad strategol. Mae bywgraffiadau llawn holl aelodau'r Bwrdd ar gael yn <https://trc.cymru/amdanom-ni/tim>. Mae'r Cyfarwyddwyr anweithredol annibynnol yn cynnig amrywiaeth eang o sgiliau a phrofiad i'r Bwrdd, ac mae pob un ohonynt yn weithwyr proffesiynol blaenllaw yn eu meysydd eu hunain. Maen nhw'n cynnig barn annibynnol ar faterion strategaeth, perfformiad a risg, ac maen nhw mewn sefyllfa dda i herio a chraffu ar berfformiad y tîm rheoli mewn ffordd adeiladol.

Amrywiaeth y Bwrdd

Mae ein Bwrdd wedi ymrwymo i ddenu a chadw pobl ddawnus, a gyda hynny mewn golwg, mae amrywiaeth ar draws ystod o feini prawf yn cael ei gwerthfawrogi. Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod amrywiaeth ym mhob maes yn allweddol i wneud yn siŵr bod safbwyntiau amrywiol yn cael eu cyflwyno i'w prosesau gwneud penderfyniadau. Yn ein Bwrdd ar hyn o bryd mae pedair menyw a pedwar dyn.

Pwyllgorau'r Bwrdd

Mae ein Bwrdd wedi dirprwyo pwerau penodol i chwe is-bwyllgor y Bwrdd, sy'n gweithredu i gynorthwyo'r Bwrdd i gwblhau ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau cyffredinol. Dyma'r chwe is-bwyllgor:

- Archwilio a Risg - i gynnig sicrwydd i'r Bwrdd ynglŷn â rheoli risg, rheolaeth fewnol ac adroddiadau ariannol.
- Cwsmeriaid a Chyfathrebu - helpu'r Bwrdd i adolygu, monitro a rhoi arweiniad am bynciau sy'n ymwneud â chwsmeriaid, a hynny er mwyn cyflawni pwrpas TrC sef cadw Cymru i symud yn ddiogel, gan dalu sylw ar lais y cwsmer, trawsnewid profiad cwsmeriaid, arloesi digidol a chyfathrebu agored ac onest
- Iechyd, Diogelwch a Llesiant - helpu'r bwrdd i argymhell polisi iechyd a diogelwch, monitro ac asesu cydymffurfiaeth, datblygu a chyflawni gwelliannau parhaus, adolygu ac ymchwilio i ddiwyddiadau iechyd a diogelwch ac ystyried materion iechyd a diogelwch a allai olygu goblygiadau i'r cwmni o ran strategaeth, busnes ac enw da, yn ogystal ag argymhell mesurau ac ymatebion priodol

- Prosiectau newid mawr - helpu'r Bwrdd i adolygu a chraffu ar brosiectau mawr ac argymhell penderfyniadau sy'n gysylltiedig â'r prosiectau mawr ym mhorthfolio TrC. Mae'r Pwyllgor yn canolbwyntio'n bennaf ar brosiectau a rhaglenni sy'n gysylltiedig â datblygu a chyflawni rhaglen buddsoddi TrC mewn seilwaith cyfalaf.
- Pobl - helpu'r Bwrdd gyda'r holl faterion sy'n ymwneud â strwythur y sefydliad a chynllunio olyniaeth, cydymffurfiaeth â pholisi, hyfforddi a datblygu, adolygu ac argymhell polisi iawndal, iawndal gweithredol a gweinyddu'r cynllun buddion.
- Tâl - gosod egwyddorion a pharamedrau polisi taliadau ar gyfer TrC a goruchwyllo'r polisi a'r canlyniadau.

O fis Mehefin 2022 ymlaen, bydd y pwyllgorau Tâl a Phobl hefyd yn cael eu cyfuno i gynnwys cylch gwaith ar gyfer enwebiadau'r Bwrdd. Bydd Pwyllgor Pobl, Tâl ac Enwebiadau yn cael ei ffurfio.

Mae pob pwyllgor yn cael ei gadeirio gan gyfarwyddwr anweithredol, ac maent yn cwrdd bob chwarter o leiaf. Mae'r Pwyllgorau Prosiectau Mawr a Chwsmeriaid a Chyfathrebu yn cwrdd bob deufis. Mae gan bob is-bwyllgor Bwrdd awdurdod dirprwyedig gan y Bwrdd i gyflawni'r dyletswyddau sydd wedi'u nodi yn ei gylch gorchwyl. Mae Cadeirydd pob is-bwyllgor yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am ei weithgareddau yn y mis diwethaf, ac yn gwneud argymhellion i'r Bwrdd ar ran yr is-bwyllgor i'w cymeradwyo, pan fo hynny'n briodol.

Fframwaith llywodraethu

Mae ein Bwrdd yn atebol i Weinidogion Cymru, sef yr unig aelod o'r cwmni. Mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am bolisi strategol sy'n gysylltiedig â'r holl faterion trafniadaeth datganoledig. Mae'r Prif Weinidog wedi rhoi'r prif gyfrifoldeb dros oruchwyliaeth TrC i'r Gweinidog Newid Hinsawdd. Mae'r Gweinidog yn goruchwyllo TrC drwy osod amcanion, blaenoriaethau a chyllidebau cyfalaf a gweithredol sy'n sail i gynlluniau busnes a chorfforaethol TrC.

Mae'r berthynas rhwng TrC a Llywodraeth Cymru o ran rheoli arian a llywodraethu corfforaethol wedi'i amlinellu yn y Cytundeb Rheoli. Mae'r ddogfen hon yn nodi telerau'r cytundeb rhwng TrC a Llywodraeth Cymru er mwyn cefnogi cysylltiadau adeiladol a chllir rhyngddynt.

Y tîm arwain gweithredol

Mae ein tîm arwain gweithredol yn cynnwys fi fy hun fel Prif Swyddog Gweithredol, ac wyth aelod arall sy'n canolbwyntio ar reolaeth TrC o ddydd i ddydd, gan gynnwys rheilffyrdd. Mae'r tîm arwain gweithredol yn cyfarfod bob wythnos i drafod ac i wneud penderfyniadau am faterion gweithredol a strategol gyda chyfrifoldeb dros arian, iechyd a diogelwch, pobl, rheoli risg, llywodraethu a pherfformiad a chynnydd prosiectau a rhaglenni.

Er mwyn rhoi gwell ffocws ac i gydnabod ein cylch gwaith cynyddol, o 1 Ebrill 2021 ymlaen, bydd cyfarfodydd ein tîm arwain gweithredol yn cynnwys yr elfennau canlynol, bob pedair wythnos:

- Pwyllgor Gweithredol - yn llywodraethu ac yn darparu cyfeiriad strategol y sefydliad; y pwynt cymeradwyo/uwchgyfeirio olaf cyn Bwrdd TrC. Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r tri phwyllgor arwain gweithredol arall.
- Gwasanaethau Corfforaethol - yn rheoli swyddogaethau corfforaethol y sefydliad.
- Datblygu Rhwydweithiau - yn rheoli'r gwaith o ddatblygu prosiectau a gweithgareddau gan ddatblygu'r seilwaith a phrofiad cyffredinol defnyddwyr trafniadaeth yng Nghymru.
- Integreiddio Rheilffyrdd - yn rheoli gweithgareddau rheilffyrdd y sefydliad cyfan. Yn atebol am ddatblygu/darparu'r rheilffyrdd yn barhaus, gyda chefnogaeth sefydliad TrC yn ehangach.

Bwrdd Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyf

Mae Bwrdd Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig yn gyfrifol am yr holl rwymedigaethau sydd wedi'u nodi yn y Cytundeb Grant Gweithredwr Dewis Olaf sy'n ymwneud â masnachfaint rheilffyrdd Cymru a'r Gororau. Fel Swyddog Cyfrifydd TrC, rwy'n cadeirio'r Bwrdd sy'n fy ngalluogi i ddal Rheolwr Gyfarwyddwr Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyf yn atebol. Ac wedyn yn ei dro, mae Bwrdd TrC yn fy nal i gyfrif am berfformiad Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig. Mae aelodau eraill Bwrdd Rheilffyrdd TrC yn cynnwys Rheolwr Gyfarwyddwr a Phrif Swyddog Gweithredol Rheilffyrdd TrC, aelod o Fwrdd TrC/ Cyfarwyddwr Gweithredol, Cyfarwyddwr Gweithredol TrC sy'n gyfrifol am weithrediadau trafniadaeth ac un Cyfarwyddwr Anweithredol annibynnol sydd hefyd yn cadeirio Pwyllgor Diogelwch Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyf.

Bwrdd Gwasanaethau Arloesi TrC Cyf

Mae Bwrdd Gwasanaethau Arloesi Trafnidiaeth Cymru Cyf. yn goruchwyllo'r fenter ar y cyd rhwng TrC, Keolis ac Amey. Mae'r Bwrdd yn goruchwyllo cylch gwaith y cwmni gan gefnogi'r gwaith o ddarparu system drafnidiaeth integredig ar gyfer Cymru a'r Gororau.

Mae'r Bwrdd yn cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Gweithredol TrC ac mae hefyd yn cynnwys tri Chyfarwyddwr Gweithredol arall o TrC, Cyfarwyddwr o Amey a Chyfarwyddwr o Keolis.

Pullman Rail Ltd

Mae Pullman Rail yn gweithredu fel cwmni annibynnol sy'n darparu gwasanaethau o dan ei frand ei hun. Gan weithredu o'i depo yn Nhreganna, Caerdydd, mae Pullman Rail yn darparu arbenigedd technegol ar y rheilffyrdd; uwchraddio cerbydau arbenigol; atgyweirio, adnewyddu a chynnal a chadw pob cerbyd rheilffordd sy'n cludo teithwyr neu nwyddau; ac atebion peirianeg.

Mae'r Bwrdd yn cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Anweithredol TrC ac mae hefyd yn cynnwys dau Gyfarwyddwr Gweithredol arall TrC, uwch reolwr o TrC ac mae Rheolwr Cyffredinol Pullman ac uwch reolwr eraill yn bresennol fel y bo'n briodol.

Mae Bwrdd TrC yn cael diweddariadau ar ôl cyfarfod pob un o'i is-bwyllgorau cwmni.

Fframwaith rheolaeth fewnol

Mae pob corff sy'n cael ei gyllido gan arian cyhoeddus yng Nghymru yn gaeth i reolaethau mewnol ac allanol i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â fframweithiau Llywodraeth Cymru, fel Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. Mae TrC wedi rhoi trefniadau rheoli cadarn ar waith i roi sicrwydd i'r Bwrdd, ei Brif Swyddog Cyfrifyddu ac i Weinidogion Cymru bod arian cyhoeddus ac adnoddau'n cael eu defnyddio'n briodol ac yn effeithlon. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn monitro ac yn gwerthuso effeithiolrwydd systemau rheolaeth fewnol gyda sicrwydd a gafwyd gan ddefnyddio'r model "tair llinell amddiffyn".

Mae ein hamserlen dirprwyo'n nodi gyda phwy mae'r awdurdod yn y cwmni ar gyfer mathau penodol o benderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn enw neu ar ran TrC, a lle mae'r Bwrdd wedi dirprwyo unrhyw benderfyniadau o'r fath i'r Weithrediaeth neu un o is-bwyllgorau'r Bwrdd. Mae'r Amserlen yn nodi pa faterion sydd wedi'u cadw ar gyfer y Bwrdd yn unig, ac mae'n cynnwys awdurdodau gwario a gwneud penderfyniadau corfforaethol. Adolygodd y Bwrdd yr amserlen dirprwyo a gadwyd ar gyfer y Bwrdd ym mis Mehefin a Rhagfyr 2021. Bydd y rhain yn cael eu hadolygu eto ym mis Mehefin a mis Rhagfyr 2022.

Llywodraethu a rheoli ariannol

Mae cynlluniau busnes TrC yn dibynnu ar y gyllideb sy'n cael ei gosod gan Lywodraeth Cymru sy'n cael ei nodi yn y llythyr cyllido blynyddol a'r llythyr cylch gwaith bob pum mlynedd. Mae'r canlyniadau'n cael eu cymharu gyda'r rhagolygon ac yn cael eu hadolygu bob mis i wneud yn siŵr bod gwariant yn cael ei reoli'n unol â chyllidebau sydd wedi'u cymeradwyo ac er mwyn rhoi sicrwydd a chyngor i'r Bwrdd.

Gwrth-dwyll, gwrth-lwgrwobrwyo a chwythu'r chwiban

Mae TrC yn arddel agwedd 'dim goddefgarwch' o ran twyll, llygredigaeth a llwgrwobrwyo. Mae gan TrC bolisiau a gweithdrefnau Gwrth-Dwyll, Llygredd a Gwrth-Lwgrwobrwyo a pholisi a gweithdrefn Chwythu'r Chwiban. Bydd unrhyw achosion yn ymwneud â thwyll neu lygredd yn cael eu harchwilio'n llawn, a bydd camau disgyblu a/neu gamau cyfreithiol yn cael eu cymryd lle bo hynny'n briodol, yn unol â'n polisi. Ni chafwyd gwybod am unrhyw achos o dwyll, llygredigaeth nac o lwgrwobrwyo yn TrC yn ystod 2021-22.

Mae'n ofynnol bod holl staff TrC yn cael hyfforddiant Gwrth-Lwgrwobrwyo a Gwyngalchu Arian. Mae ein polisi a'n trefniadau chwythu'r chwiban wedi'u cynllunio i sicrhau diwylliant o hyder ac amgylchedd diogel pe byddai rhywun yn mynegi unrhyw bryder yn TrC. Ni chafodd unrhyw bryderon eu mynegi drwy ein trefn chwythu'r chwiban yn ystod y flwyddyn. Rydym ni hefyd wedi sefydlu panel chwythu'r chwiban a swyddogion a enwebwyd.

Agored a Thryloyw

Rydym ni wedi ymrwmo i fod yn agored a thryloyw yn y ffordd y mae TrC yn gweithredu fel busnes, ac rydym ni wedi mabwysiadu'r Cynllun Cyhoeddi Enghreifftiol sydd wedi'i lunio a'i gymeradwyo gan y Comisiynydd Gwybodaeth. Mae'r Cynllun yn ymrwmo TrC i wneud gwybodaeth benodol ar gael i'r cyhoedd fel mater o drefn.

Yn ystod 2021-22, cafodd TrC 169 cais am wybodaeth, ac fe gafodd y terfynau amser statudol eu cyrraedd ar gyfer bron pob un o'r ceisiadau hyn.

Rheoli Risg

Mae ein Bwrdd yn gyfrifol am reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweithrediadau TrC. Rydym ni'n cynnal asesiadau rheolaidd o'r risgiau rydym ni'n eu hwynebu. Mae'r prif risgiau'n cael eu cofnodi yn y Gofrestr Risgiau Strategol ac mae'r Bwrdd yn adolygu'r gofrestr hon ym mhob cyfarfod. Mae'r uwch dim gweithredol yn ystyried y Gofrestr Risgiau Strategol a'r Gofrestr Risgiau Gweithredol yn ei gyfarfodydd.

Rydym yn defnyddio cofrestr risgiau i nodi'r risgiau posibl ac yn eu blaenoriaethu yn ôl eu heffaith a'r tebygolrwydd y bydd y risg yn digwydd. Mae camau lliniaru yn cael eu cyflwyno ochr yn ochr â phob risg er mwyn rheoli a lleihau'r risgiau a nodwyd.

Sicrwydd

Mae prif ffynhonnell sicrwydd TrC yn dod o nodi a yw ei amcanion yn cael eu cyflawni a'r risgiau'n cael eu rheoli'n dda. Yn ogystal â threfniadau archwilio mewnol TrC, rydym ni hefyd yn cael sicrwydd drwy adroddiadau misol i'r Bwrdd, is-bwyllgorau'r Bwrdd, y tîm arwain gweithredol, cofrestrau risgiau a gwybodaeth reoli arall. Rydym ni hefyd yn darparu adroddiadau gweithredol ar y prif bwyntiau i Fwrdd Gweithredol a Bwrdd Llywio Lywodraeth Cymru.

Mae TrC hefyd yn destun adolygiadau allanol. Yn ystod y flwyddyn, rhoddais dystiolaeth i Bwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith y Senedd.

Mae ein gweithgareddau archwilio mewnol yn parhau i esblygu a chryfhau. Cymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio a Risg y cynllun archwilio mewnol ar gyfer 2021-22 ym mis Ebrill 2021. Ar ôl ychwanegu Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyf at y Grŵp, cafodd y cynllun ei ymestyn a'i adolygu gan y Pwyllgor Archwilio a Risg ym mis Mehefin 2021 a chafodd Archwilydd Mewnol ychwanegol ei recriwtio i gryfhau'r ddarpariaeth.

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi archwilio llywodraethu ar draws grŵp TrC yn ogystal â seiberddiogelwch, rheoli risg, systemau ariannol a rheoli cyflogres. Rydym hefyd wedi archwilio meysydd arbenigol o reoli grantiau, manteision cymunedol, hawliadau am gyllid Ewropeaidd, rheoli amserlenni a rheoli digwyddiadau iawndal yn Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyf. Cynhaliwyd 30 o archwiliadau yn ystod y flwyddyn ac roedd y rhain yn cynnwys argymhellion ar gyfer gwelliannau parhaus gyda chanfyddiadau'r archwiliad.

Rwyf yn fodlon nad oedd unrhyw wendidau sylweddol yn fframwaith llywodraethu TrC na'n systemau rheoli mewnol ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22. Roedd fframwaith llywodraethu TrC a'n systemau rheoli mewnol yn cefnogi cyflawniad ein polisiau, nodau ac amcanion, yn hwyluso arfer effeithiol o swyddogaethau'r Cwmni, ac yn diogelu arian cyhoeddus ac asedau yr wyf fi, fel y Swyddog Cyfrifyddu, yn gyfrifol amdany'n nhw'n bersonol.

James Price

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

Cafodd yr Adroddiad Blynyddol hwn ei gymeradwyo gan Fwrdd y Cyfarwyddwr ar 29 Mehefin 2022. Mae pob un o'r cyfarwyddwyr a oedd yn ei swydd ar ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol hwn yn cadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol, a gymerwyd yn ei gyfarwydd, hyd eithaf ei wybodaeth, yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar ranndeiliaid i asesu sefyllfa a pherfformiad TrC, ei fodel busnes a'i strategaeth.

Datganiad Cydnerthedd

Mae llawer o'r gweithgareddau y mae TrC yn ymwneud â nhw yn gofyn am bersbectif hirdymor.

Rydym yn cael ein cyllido'n bennaf o'r pwrs cyhoeddus gan grant cylch gwaith a chyllid arall ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu darparu i Lywodraeth Cymru. Mae'r grant cylch gwaith hwn yn cynnwys y cymhorthdal grant ar gyfer gwasanaethau teithwyr rheilffyrdd ledled Cymru a'r Gororau.

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi llythyr cylch gwaith i TrC, a llythyr cyllido ar wahân ar gyfer y gyllideb a ddyrannwyd i gyflawni gweithgareddau penodol ar gyfer y flwyddyn ariannol honno. Ochr yn ochr â hyn, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cyhoeddi cyfarwyddiadau uniongyrchol eraill yn ystod y flwyddyn ar gyfer prosiectau penodol. O ganlyniad i newid mewn amgylchiadau, yn bennaf oherwydd pandemig y coronafeirws, am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022, cadarnhawyd cyllideb TrC gan Lywodraeth Cymru y tu allan i'r llythyr cylch gwaith mewn llythyr cyllido a gyhoeddwyd ym mis Awst 2021.

Fodd bynnag, mae llawer o'r gweithgareddau rydyn ni'n ymwneud â nhw yn gofyn am safbwynt tymor hir, fel cynllunio ar gyfer prosiectau seilwaith, integreiddio system drafndiaeth Cymru yn well, adfywio Llinellau Craidd y Cymoedd, datblygu Metro Gogledd-ddwyrain Cymru a Metro De Cymru a sicrhau dyfodol carbon is.

Rydym wedi bod yn datblygu cynllun corfforaethol tan 31 Mawrth 2026, sy'n nodi ein hamcanion ar gyfer y cyfnod hwnnw a'n hamcangyfrif o'r gofynion cyfalaf a referniw i gyflawni'r cynllun. Bydd y cynllun hwn yn cael ei gytuno a'i gyhoeddi yn y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2023.

Yn unol â hynny, mae ein dadansoddiad o'n cydnerthedd yn y tymor hwy wedi ei seilio ar wybodaeth y cyfarwyddwyr am y gweithgareddau hynny y gofynnwyd i ni gymryd cyfrifoldeb drostynt gan Lywodraeth Cymru, ac nid yw'n rhagweld effaith rhagor o weithgareddau a allai o bosibl effeithio ar ein cydnerthedd yn y tymor byr a chanolig.

Cydnerthedd tymor byr

Mae'r cyfarwyddwyr wedi pennu "tymor byr" at ddibenion y Datganiad Cydnerthedd hwn fel y deuddeg mis ar ôl llofnodi'r datganiadau ariannol: 30 Mehefin 2023. Mae hyn yn cyd-daro â chyfnod asesiad y cyfarwyddwyr bod TrC yn fusnes gweithredol at ddibenion paratoi ein datganiadau ariannol.

Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022, mae'r cymorth ariannol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru wedi dangos ei pharodrwydd i ddarparu cymorth ariannol ar adegau o straen eithriadol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ysgrifennu at ein cyfarwyddwyr yn cadarnhau ei hymrwymiad i gyllido TrC a'i is-gwmnïau am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o ddyddiad llofnodi ein datganiadau ariannol.

Cydnerthedd tymor canolig

Mae polisi Archwilio a Sicrwydd TrC, a ysgrifennwyd ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid, yn cynnwys dau senario posibl i ddangos cadernid TrC:

- isensitifrwydd ariannol i newidiadau yn ymddygiad teithwyr trafndiaeth
- isensitifrwydd ariannol oedi posibl yn rhaglen gwariant cyfalaf ac adfywio TrC.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg wedi dewis dangos effaith ariannol y senario cyntaf drwy ddefnyddio cynnydd neu ostyngiad o 10% yn nifer y teithwyr rheilffyrdd. Mae'r sensitifrwydd hwn yn tybio bod y cymysgedd a'r gwariant cyfartalog fesul teithiwr yn aros yr un fath ac nad yw'r rheolwyr yn cymryd unrhyw gamau i gymell neu osgoi annog galw. Byddai cynnydd neu gwypm o'r fath, nad yw hefyd yn ystyried gorlenwi posibl yn ystod oriau brig os bydd cynnydd mewn niferoedd teithwyr, yn arwain at ofyniad cyllid referniw is neu fwy gan Lywodraeth Cymru o tua £16 miliwn y flwyddyn.

Mewn perthynas â'r ail senario, y mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg wedi dewis ei ddefnyddio ar gyfer Llinellau Craidd y Cymoedd, ac anwybyddu unrhyw oblygiadau referniw, fyddai'n arwain yn bennaf at golli cyllid o Gronfeydd Datblygu Rhanbarthol Ewrop, gan na fyddai gwariant ar ôl y dyddiad terfynol yn gymwys i dderbyn y cyllid hwnnw. Byddai oedi o dri mis i raglen waith Llinellau Craidd y Cymoedd, heb unrhyw weithgarwch yn ystod y cyfnod, a gan dybio na fydd rheolwyr TrC yn cymryd unrhyw gamau lliniaru (senario annhebygol), yn golygu diffyg cyfalaf o £40 miliwn ar y prosiect.

Cydnerthedd tymor hwy

Yn y cyfnod ar ôl -2027, yn ogystal ag effeithiau tymor hwy pandemig y coronafeirws, rydym yn debygol o wynebu nifer o heriau eraill, a fydd yn effeithio ar ein cydnerthedd yn y tymor hwy:

- newid yn yr hinsawdd – bydd y newid i economi carbon is yn cael effaith sylweddol ar TrC, ac mae'r heriau hyn wedi eu nodi yn yr adran ar wahân ar newid yn yr hinsawdd.
- newidiadau posibl i bolisi trafndiaeth Cymru a'r DU yn y dyfodol.

Mae ein dull o adnabod risgiau sy'n dod i'r amlwg, sganio'r gorwel a chydweithio â chyrff trafndiaeth a llywodraeth eraill yn rhoi rhywfaint o hyder i'r cyfarwyddwyr y bydd amser i allu mynd i'r afael â materion o'r fath ymhell ymlaen llaw, yn amodol ar gyllid priodol.





Datganiad Adran 172

Ymgysylltu a gwneud penderfyniadau

Adroddiadau Adran 172(1)

Mae ein cyfarwyddwyr yn rhwym wrth eu dyletswydd i hyrwyddo llwyddiant TrC yn unol ag Adran 172 Deddf Cwmnïau 2006. Mae'r datganiad hwn yn amlinellu'r ffordd y mae'r ddyletswydd hon wedi cael ei chyflawni gan ein cyfarwyddwyr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf er budd ein staff, ein cwsmeriaid, ein rhanddeiliaid a'n perchennog, Llywodraeth Cymru; cyflawni ein rhwymedigaethau fel y nodir yn Adran 17 (a) i (f) Deddf Cwmnïau 2006. Rydyn ni hefyd wedi integreiddio ein gwaith adrodd yng nghynnwys yr adroddiad blynyddol hwn drwyddo draw i ddangos ymhellach y ffyrdd rydyn ni wedi cadw ein staff, ein cwsmeriaid, ein rhanddeiliaid a'n perchennog, Llywodraeth Cymru, wrth galon yr holl benderfyniadau a gweithgareddau allweddol: gweler tudalennau 4 i 61 am ein hadroddiad strategol llawn; tudalennau 12 i 13 ar gyfer ystyriaethau diogelwch pandemig y coronafeirws; a thudalennau 68 i 75 ar gyfer adroddiadau gan y Bwrdd a phwyllgorau'r Bwrdd.

Mae ein Cyfarwyddwyr yn cydnabod nad yw pob penderfyniad a wnânt yn arwain at ganlyniad cadarnhaol i'r holl rhanddeiliaid. Ac eto, drwy roi ystyriaeth ofalus i flaenoriaethau strategol y cwmni ac yn dilyn prosesau gwneud penderfyniadau cadarn, nod ein cyfarwyddwyr yw sicrhau bod eu penderfyniadau yn rhai dibynadwy, teg a chyson.

Ein dull gweithredu

Mae ein Bwrdd yn gyfrifol am arwain y gwaith o ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan sicrhau ein bod yn cyflawni ein rhwymedigaethau i'r rheini y mae ein gwaith yn effeithio arnynt. Mae gwranddo ar ein rhanddeiliaid yn bwysicach nawr nag erioed wrth i ni barhau i wella ar ôl y coronafeirws ac wynebu'r dasg heriol o gydbwysio anghenion a disgwyliadau ein holl rhanddeiliaid wrth i'r cyfyngiadau barhau i lacio a gofynion gweithredol newid.

Rydyn ni'n gweithio'n galed i ymgysylltu ag amrywiaeth o grwpiau cynrychioliadol i sicrhau ein bod yn cael y mewnbwn a'r adborth hollbwysig sydd eu hangen i sicrhau rhwydwaith trafniadaeth gyhoeddus gwirioneddol gynhwysol a hygyrch yng Nghymru. Mae ein panel cynghori yn parhau i gyfarfod bob chwarter ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o grwpiau cwsmeriaid, y llywodraeth, diwydiant a phobl â nodweddion gwarchoddedig. Mae'r panel yn darparu adborth, craffu a chyngor i TrC ar amrywiaeth eang o bynciau a materion i

ddangos ein bod yn gwranddo ac yn derbyn arweiniad yn uniongyrchol gan y grwpiau defnyddwyr a'r cymunedau ar draws ein rhwydwaith Cymru a'r gorau.

Mae ein pedwar fforwm rhanddeiliaid rhanbarthol yn parhau i gyfarfod, gan gwmpasu Gogledd Cymru, Cymru a'r gorau, De Ddwyrain Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru. Mae pob fforwm yn cynnwys awdurdodau lleol, cyrff addysg, partneriaid awdurdodau trafniadaeth rhanbarthol, cyrff gwarchod trafniadaeth, partneriaid busnes a thwristiaeth. Cynhelir pob fforwm bob chwarter a maent yn cael eu cadeirio gan reolwr rhanddeiliaid y rhanbarth, gyda chefnogaeth ein swyddogion ymgysylltu â'r gymuned. Mae'r sesiynau rhyngweithiol hyn wedi'u cynllunio i sicrhau ein bod yn casglu mewnbwn ac adborth lleol sy'n ymwneud â'r holl faterion sy'n ymwneud â thrafnidiaeth gyhoeddus; o newidiadau i'n hamserlen rheilffyrdd i'n cynlluniau ar gyfer mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ar draws y rhwydwaith.

Cyhoeddwyd cynlluniau hefyd i sefydlu Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru, dan arweiniad yr Arglwydd Terry Burns, Cadeirydd Comisiwn Trafnidiaeth presennol De Ddwyrain Cymru. Bydd Comisiwn Gogledd Cymru yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth i wneud argymhellion ar sut i wella cysylltiadau trafniadaeth ar draws cymunedau gwledig, trefol, arfordirol a mewndirol Gogledd Cymru drwy adeiladu system drafnidiaeth ddibynadwy ac integredig a fydd yn diwallu eu hanghenion yn awr ac yn y dyfodol. Bydd TrC yn cefnogi gwaith y Comisiwn, gydag aelodau o'n tîm teithio llesol yn cael eu penodi'n aelodau ymgynghorol.

Mae penderfyniadau strategol allweddol a wneir gan ein Bwrdd yn cael eu gwneud o fewn cyfyngiadau ein hawdurdod dirprwyedig gan Lywodraeth Cymru a'r cylch gwaith penodedig. Cafodd llawer o'r penderfyniadau strategol allweddol a wnaed eleni naill ai eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru neu eu cymeradwyo gan weinidogion. O'r herwydd, roeddent yn destun prosesau gwneud penderfyniadau TrC a Llywodraeth Cymru/Gweinidogion Cymru. Mae gan TrC a Llywodraeth Cymru/Gweinidogion Cymru ddyletswydd statudol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i ystyried y ffordd orau o ddiwallu anghenion cenedlaethau'r dyfodol ac ystyried y tymor hir.

Yn yr adran ganlynol, rydyn ni wedi grwpio ein rhanddeiliaid yn bum categori allweddol ac wedi rhoi trosolwg o'u buddiannau a'r ffyrdd y gweithredodd y Bwrdd mewn perthynas â'r grwpiau hyn wrth wneud ei benderfyniadau strategol allweddol.



Grwpiau Rhanddeiliaid

1. Gweinidogion Cymru a Llywodraeth Cymru

Mae ymgysylltu â Gweinidogion Cymru, drwy Lywodraeth Cymru, yn broses barhaus. Mae Bwrdd Llywio Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth ac arweiniad parhaus ar lefel strategol, gan ddarparu arweinyddiaeth a llywodraethu effeithiol drwy hwyluso trafodaethau strategol am gylich gwaith a chyfeiriad TrC yn y dyfodol, gan graffu a goruchwyllo ar yr un pryd. Mae'r Bwrdd Llywio yn cwrrdd bob mis ac mae cadeirydd TrC, prif weithredwr TrC, uwch swyddogion Llywodraeth Cymru a Chyfarwyddwr anweithredol Llywodraeth Cymru yn bresennol.

Mae penderfyniadau strategol bwysig hefyd yn cael eu gwneud ym Mwrdd Gweithredol Llywodraeth Cymru, sef cyfarfod misol a sefydlwyd i roi sicrwydd i Lywodraeth Cymru ynghylch perfformiad TrC o ran cyflawni ein cylch gwaith. Mae TrC yn parhau â'i gynlluniau tymor hir gyda Llywodraeth Cymru, gyda thrawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd a datblygu cynigion ar gyfer Metro De Cymru, Gogledd Cymru a Metro De-orllewin Cymru yn parhau i fod yn ffocws allweddol, yn ogystal ag ymateb i argymhellion Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru.

Sut mae'r Bwrdd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf

Mae'r Cadeirydd yn rhoi diweddariad ym mhob cyfarfod o Fwrdd TrC yn amlinellu trafodaethau a phenderfyniadau a wnaed yng nghyfarfod blaenorol y Bwrdd Llywio. Mae'r Bwrdd hefyd yn cael diweddariad misol gan ein Prif Weithredwr a fydd yn cynnwys manylion trafodaethau a phenderfyniadau Llywodraeth Cymru.

2. Ein cwsmeriaid

Mae cadw ein cwsmeriaid wrth galon pob penderfyniad a wnawn yn elfen hanfodol o strategaeth ein Bwrdd. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydyn ni wedi gweithio'n galed i gadw ein cwsmeriaid yn ddiogel yn ystod pob cam o'r pandemig, wrth i'r cyfyngiadau dynhau ar rai adegau a llacio ar adegau eraill, gan hyrwyddo mesurau i leihau'r risg o ledaenu'r coronafeirws. Rydym yn parhau i hyrwyddo ein 'Ymgrych Teithio'n Fwy Diogel' a 'Gwiriwr Capasiti' ar-lein, ac yn sicrhau bod y negeseuon diweddaraf yn cael eu hanfon ym mhob un o'n lleoliadau ffisegol. Gan edrych i'r dyfodol, wrth i nifer y teithwyr gynyddu mewn ymateb i lacio'r cyfyngiadau, rydym yn parhau i ddatblygu'r hyn rydym yn ei gynni i gwsmeriaid drwy gynnal arolwg rheolaidd o grwpiau cynghori a chwsmeriaid. Yn ei dro, mae'r wybodaeth werthfawr hon yn sail i weithgarwch allweddol i wella profiad cwsmeriaid.

Sut mae'r Bwrdd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf

Mae pob cyfarfod o'r Bwrdd yn dechrau gyda 'materion diogelwch a chwsmeriaid' i sicrhau bod ein cwsmeriaid yn parhau i fod yn ganolog i bob trafodaeth a phenderfyniad. Mae'r Bwrdd yn cymryd ei gyfrifoldebau o ran diogelwch cwsmeriaid, boddhad cwsmeriaid, cyfathrebu â chwsmeriaid o ddifrif, ac yn enwedig dros y flwyddyn ddiwethaf, sut i annog cwsmeriaid yn ôl i ddefnyddio ein gwasanaethau. Mae'r Bwrdd yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar foddhad cwsmeriaid, ansawdd y gwasanaeth a diweddariadau o waith y Pwyllgor Cwsmeriaid a Chyfarfod.

3. Ein gweithwyr

Mae ein gweithwyr yn ganolog i'n llwyddiant, felly mae'n hanfodol cynnwys eu barn yn briodol wrth i'r Bwrdd wneud penderfyniadau. Mae ein gweithwyr wedi cael eu hannog i ddarparu adborth, awgrymiadau a phryderon drwy ein galwadau bob pythefnos i'r cwmni cyfan. Mae gennym hefyd gynrychiolydd gweithwyr ar y pwyllgor pobl ac arsylwr Undebau Llafur ar ein Bwrdd.

Rydym hefyd wedi datblygu blwch derbyn 'TellUs' lle gall cydweithwyr e-bostio syniadau, adborth, argymhellion ac arolygon pwrpasol i'n galluogi ni i gael dealltwriaeth o les a gweithio gartref, er enghraifft. Rydym hefyd yn annog ein gweithwyr i gymryd rhan mewn fforymau ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a lles gweithwyr.

Sut mae'r Bwrdd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf

Gwahoddir aelodau ein Bwrdd i ymuno a siarad yn ein galwadau i'r cwmni cyfan, ac maent yn gwneud hynny'n aml. Dyma gyfle perffaith i aelodau'r Bwrdd ymgysylltu'n uniongyrchol â'n pobl, ateb cwestiynau a chael adborth ar amrywiaeth o faterion. Mae'r Bwrdd hefyd yn cael diweddariadau rheolaidd gan ein tîm Gweithredol ynghylch materion pwysig sy'n effeithio ar ein pobl fel y gall archwilio atebion, asesu diwylliant ac ymddygiad, mesur llwyddiant cynlluniau pobl a chyflawni ein strategaeth pobl.

4. Ein cymunedau

Mae'r Bwrdd yn parhau i fonitro a gwerthfawrogi'r cysylltiadau rydyn ni wedi'u sefydlu gyda'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu. Rydym yn parhau i gefnogi'r Rhwydwaith Rheilffyrdd Cymunedol i sicrhau bod gan nifer cynyddol o gymunedau ar hyd a lled ein rhwydwaith fynediad at Bartneriaeth Rheilffyrdd Cymunedol leol. Mae'r Rhwydwaith Rheilffyrdd Cymunedol yn ceisio sicrhau bod pob cymuned sydd ar ochr y rheilffyrdd yn manteisio i'r eithaf ar eu rheilffyrdd drwy hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a theithio cynaliadwy, gyda phob partneriaeth leol yn gweithio i gyflawni cynllun gweithgarwch y cytunwyd arno. Mae pob partneriaeth yn cyfarfod bob chwarter i fonitro cynnydd yn erbyn, ac i edrych ar sut gall TrC gefnogi'r gwaith o gyflawni ei gynlluniau gweithgareddau blynyddol yn well.

Rydym hefyd yn parhau i gynnal ein perthynas waith agos gyda'n panel cynghori sy'n cael ei gadeirio'n annibynnol, sy'n cyfarfod bob chwarter. Mae'r panel yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, y Comisiwn Plant a Phobl Ifanc, Sustrans, Stonewall Cymru, Cytûn, y Gymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol a Chyddfederasiwn Cludiant Teithwyr. Mae'r panel yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau allweddol gan TrC ac, yn ei dro, mae'n darparu cyngor, arweiniad a chefnogaeth i'n helpu i gyflawni nodau ac amcanion tymor hir.

Sut mae'r Bwrdd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf

Mae'r Bwrdd yn cael diweddariadau misol ar ffurf adroddiad y Prif Weithredwr, a gyflwynir ar gyfer pob cyfarfod. Mae'r adroddiad yn rhoi manylion ein hymgyssylltiad parhaus â'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu ac yn tynnu sylw at y manau lle gallai ein rhaglen waith neu newidiadau i'n gwasanaethau effeithio ar drigolion. Mae Cadeirydd a Phrif Weithredwr TrC hefyd wedi bod yn ein cyfarfodydd panel ymgynghorol lle maen nhw wedi cael adborth uniongyrchol gan aelodau.

"Rydyn ni'n parhau i ganolbwyntio ar wella ein cadwyn gyflenwi, elfen hanfodol o'n strategaeth gaffael."

5. Cyflenwyr

Mae ein partneriaethau tymor hir â chyflenwyr yn hollbwysig er mwyn darparu ein gwasanaethau a'n prosiectau. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar wella ein cadwyn gyflenwi; elfen hanfodol o'n strategaeth gaffael ac un na ellir ond ei gyrru ymlaen drwy ymgysylltu'n agos â'n cyflenwyr. Mae hyn wedi cael ei wneud drwy amrywio ddulliau strategol a thactegol i sicrhau ein bod yn parhau i ddenu cyfoeth o sefydliadau sy'n rhannu ein gwerthoedd a'n hymrwymiad i'n gwledigaeth.

Er bod y pandemig wedi ein rhwystro rhag cwrrdd yn uniongyrchol â'r farchnad, rydyn ni wedi parhau i ddarparu digwyddiadau rheolaidd ar lwyfan y gadwyn gyflenwi ddigidol, gan sicrhau bod TrC a'n partneriaid cyflenwi yn hygyr i'r gadwyn gyflenwi, gan roi sylw i faterion amserol a hyrwyddo ein llif o gyfleoedd. Mae ein partneriaeth yn parhau gydag Ysgol Cynaliadwyedd y Gadwyn Gyflenwi, gan godi ymwybyddiaeth a helpu i wella sgiliau ein cadwyn gyflenwi ym mhob agwedd ar gynaliadwyedd ac arferion moesegol.

Yn unol â'n hamcanion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, rydym yn parhau i hyrwyddo ein rhaglen Tegwch, Cynhwysiant a Pharch, gyda llysgenhadon hyfforddedig ar draws ein busnes a'n cadwyn gyflenwi i hyrwyddo diwylliant cynhwysol. Mae TrC yn parhau i fod yn aelod o Gynghair Craidd mewn partneriaeth â Balfour Beatty, Siemens Mobility, Alun Griffiths Contractors Ltd ac Amey Infrastructure Wales. Dyfarnwyd achrediad ISO44001 i'r gynghair i gydnabod ei dull o rannu ei hadnoddau, ei phrofiad a'i sgiliau er budd ei chyflenwyr, ei chwsmeriaid a'i phartneriaid. Dyma'r gynghair rheilffyrdd gyntaf yn y byd i sicrhau'r achrediad.

Sut mae'r Bwrdd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf

Mae'r tîm gweithredol yn cael adroddiad rheolaidd ar risgiau'r gadwyn gyflenwi a, lle bo angen, bydd y rhain yn cael eu huwchgwyfeirio i'r Bwrdd, naill ai drwy ystyried adroddiad penodol neu, lle bo hynny'n berthnasol, drwy ystyried ein cofrestr risg. Mae'r Bwrdd yn parhau i ganolbwyntio ar risgiau sy'n ymwneud ag effaith y coronafeirws, ymadawiad y DU o'r UE ar ein cadwyn gyflenwi a'r rhyfel yn Wcrain.

Datganiad datgarboneiddio trafnidiaeth

Mae Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU wedi cynnig llwybr lleihau carbon i gyflawni sero net yng Nghymru. Mae'n cynnig bod angen haneru allyriadau o drafnidiaeth gyhoeddus yn fras rhwng 2020 a 2030.

Byddwn yn cefnogi'r gwaith o sicrhau gostyngiad sylweddol mewn allyriadau nwyon tŷ gwyr o drafnidiaeth yng Nghymru drwy ddarparu gwasanaethau a seilwaith carbon isel a thrwy alluogi newid moddol o geir i drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio. Mae hyn yn unol ag argymhellion Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU a'n hymrwymiad i darged sector cyhoeddus Cymru o sero net erbyn 2030.

Llywodraethu

Mae Bwrdd TrC yn cydnabod newid yn yr hinsawdd fel mater o bwys i'n busnes, yn enwedig yng ngoleuni'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi datgan argyfwng hinsawdd ym mis Ebrill 2019 ac uchelgais Llywodraeth Cymru i leihau allyriadau carbon i sero-net erbyn 2050.

Rydyn ni wedi ymrwymo i sicrhau tryloywder a gweithredu mewn perthynas â risgiau a chyffleodd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Rydym yn cefnogi argymhellion gwirfoddol Tasglu'r Bwrdd Sefydlogrwydd Ariannol ar ddatgeliadau ariannol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.

Mae Pwyllgor Archwilio a Risg TrC yn gyfrifol am sicrhau bod y datgeliad yn yr adroddiad hwn yn cyd-fynd â gofynion datgelu'r Tasglu ar ddatgeliadau ariannol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Mae'r pwyllgor hefyd yn gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o reoli risg sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn effeithiol yn TrC.


Strategaeth

Ar hyn o bryd rydyn ni'n datblygu ein 'cynllun sero net' a fydd yn cael ei gyhoeddi yn nes ymlaen yn 2022. Bydd yn nodi'n fanwl ein strategaeth a'n targedau i ddatgarboneiddio allyriadau o'n hystâd a'n gweithgareddau i gefnogi targed sector cyhoeddus Cymru o sero net erbyn 2030.

Rydym hefyd wedi recriwtio Rheolwr Newid yn yr Hinsawdd yn ddiweddar ac mae gennym gynlluniau ar waith i recriwtio i ddwy swydd newydd: Arweinydd Lleihau Carbon a Chydnherthedd a Swyddog Addasu.

Mae dadansoddiad o'n hól troed carbon yn dangos bod y rhan fwyaf o allyriadau carbon TrC yn deillio o weithgareddau Cwmpas 3 (adeiladu yn bennaf). Y prif weithgarwch allyrru o fewn Cwmpas 1 yw tanwydd disel, a ddefnyddir mewn trenau i deithwyr ledled Cymru. Mae gweddill yr ôl troed carbon yn deillio o weithrediadau a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â gorsafoedd rheilffordd, depos a swyddfeydd.

Allyriadau'r sector trafnidiaeth yng Nghymru yn 2019 (MtCO₂e)



Rheoli risg

Mae adnabod, asesu a rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn cael ei integreiddio'n llawn yn ein proses reoli risg gyffredinol.

Mae'r tîm rheoli hefyd yn sicrhau bod risgiau a chyffleodd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn cael eu gwreiddio'n ddiwylliannol mewn busnes o ddydd i ddydd, a bod ein rhaglen drawsnewid yn eu hystyried ac yn gweithredu arnynt.

Mae ein cynllun addasu a chydnerthedd o ran yr hinsawdd yn manylu ar sut byddwn yn asesu ac yn rheoli'r risg o ran yr hinsawdd ar draws ein rhwydweithiau a'n gweithrediadau.

Addasu a chydnerthedd o ran yr hinsawdd

Rydym yn gweithio'n agos gyda Network Rail sy'n berchen ar y rhan fwyaf o'r asedau rheilffyrdd yng Nghymru. Mae wedi cynnal asesiadau risg ar gyfer y newid yn yr hinsawdd ar y rheilffordd ac, ym mis Rhagfyr, cyhoeddodd adroddiad addasu newydd. Mae ganddo gynllun cydnherthedd tywydd penodol i lwybrau ar gyfer 2019-2024 hefyd.

Daethom yn berchen ar Linellau Craidd y Cymoedd ym mis Mawrth 2020 gydag Amey Infrastructure Wales (AIW) yn gweithredu fel ein partneriaid cyflenwi. Mae AIW yn gyfrifol am gydymffurfio â Safonau Network Rail, sy'n cynnwys datblygu cynlluniau ar gyfer rheoli asedau yn ystod tywydd eithafol (NR/L3/CIV/190).

Fel rhan o'n dyletswyddau rheoli asedau, rydym wedi creu cynllun rheoli asedau strategol. Mae'n tynnu sylw at y weledigaeth strategol ar gyfer rheoli'r asedau, gan gynnwys draenio, strwythurau a gwrthgloddiau. Mae'r Cynllun yn nodi gweledigaeth ar gyfer cyflwr yr asedau ac yn tynnu sylw at weithgareddau allweddol sy'n gysylltiedig â gwella gwybodaeth a chadernid asedau. Yn ogystal, yn unol ag ISO 55001, mae AIW yn cynhyrchu cynlluniau rheoli asedau, sy'n cyd-fynd â'n SAMP a thynnu sylw at weithgareddau allweddol gan gynnwys tywydd garw a sefydlu safleoedd treialu.

Mae ymarfer mapio helaeth wedi cael ei gynnal ar y system gwybodaeth ddaearyddol ffynhonnell agored, sef QGIS, i fapio asedau Llinellau Craidd y Cymoedd a'u risg mewn perthynas â safleoedd llifogydd hysbys gan ddefnyddio data gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer llifogydd afonydd a glawiad.

Mae trafodaethau'n cael eu cynnal ar hyn o bryd rhwng TrC a sefydliadau eraill, fel Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru, ynghylch cydweithio. Mae hyn yn cynnwys sefydlu memorandwm cyd-ddealltwriaeth i wella dealltwriaeth o asedau a hyrwyddo dull gweithredu ar y cyd ar gyfer deall a gweithredu gwytnwch. Bydd hwn yn nodi'r camau

arfaethedig y byddwn yn eu cymryd i sicrhau bod ein rhwydwaith a'n gweithrediadau'n gallu gwrthsefyll y digwyddiadau tywydd eithafol y mae Cymru'n debygol o'i brofi wrth i'r hinsawdd newid yn ystod y ganrif hon.


Yn unol ag arferion gorau, mae'r cynllun wedi cael ei ddatblygu yn unol ag amcanestyniadau diweddaraf Canolfan Hadley y Swyddfa Dywydd yn y DU ar newid yn yr hinsawdd (UKCP18). Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd yn cynghori y dylai Trafnidiaeth Cymru "baratoi ar gyfer cynhesu o 2°C ac asesu'r risgiau ar gyfer 4°C". O'r herwydd, rydym yn defnyddio amcanestyniadau UKCP18 (ar gyfer tymheredd a glawiad) sy'n cyfateb yn fras i senario sy'n ymwneud â chynhesu 2°C a 4°C. Fodd bynnag, oherwydd ansicrwydd wrth i'r gorchudd rheu ymateb i dymheredd cynyddol, rydyn ni'n defnyddio senario cynhesu 4°C + ar gyfer codiad yn lefel y môr. Mae pob rhagamcan yn berthnasol i ranbarth Caerdydd (Bae Caerdydd mewn perthynas â lefel y môr yn codi) ac maent yn erbyn gwaelodlin 1981-2000.

Bydd astudiaeth ddesg o'r risg hinsawdd yn cael ei chynnal yn unol â'r amcanestyniadau uchod ar gyfer ardal Llinellau Craidd y Cymoedd. Bydd asesiadau risg pellach yn cael eu cynnal yn y maes i ganfod risgiau sy'n debygol o godi yn ystod y tymor agos (2021-2040) a'r tymor canolig-hir (2040-2100) mewn rhannau o'r rhwydwaith sy'n agored i dywydd eithafol ar hyn o bryd. Byddwn yn datblygu strategaethau cadarn i sicrhau bod rhwydwaith Llinellau Craidd y Cymoedd yn addas ar gyfer yr hinsawdd yn ystod y cyfnodau hyn.

Rheoli llystyfiant

Rydyn ni'n rheoli llystyfiant ar ochr y rheilffyrdd ar draws Llinellau Craidd y Cymoedd er mwyn lleihau effaith tymor yr hydref (a thymhorau eraill yn gynyddol) ar ein gwasanaethau gan fod dail a choed sy'n marw yn gallu disgyn ar draws cledrau ac ar drenau. Mae hyn yn effeithio'n ddifrifol ar y gwasanaethau a ddarparwn.

Cyfanswm nifer y digwyddiadau tywydd fesul chwarter (2021/22)



Metrigau a thargedau

Dyma'r prif fetrigau rydyn ni'n eu defnyddio i asesu a rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd:

- allyriadau CO₂e uniongyrchol Cwmpas 1: o weithgareddau sy'n ymwneud â'n gweithrediadau a'n gweithgareddau fel tanwydd trên, oeri ac aerdymheru
- allyriadau CO₂e anuniongyrchol (wedi'i berchnogi) Cwmpas 2: allyriadau anuniongyrchol fel cynhyrchu ynni wedi'i brynu, gan ddarparu'r cyfleustodau
- allyriadau CO₂e anuniongyrchol (na pherchnogi) Cwmpas 3: yn cynnwys allyriadau o weithgareddau fel gwastraff, dŵr, cymudo, adeiladu a chaffael.

Mae gennym y targedau canlynol

- Allyriadau Cwmpas 1 (Tyniant) CVL 100% o ostyngiad erbyn diwedd 2023
- Allyriadau Cwmpas 1 (Tyniant) WCB 30% o ostyngiad erbyn diwedd 2023
- Allyriadau Cwmpas 2 100% o ostyngiad erbyn diwedd 2023

Camau gweithredu i leihau ein hallyriadau

- ✓ Bydd ein fflyd newydd o drenau, a fydd yn dechrau rhedeg ar ein rhwydwaith o 2022 ymlaen, yn defnyddio tanwydd yn fwy effeithlon, ac yn defnyddio cymysgedd o ddisel, batri a thrydan.
- ✓ Mae 15,600 kWh o drydan adnewyddadwy dim allyriadau yn cael ei gynhyrchu gan ein paneli solar bob blwyddyn. Rydyn ni'n defnyddio'r ynni hwn yn uniongyrchol ac rydyn ni'n bwriadu dyblu arwynebedd y paneli erbyn diwedd 2022.
- ✓ Mae ein pencadlys ym Mhontypridd yn defnyddio system casglu dŵr glaw sy'n dal hyd at 45,000 litr, gan leihau ein galw am gyflenwadau dŵr a lleihau ein hallyriadau Cwmpas 3.
- ✓ Rydyn ni wedi ymrwymo i fabwysiadu dull gweithredu sy'n rhoi byd-natur yn gyntaf wrth ymgorffori cadernid o ran newid yn yr hinsawdd yn ein rhwydwaith. Byddwn yn ceisio defnyddio atebion sy'n seiliedig ar natur yn ein cynllun addasu ar gyfer newid yn yr hinsawdd.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar ein [hadroddiad allyriadau carbon](#).

Cynnydd o ran targedau

Yn 2022 roeddem wedi cyhoeddi ein hallyriadau sylfaenol yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru ar Adrodd ar Sero Net yn y Sector Cyhoeddus.

Yn dilyn yr asesiad hwn o'n hallyriadau, dangoswyd mai ein cadwyn gyflenwi yw'r gweithgaredd sy'n allyrru fwyaf. Wrth i ni fwrw ymlaen â'n rhaglen drawsnewid, bydd allyriadau ein cadwyn gyflenwi yn parhau i fod yn uchel.

Fodd bynnag, er bod allyriadau ein cadwyn gyflenwi yn uchel ar hyn o bryd, bydd y buddsoddiad mewn creu system drafnidiaeth gynaliadwy integredig, aml-foddol yn darparu gostyngiad hirdymor mewn allyriadau yn sector trafndiaeth Cymru. Byddwn yn parhau i archwilio cyfleoedd i leihau allyriadau o'n cadwyn gyflenwi, er mwyn sicrhau bod ein holl allyriadau'n cael eu cyfrif a'u lleihau'n briodol cymaint ag sy'n rhesymol ymarferol.

Ar ôl dadansoddi allyriadau ein cadwyn gyflenwi, y tri chategori lle gwelwyd yr allyriadau mwyaf yn 2021/22 oedd:

- adeiladu (255,858 tCO₂e)
- trafndiaeth rheilffyrdd (gwasanaethau) (209,686 tCO₂e)
- gwasanaethau pensaernïol a pheirianeg; gwasanaethau dadansoddi a phrofi technegol (24,454 tCO₂e)

“Bydd creu system drafnidiaeth gynaliadwy integredig, aml-foddol yn arwain at ostyngiad tymor hir mewn allyriadau yn sector trafndiaeth Cymru.”

Allyriadau Cwmpas 1, 2 a 3

Gweithgarwch allyrru	allyriadau 2021/22 tCO ₂ e
Cwmpas 1 (Allyriadau uniongyrchol)	
Nwy	584
Tanwydd	84,571
Cwmpas 2 (allyriadau anuniongyrchol o ynni sy'n cael ei gyflenwi drwy'r grid)	
Trydan	2,736
Cwmpas 3 (allyriadau anuniongyrchol eraill)	
Colledion ymhellach i fyny'r gadwyn - nwy	100
Colledion ymhellach i fyny'r gadwyn - tanwydd	19,393
Gwastraff ac ailgylchu	19
Cyflenwad dŵr	12
Trin dŵr	21
Cadwyn gyflenwi	196,879
Colledion ymhellach i fyny'r gadwyn - trydan	1,018
Cynhyrchu ynni adnewyddadwy	0
Milltiroedd busnes	25
Colledion ymhellach i fyny'r gadwyn - milltiroedd busnes	7
Milltiroedd cymudo	144
Colledion ymhellach i fyny'r gadwyn - milltiroedd cymudo	40
Allyriadau defnyddio tir	
Allyriadau net o asedau tir TrC	-702
Cyfanswm allyriadau 2021/22	304,846

O dan Ganllaw Sector Cyhoeddus Cymru ar gyfer Adrodd ar Garbon Sero-Net, fe wnaethom baratoi ein hadroddiad allyriadau carbon corfforaethol ar gyfer 2020/21 ac amcangyfrifwn mai cyfanswm ein hól troed fydd 242,756 tCO₂e (Diwygiwyd Mai 2022)*.

Mae asesiad o'n hallyriadau corfforaethol yn dangos mai cyfanswm ein hól troed ar gyfer 2021/22 oedd 304,846 tCO₂e. Mae hyn yn gynnydd cyffredinol o 26% o'i gymharu â 2020/21, sy'n cyfateb i 62,090 tCO₂e Priodolir hyn i gynnydd yn ein darpariaeth gwasanaeth ar ôl codi cyfyngiadau'r coronafeirws, yn ogystal â mwy o wariant wrth i ni symud ymlaen i drawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd.

Mae allyriadau Cwmpas 1 wedi cynyddu 32%, sy'n ganlyniad yn bennaf i gynnydd yn ein gwasanaethau. Dim ond ychydig o gynnydd rydym wedi'i wneud yn ein defnydd o drydan, sydd wedi arwain at gynnydd o 3% yn allyriadau Cwmpas 2 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae allyriadau Cwmpas 3 wedi codi 23% a gellir ei briodoli i gynnydd mewn gwariant a chynnwys yr asesiad o allyriadau teithio busnes a chymudo – sy'n absennol o adroddiad y llynedd oherwydd nad oes yna unrhyw ddata gweithgarwch sylfaenol. Ein cadwyn gyflenwi yw ein prif weithgaredd sy'n allyrru o hyd, sy'n cyfrif am 196,879 tCO₂e – cynnydd o 22% o'i gymharu â 2020/21.

*Yn dilyn newidiadau i fethodoleg adrodd, cafodd adroddiad carbon 2020/21 ei ddiwygio o'r adroddiad gwreiddiol i Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2021.

Risgiau a chyfleoedd

Risg	Cyfle
Tymor byr (1-2 flynedd)	Tymor byr (1-2 flynedd)
Gallai newid mewn ymddygiad teithio o ganlyniad i bandemig y coronafeirws effeithio ar gyfleoedd i newid moddol.	Byddwn wedi cynyddu'r cyfrifoldeb ar gyfer cerbydau trydan, bysiau a thacsis dim allyriant pibell, a theithio llesol a allai leihau ôl-troed pobl Cymru.
Tymor canolig (2-5 mlynedd)	Tymor canolig (2-5 mlynedd)
Cynnydd yn nifer yr achosion o ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â thywydd eithafol sy'n deillio o newid yn yr hinsawdd.	Gallai gwell gwasanaethau trafniadaeth gyhoeddus a mwy o fynediad at wefru cerbydau trydan arwain at newid moddol sylweddol.
Gallai oedi wrth gwblhau Metro De Cymru effeithio ar ein targedau lleihau carbon.	Gallai cwblhau Metro De Cymru arwain at fwy o newid moddol.
Cynnydd yn nifer yr achosion o ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â llifogydd sy'n deillio o newid yn yr hinsawdd.	Gwelwn gyfleoedd cynyddol, ar y cyd â phartneriaid, i ddatblygu ein dulliau adnewyddadwy ein hunain, megis solar ffilm denau ac ynni adnewyddadwy ar ochr y trac a hefyd i leihau ein defnydd o ynni drwy, er enghraifft, y defnydd cynyddol o oleuadau LED. Bydd y mesurau hyn yn lleihau ein dibyniaeth ar y grid cenedlaethol ac felly'n ein gwneud yn fwy gwydn yn erbyn digwyddiadau tywydd difrifol.
	Byddwn yn cyflawni'r camau gweithredu a nodir yn ein Cynllun Addasu a Chydnerthedd Hinsawdd.
Tymor hwy (dros 5 mlynedd)	Tymor hwy (dros 5 mlynedd)
Gorlifo'n barhaol ar y cledrau a achosir gan lefel y môr yn codi.	Gallai cwblhau Metro Gogledd a De Cymru arwain at fwy o gynnydd arwyddocaol mewn newid moddol.



Adroddiad taliadau

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi manylion am dâl aelodau'r Bwrdd.
Mae'n cynnwys cyflogau a hawliau pensiwn.

Cyfanswm tâl unigol

Cyfarwyddwr	Cylog 2021-22	Cylog 2020-21	Buddion pensiwn 2021-22	Buddion pensiwn 2020-21	Cyfanswm 2021-22	Cyfanswm 2020-21
James Price Prif Swyddog Gweithredol (wedi'i secondio o Lywodraeth Cymru)	160-165	160-165	30 - 35	70-75	190 - 195	235-240
Heather Clash Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid	130-135	125-130	10-15	10-15	140-145	135-140
Scott Waddington Cyfarwyddwr Anweithredol - Cadeirydd	30-35	35-40	-	-	30-35	35-40
Sarah Howells Cyfarwyddwr Anweithredol	20-25	5-10	-	-	20-25	5-10
Nicola Kemmery Cyfarwyddwr Anweithredol	20-25	5-10	-	-	20-25	5-10
Alison Noon-Jones Cyfarwyddwr Anweithredol	20-25	5-10	-	-	20-25	5-10
Alun Bowen Cyfarwyddwr Anweithredol	20-25	5-10	-	-	20-25	5-10
Vernon Everitt Cyfarwyddwr anweithredol o fis Medi 2019	20-25	5-10	-	-	20-25	5-10

Manylion pensiwn

Cyfarwyddwr	Pensiwn buddion diffiniedig cronedig ar oedran pensiwn ar 31/03/22 £000	Gwir gynnydd mewn pensiwn a chyfundaliad cysylltiedig ar oedran pensiwn £000	CETV ar 31/03/22 £000	CETV ar 31/03/21 £000	Gwir gynnydd yn y CETV £000	Cyfraniad at gynllun cyfraniadau diffiniedig £000
James Price Prif Swyddog Gweithredol (wedi'i secondio o Lywodraeth Cymru)	70-75	0-2.5	993	931	6	-
Heather Clash Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol	-	-	-	-	-	10-15

Cyflog

Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros a goramser. Ni chafodd buddion o fath arall eu talu gan TrC.

Pensiynau

Mae James Price, fel un o weithwyr Llywodraeth Cymru, yn aelod o Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (CSPS). Mae'r ffigur Buddion Pensiwn ar gyfer y CSPS yn cynrychioli gwerth oes buddion pensiwn a gronwyd yn ystod y flwyddyn a gyfrifwyd gan (y gwir gynnydd mewn pensiwn wedi'i luosi ag 20) a (y gwir gynnydd mewn unrhyw gyfundaliad) llai (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Effeithir arno gan effaith chwyddiant a all arwain at amrywiadau sylweddol rhwng blynyddoedd.

Mae gweithwyr TrC yn aelodau o gynllun pensiwn cyfrannol diffiniedig. Mae ffigur y buddion pensiwn ar gyfer y cynllun hwn yn cynrychioli cyfraniad y cyflogwr o 8%. Nid yw cyfarwyddwyr anweithredol yn aelodau o gynllun pensiwn cyflogwyr TrC.

Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod

Gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod (CETV) yw gwerth cyfalafol a aseswyd gan actiwari o fuddion y cynllun pensiwn a gronwyd gan aelod ar adeg benodol. Y buddion a brisiwyd yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol i briod sy'n daladwy o'r cynllun. Taliad a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall yw CETV pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronwyd yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i gyfanswm aelodaeth y cynllun pensiwn, nid dim ond eu gwasanaeth mewn swydd uwch y mae datgeliad yn berthnasol iddi.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronwyd i'r aelod o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar eu cost eu hunain. Cyfrifir CETV yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo)(Diwygio) 2008 ac nid ydyn nhw'n ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl mewn buddion sy'n deillio o Dreth Lwfans Oes a all fod yn ddyledus pan gymerir buddion pensiwn.

Gwir gynnydd mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a delir gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau priso'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Datgeliadau Cyflog Teg

Cyfrifir y Datgeliadau Cyflog Teg canlynol fel sy'n ofynnol gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) y Llywodraeth Trysorlys EM. Mae cyfanswm y tâl a ddefnyddir yn y cyfrifiadau yn cynnwys cyflog ac nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn cyflogwr.

Tâl band y cyfarwyddwr a oedd yn cael y tâl uchaf yn TrC yn ystod y flwyddyn ariannol 2021-22 oedd £160-165,000 (2020-21: £160-165,000). Ni chafodd unrhyw weithiwr dâl a oedd yn fwy na thâl y cyfarwyddwr a oedd yn cael y tâl uchaf.

Mae'r gymhareb tâl rhwng tâl y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf a chyflog a buddion y gweithiwr ar wahanol ganraddau cyflog a buddion cyflogion y grŵp ar 31 Mawrth wedi'u nodi isod:

	2020-21		2021-22	
	Cyflog a buddion	Cymhareb	Cyflog a buddion	Cymhareb
25ain Canradd	£32,848	5.0 gwaith	£33,153	4.9 gwaith
50fed Canradd (Canolrif)	£43,622	3.7 gwaith	£43,231	3.8 gwaith
75ain Canradd	£55,825	2.9 gwaith	£56,591	2.9 gwaith

Mae datgeliadau 2020-21 wedi cael eu haildatgan o'r adroddiadau yn Adroddiad Blynyddol 2020-21 i ymgorffori cyflog a buddion i weithwyr ar draws Grŵp cyfan TrC (h.y. Trafnidiaeth Cymru a Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig ym mis Mawrth 2021; Trafnidiaeth Cymru, Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig a Pullman Rail Limited ym mis Mawrth 2022). Mae'r symudiad o un flwyddyn i'r llall yn y cymarebau yn deillio o'r newid yng nghyfansoddiad y Grŵp (e.e. cyflwyno Pullman Rail).

Roedd cyflogau sylfaenol blynyddol y Grŵp yn amrywio o £16,800 i £160-165,000 (2020-21: £15,756 i £160-£165,000).

Mae cyflog a lwfansau'r cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf ar gyfer 2021-22 yr un fath â'r rheini ar gyfer 2020-21. Y newid cyfartalog ers y flwyddyn ariannol flaenorol o ran cyflog a lwfansau ar gyfer holl weithwyr y Grŵp (a gyfrifir drwy rannu cyfanswm y cyflogau blynyddol yn ôl nifer y gweithwyr cyfwerth ag amser llawn) yw 1.5%. Nid yw'r cyfrifiad hwn yn cynnwys gweithwyr Pullman Rail Limited gan nad oedd Pullman Rail Limited yn rhan o'r Grŵp yn ystod 2020-21.

Er bod codiadau cyflog yng Ngrŵp TrC yn adlewyrchu perfformiad unigolion, ychydig iawn o gyflog a bonysau perfformiad penodol sy'n uwch na chyflogau sylfaenol sy'n cael eu talu ar draws Grŵp TrC i rai grwpiau o weithwyr (ee comisiwn ar gyfer staff rheng flaen). Cyfanswm y cyflog cysylltiedig â pherfformiad a dalwyd ar draws y Grŵp yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben yn 2021/22 oedd £151,443, sydd, o'i ddefnyddio fel cyfartaledd ar draws yr holl weithwyr yn unol â gofynion cyfrifo FReM, wedi gostwng 64% o'i gymharu â 2020/21. Mae'r gostyngiad mewn cyfartaledd yn bennaf o ganlyniad i lai o gomisiwn oherwydd pandemig y coronafeirws (mae comisiwn archwilwyr tocynnau yn cael ei dalu ddwywaith y flwyddyn fel ôl-ddyledion chwe mis, felly roedd y comisiwn a dalwyd yn 2020/21 yn ymwneud â chyfnod y pandemig cyn-coronafeirws yn bennaf rhwng mis Hydref 2019 a mis Mawrth 2020). Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o weithwyr yn gymwys i gael cyflog perfformiad ac felly nid yw'r cyfrifiad hwn yn berthnasol iawn i Grŵp TrC.



Adroddiad y cyfarwyddwyr

Mae ein Cyfarwyddwyr yn cyflwyno'u hadroddiad ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022.

Cyfarwyddwyr

Dyma'r Cyfarwyddwyr a oedd dal mewn swydd yn ystod y flwyddyn hyd at ddyddiad yr adroddiad hwn:

Enw	Rôl
J S Waddington	Cadeirydd/Cyfarwyddwr Anweithredol
S Howells	Cyfarwyddwr Anweithredol
N J Kemmery	Cyfarwyddwr Anweithredol
A J Noon-Jones	Cyfarwyddwr Anweithredol
D A Bowen	Cyfarwyddwr Anweithredol
V J Everitt	Cyfarwyddwr Anweithredol
J R Price	Cyfarwyddwr Gweithredol
H J Clash	Cyfarwyddwr Gweithredol

Does dim penodiadau nac ymddiswyddiadau wedi bod yn 2021-22.

Offerynnau ariannol

Hylifedd a risg llif arian

Rydym yn monitro ein cyfalaf gweithio'n rheolaidd i wneud yn siŵr bod digon o arian wedi cael ei dynnu i lawr o Lywodraeth Cymru ar gyfer ein rhwymedigaethau pan fyddan nhw'n ddyledus.

Mae'r Grŵp wedi ymrwymo i gynllun ymddiogelu prisiau tanwydd rhwng mis Chwefror 2021 a mis Mawrth 2023. Mae'r cynllun hwn yn lliniaru'r effaith o ganlyniad i amrywiadau ym mhris tanwydd a fyddai'n achosi ansicrwydd ym mherfformiad ariannol y busnes.

Risg credyd

Nid ydym yn wynebu risg sylweddol o ran credyd gan fod y rhan fwyaf o weithgarwch y Grŵp naill ai'n cael ei ariannu drwy grantiau Llywodraeth Cymru a dderbynnir ymlaen llaw, drwy fasnachu â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus neu drwy werthu arian parod i'r cyhoedd. Caiff ein risg credyd ei fonitro'n rheolaidd.

Difidend arfaethedig

Nid yw'r cyfarwyddwyr yn argymhell talu difidend. Bydd ein gwarged wrth gefn yn cael ei ddefnyddio i ariannu ein gweithgareddau yn y dyfodol.

Gweithwyr

Ceir gwybodaeth am amrywiaeth a chynhwysiant ar dudalennau 48 i 57 ac yn adroddiad y pwyllgor pobl ar dudalen 73. Mae rhagor o wybodaeth am ymgysylltu â gweithwyr ar gael yn y datganiad Adran 172 ar dudalen 84.

Ymgysylltu â chyflenwyr, cwsmeriaid ac eraill mewn perthynas fusnes â'r Cwmni

Mae gwybodaeth am sut rydym yn ymgysylltu â'n chyflenwyr, ein cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill wedi'i chynnwys yn ein datganiad Adran 172 ar dudalen 84. Ein nod yw talu ein holl gyflenwyr cyn gynted ag y caiff y gwariant ei gymeradwyo gan gydymffurfio â Chod Talu'n Brydlon y Llywodraeth.

Adroddiadau ynni a charbon

Mae gwybodaeth am ein defnydd o ynni a'n camau gweithredu wedi'u cynnwys yn yr adroddiad datgarboneiddio ar dudalen **.

Cyfraniadau gwleidyddol

Fel is-gwmni dan berchnogaeth Iwyr Llywodraeth Cymru, nid oes gan TrC yr hawl i gymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau gwleidyddol, ac oherwydd hynny nid ydym wedi rhoi unrhyw roddion gwleidyddol na derbyn unrhyw wariant gwleidyddol yn ystod y flwyddyn.

Y drefn ar gyfer chwythu'r chwiban

Rydym wedi ymrwymo i wneud yn siŵr ei fod yn cyrraedd safonau uchel, ac yn cadw'r safonau hynny, o ran ymddygiad yn y gwaith, gwasanaeth i'r cyhoedd, a'i holl arferion gwaith. Disgwylir i'n gweithwyr ymddwyn yn gywir, yn ddiuedd ac yn onest ac rydym yn ceisio datblygu diwylliant lle rydym yn herio ymddygiad annerbyniol ar bob lefel. Er mwyn sicrhau hyn, rydym annog pawb i roi gwybod am bryderon gwirioneddol am gamymarfer, gweithredoedd anghyfreithlon, neu achosion o fethu cydymffurfio â safonau gwaith cydnabyddedig, heb ofni y bydd neb yn gwneud cam â hwy nac yn eu cosbi am wneud hynny.

Darparu gwybodaeth i'r archwilydd

Mae'r Cyfarwyddwyr a oedd yn y swydd ar ddyddiad cymeradwyo adroddiad y cyfarwyddwyr yn cadarnhau, hyd y gŵyr pob un ohonynt, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilydd TrC gwybod amdani; ac mae pob cyfarwyddwr wedi cymryd pob cam y dylai fod wedi'i gymryd fel cyfarwyddwr i gael gwybod am unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod ein harchwilydd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Archwilydd

Yn unol ag Adran 487 o Ddeddf Cwmnïau 2006, ystyrir y bydd yr archwilydd yn cael ei ail-benodi, ac felly bydd KPMG LLP yn parhau yn y swydd.

Trwy orchymyn y Bwrdd

James Price

Cyfarwyddwr/Prif Weithredwr

3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH
29 Mehefin 2022

Datganiad o gyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr mewn perthynas â'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol

Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol a datganiadau ariannol y grŵp a'r rhiant-gwmni yn unol â'r gyfraith a'r rheoliadau berthnasol.

Yn ôl y gyfraith cwmnïau, mae'n rhaid i'n Cyfarwyddwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer y Grŵp a'r rhiant-gwmni am bob blwyddyn ariannol. O dan y gyfraith honno, maent wedi dewis paratoi datganiadau ariannol y grŵp yn ôl safonau cyfrifyddu rhyngwladol yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 a'r gyfraith berthnasol. Maent wedi dewis paratoi datganiadau ariannol y rhiant-gwmni yn unol â safonau cyfrifyddu'r DU a'r gyfraith berthnasol (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU), gan gynnwys Fframwaith Datgelu Llai FRS 101.

O dan y gyfraith cwmnïau, ni chaiff ein Cyfarwyddwyr gymeradwyo'r datganiadau ariannol oni bai eu bod yn fodlon bod y datganiadau'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Grŵp a'r rhiant-gwmni yn ogystal â sefyllfa elw a cholled y cwmni ar gyfer y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi pob un o ddatganiadau ariannol y Grŵp a'r rhiant-gwmni, mae'n ofynnol i'r Cyfarwyddwyr:

- dewis polisiau cyfrifyddu addas, a'u rhoi ar waith mewn ffordd gyson;
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol, yn berthnasol, yn ddibynadwy ac yn graff;
- ar gyfer datganiadau ariannol y Grŵp, datgan a ydynt wedi cael eu paratoi yn ôl safonau cyfrifyddu rhyngwladol yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006;
- ar gyfer datganiadau ariannol y rhiant-gwmni, datgan a yw'r safonau cyfrifyddu perthnasol yn y Deyrnas Unedig wedi cael eu dilyn, yn amodol ar ddatgelu ac esbonio unrhyw wyriadau o bwys yn y datganiadau ariannol;
- asesu gallu'r Grŵp a'r rhiant-gwmni i barhau fel busnes gweithredol a datgelu, fel y bo'n berthnasol, unrhyw faterion sy'n gysylltiedig â bod yn fusnes gweithredol; a
- defnyddio sail busnes gweithredol ar gyfer cyfrifyddu, oni bai eu bod naill ai'n bwriadu diddymu'r grŵp neu'r rhiant-gwmni neu roi'r gorau i weithredu, neu os nad oes ganddyn nhw unrhyw ddewis realistig arall heblaw am hynny.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n ddigon i ddangos ac egluro trafodiadau'r rhiant-gwmni a datgelu sefyllfa ariannol y rhiant-gwmni yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg, ac i'w galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Maent yn gyfrifol am y rheolaeth fewnol sy'n angenrheidiol yn eu barn nhw er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sydd ddim yn cynnwys unrhyw gamddatganiadau o bwys, boed y rheini wedi'u gwneud drwy dwyll neu gamgymeriad. Mae ganddynt gyfrifoldeb cyffredinol hefyd i gymryd camau o'r fath sydd, o fewn rheswm, ar gael iddynt er mwyn diogelu asedau'r grŵp a rhwystro ac adnabod twyll ac achosion eraill o afreoleidd-dra.

Y cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am gynnal a chadw'r wybodaeth ariannol a'r wybodaeth gorfforaethol sydd ar [wefan](#) y cwmni, ac am gywirdeb y wybodaeth honno. Gall deddfwriaeth yn y DU sy'n gysylltiedig â pharatoi a dosbarthu'r datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.



Datganiadau ariannol

104	Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol	108	Datganiad incwm cyfunol	109	Datganiad cyfun o'r sefyllfa ariannol	110	Datganiad cyfun o newidiadau mewn incwm
111	Datganiad cyfun o lloedd arian	112	Datganiad sefyllfa ariannol y cwmni	113	Datganiad Cwmni am Newidiadau mewn Ecwiti	114	Nodiadau

Adroddiad yr archwilydd annibynnol i aelodau Trafnidiaeth Cymru

Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Trafnidiaeth Cymru ("y cwmni") ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 sy'n cynnwys y Datganiad Incwm Cyfunol, y Datganiad Cyfunol o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Cyfunol o Lif Arian, Datganiad Sefyllfa Ariannol y Cwmni, Datganiad Newidiadau mewn Ecwiti a nodiadau cysylltiedig y Cwmni, gan gynnwys y polisiau cyfrifyddu yn nodyn 1.

Yn ein barn ni:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r grŵp a'r rhiant-gwmni ar 31 Mawrth 2022 ac o golled y grŵp am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- mae datganiadau ariannol y grŵp wedi cael eu paratoi'n gywir yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol a gofynion Deddf Cwmnïau 2006
- mae datganiadau ariannol y rhiant-gwmni wedi cael eu paratoi'n gywir yn unol â safonau cyfrifyddu'r DU, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 101 - Fframwaith Datgelu Llai ; a
- mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

Sail ein barn

Rydym wedi cynnal ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) ("ISAs (UK)") a'r gyfraith berthnasol. Mae ein cyfrifoldebau yn cael eu disgrifio isod. Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol o dan ofynion moesegol y DU – gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol – ac rydym yn annibynnol ar y grŵp yn unol â hynny. Rydym o'r farn bod y dystiolaeth archwilio rydym ni wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol er mwyn rhoi sail i'n barn.

Busnes gweithredol

Mae'r cyfarwyddwyr wedi paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol gan nad ydynt yn bwriadu diddymu'r grŵp na'r cwmni na dirwyn eu gweithrediadau i ben, a gan eu bod wedi dod i'r casgliad bod hyn yn realistig wrth ystyried sefyllfa ariannol y grŵp a'r cwmni. Maent hefyd wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw ansicrwydd o bwys a allai fwrw amheuaeth sylweddol dros eu gallu i barhau fel busnes gweithredol am flwyddyn o leiaf, o'r dyddiad y cafodd y datganiadau ariannol eu cymeradwyo ("cyfnod busnes gweithredol").

Rydym wedi defnyddio ein gwybodaeth am y Grŵp, ei ddiwydiant, a'r amgylchedd economaidd cyffredinol i ganfod risgiau i'w fodel busnes ac wedi dadansoddi sut gallai'r risgiau hynny effeithio ar adnoddau ariannol y grŵp a'r cwmni neu ar eu gallu i barhau i weithredu yn ystod y cyfnod busnes gweithredol. Yn ein barn ni, y risgiau a oedd yn fwyaf tebygol o gael effaith niweidiol ar adnoddau ariannol y Grŵp a'r Cwmni dros y cyfnod hwn oedd argaeledd cyllid gan Lywodraeth Cymru yn unol â chylch gwaith y Grŵp.

Buom yn ystyried p'un ai y gallai'r risg hon effeithio'n ddifrifol ar hylifedd yn y cyfnod busnes gweithredol drwy gymharu senarios difrifol, ond credadwy, a allai godi o'r risgiau hyn yn unigol ac ar y cyd â lefel yr adnoddau ariannol sydd ar gael yn ôl rhagolygon ariannol y Grŵp.

Rydym wedi asesu cyflawnder y datgeliad busnes gweithredol.

Mae ein casgliadau yn seiliedig ar y gwaith hwn:

- rydym yn credu bod defnydd y cyfarwyddwyr o'r dull cyfrifyddu ar sail busnes gweithredol i baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol;
- nid ydym wedi canfod, ac rydym yn cytuno ag asesiad y cyfarwyddwyr nad oes, ansicrwydd materol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r grŵp neu'r cwmni i barhau fel busnes gweithredol yn ystod y cyfnod busnes gweithredol.

Fodd bynnag, gan na allwn ni ragweld yr holl ddigwyddiadau neu amodau yn y dyfodol, a gan y gallai digwyddiadau yn y dyfodol arwain at ganlyniadau sy'n anghyson â barn a oedd yn rhesymol ar y pryd y rhoddwyd hi, nid yw'r canlyniadau uchod yn gwarantu y bydd y grŵp neu'r cwmni yn parhau i weithredu.

Twyll a thorri cyfreithiau a rheoliadau – y gallu i ganfod

Canfod ac ymateb i risgiau o gamddatganiadau o bwys o ganlyniad i dwyll

Er mwyn canfod risgiau o gamddatganiad o bwys o ganlyniad i dwyll ("risgiau twyll") rydym wedi asesu digwyddiadau neu amodau a allai awgrymu cymhelliant neu bwysau i gyflawni twyll neu roi cyfle i gyflawni twyll. Roedd ein gweithdrefnau asesu risg yn cynnwys:

- Holi cyfarwyddwyr ac archwilio dogfennau polisi oedd yn ymwneud â pholisiau a gweithdrefnau lefel uchel y Grŵp i atal a chanfod twyll, gan gynnwys y swyddogaeth archwilio fewnol, a sianel y Grŵp ar gyfer "chwythu'r chwiban", yn ogystal â p'un ai oedd ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth o dwyll, neu dwyll honedig.
- Darllen cofnodion y bwrdd a'r pwyllgor archwilio.
- Defnyddio gweithdrefnau dadansodol i ganfod unrhyw gysylltiadau anarferol neu annisgwyl.

Rydym wedi rhoi gwybod i'r tîm archwilio am y risgiau o dwyll a ganfuwyd, ac rydym wedi parhau'n effro i unrhyw arwyddion o dwyll yn ystod yr archwiliad.

Fel sy'n ofynnol dan y safonau archwilio, rydym yn cynnal gweithdrefnau i fynd i'r afael â'r risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau, yn enwedig y risg y gallai tîm rheoli'r Grŵp fod mewn sefyllfa i wneud cofnodion cyfrifyddu amhriodol a'r risg fod rhagfarn mewn amcangyfrifon cyfrifyddu a dyfarniadau fel prisio asedau. Yn yr archwiliad hwn, nid oeddem wedi canfod risg o dwyll sy'n gysylltiedig â chydabod refeniw oherwydd y meini prawf cydnabod refeniw nad ydynt yn gymhleth, sy'n cyfyngu ar y cyfle i gam-drafod refeniw yn dwyllodrus.

Ni ddaethom o hyd i unrhyw risgiau ychwanegol o ran twyll.

Wrth benderfynu ar y gweithdrefnau archwilio, rydym wedi ystyried canlyniadau ein gwerthusiad a'n profion o effeithiolrwydd gweithredu rheolaethau rheoli risg twyll y Grŵp cyfan.

Rydym wedi cynnal gweithdrefnau gan gynnwys:

- Canfod cofnodion dyddyfrau ac addasiadau eraill i'w profi ar sail meini prawf risg a chymharu'r cofnodion a ganfuwyd â dogfennau ategol. Roedd y rhain yn cynnwys postiadau anarferol i gyfrifon arian parod a phostiadau anarferol i asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu.

Rydyn ni wedi canfod y cyfreithiau a'r rheoliadau y gellid disgwyl iddynt gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol o'n profiad masnachol cyffredinol a'n profiad o'r sector, a thrwy drafod gyda'r cyfarwyddwyr a rheolwyr eraill (fel sy'n ofynnol dan y safonau archwilio), ac o arolygu gohebiaeth reoleiddiol a chyfreithiol y Grŵp a thrafod gyda'r cyfarwyddwyr a rheolwyr eraill y polisiau a'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.

Rydym wedi rhoi gwybod i'n tîm am y cyfreithiau a'r rheoliadau a ganfuwyd, ac rydym wedi parhau'n effro i unrhyw arwyddion o ddiffyg cydymffurfiaid yn ystod yr archwiliad.

Mae effaith bosibl y cyfreithiau a'r rheoliadau hyn ar y datganiadau ariannol yn amrywio'n sylweddol.

Yn gyntaf, mae'r Grŵp yn ddarostyngedig i ddeddfau a rheoliadau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y datganiadau ariannol gan gynnwys deddfwriaeth adrodd ariannol (gan gynnwys deddfwriaeth cwmnïau cysylltiedig), deddfwriaeth elw y dosbarthir, deddfwriaeth trethu a deddfwriaeth pensiwn, ac rydym wedi asesu i ba raddau y cydymffurfiwyd â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn fel rhan o'n gweithdrefnau ar eitemau'r datganiad ariannol cysylltiedig.

Yn ail, mae'r Grŵp yn ddarostyngedig i lawer o ddeddfau a rheoliadau eraill lle gallai canlyniadau peidio â chydymffurfio gael effaith sylweddol ar symiau neu ddatgeliadau yn y datganiadau ariannol, er enghraifft drwy roi dirwyon neu ymgyfreitha. Fe wnaethom nodi'r meysydd canlynol fel y rhai sydd fwyaf tebygol o gael effaith o'r fath: iechyd a diogelwch, deddfau diogelu data, gwrth-lwgrwobrwyo, cyfraith cyflogaeth, rheoliadau amgylcheddol, rheoliadau sy'n berthnasol i gyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru, deddfwriaeth sy'n ymwneud â thrafnidiaeth, a rhai agweddau ar deddfwriaeth cwmnïau. Mae safonau archwilio yn cyfyngu'r gweithdrefnau archwilio gofynnol i ganfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn i holi'r cyfarwyddwyr ac arolygu gohebiaeth reoleiddiol a chyfreithiol, os oes rhai. Felly, os na fydd torri rheoliadau gweithredol yn cael ei ddatgelu i ni neu'n amlwg o'r ohebiaeth berthnasol, ni fydd archwiliad yn canfod y tor-amod hwnnw.

Cyd-destun gallu'r archwiliad i ganfod twyll neu dorri cyfraith neu reoliad

Oherwydd y cyfyngiadau sylfaenol sy'n gysylltiedig ag archwiliad, mae risg anochel na fyddwn wedi dod o hyd i rai achosion o gamddatganiadau o bwys yn y datganiadau ariannol, er ein bod wedi cynllunio a chynnal ein harchwiliad yn unol â'r safonau archwilio. Er enghraifft, po bellaf yw achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau o'r digwyddiadau a'r trafodion a adlewyrchir yn y datganiadau ariannol, y lleiaf tebygol yw y byddai'r gweithdrefnau'r safonau archwilio sydd, yn eu hanfod yn gyfyngedig, yn eu canfod.

Yn ogystal, fel gydag unrhyw archwiliad, roedd risg uwch o beidio â dod o hyd i dwyll, gan y gallai'r rhain gynnwys cydgyllwynio, ffugio, hepgor bwriadol, anwiredd neu ddiystyru rheolaethau mewnol. Mae ein gweithdrefnau archwilio wedi'u cynllunio i ddod o hyd i gamddatganiadau perthnasol. Nid ydym yn gyfrifol am atal diffyg cydymffurfio na thwyll ac ni ellir disgwyl i ni ddod o hyd i achosion o beidio â chydymffurfio â phob cyfraith a rheoliad.

Yr adroddiad strategol ac adroddiad y cyfarwyddwyr

Y cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am yr adroddiad strategol ac am adroddiad y cyfarwyddwyr. Nid yw ein barn ni am y datganiadau ariannol yn cynnwys yr adroddiadau hynny, ac nid ydym yn mynegi barn archwilio amdanynt.

Ein cyfrifoldeb ni yw darllen yr adroddiad strategol ac adroddiad y cyfarwyddwyr, ac wrth wneud hynny ystyried – ar sail ein gwaith archwilio ar y datganiadau ariannol – a yw'r wybodaeth ynddynt yn cael ei chamddatgan yn sylweddol, neu a yw'n anghyson â'r datganiadau ariannol neu ein gwybodaeth archwilio ni. Ar sail y gwaith hwnnw'n unig:

- nid ydym wedi dod o hyd i gamddatganiadau o bwys yn yr adroddiad strategol nac yn adroddiad y cyfarwyddwyr;
- yn ein barn ni, mae'r wybodaeth yn yr adroddiadau hynny ar gyfer y flwyddyn ariannol yn cyd-fynd â'r datganiadau ariannol; ac
- mae'r adroddiadau hynny wedi cael eu paratoi yn unol â Deddf Cwmnïau 2006 yn ein barn ni.

Materion y mae'n rhaid i ni adrodd arnynt drwy eithriad

O dan Ddeddf Cwmnïau 2006, mae'n rhaid i ni roi gwybod i chi os ydym yn credu bod y canlynol yn wir:

- nid oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi cael eu cadw gan y rhiant-gwmni, neu nid oes ffurflenni perthnasol i'n harchwiliad wedi cael eu cyflwyno gan ganghennau nad ydym wedi ymweld â nhw; neu
- nad yw datganiadau ariannol y rhiant-gwmni yn cyd-fynd â'r ffurflenni a'r cofnodion cyfrifyddu; neu
- nid yw rhai o daliadau'r cyfarwyddwyr, a nodir yn y gyfraith, wedi cael eu datgelu; neu
- nid ydym wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

Cyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr

Fel mae datganiad y cyfarwyddwyr ar dudalen 100 yn ei egluro'n fanylach, mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am y canlynol: paratoi'r datganiadau ariannol, a bod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg; y gwaith rheoli mewnol sy'n angenrheidiol yn eu barn nhw er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sydd ddim yn cynnwys camddatganiadau o bwys, boed y rheini wedi'u gwneud drwy dwyll neu gamgymeriad; asesu gallu'r grŵp neu'r rhiant-gwmni i barhau fel busnes gweithredol gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, unrhyw faterion sy'n gysylltiedig â bod yn fusnes gweithredol; a defnyddio sail busnes gweithredol ar gyfer cyfrifyddu, oni bai eu bod naill ai'n bwriadu diddymu'r cwmni neu roi'r gorau i weithredu, neu os nad oes ganddynt unrhyw opsiwn realistig arall heblaw am hynny.

Cyfrifoldebau'r archwilydd

Ein hamcanion ni yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw gamddatganiadau o bwys, boed y rheini wedi'u gwneud drwy dwyll neu gamgymeriad, a rhoi ein barn ni ar ffurf adroddiad yr archwilydd. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) bob amser yn dod o hyd i gamddatganiad o bwys pan fydd yn bodoli. Mae camddatganiadau'n gallu codi yn sgil twyll neu gamgymeriad, ac maent yn cael eu hystyried yn rhai o bwys os byddai'n rhesymol disgwyl iddynt – yn unigol neu gyda'i gilydd – ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol.

Mae disgrifiad mwy cyflawn o'n cyfrifoldebau ar gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities

Pwrpas ein gwaith archwilio, ac i bwy mae gennym gyfrifoldebau

Caiff yr adroddiad hwn ei wneud ar gyfer aelodau'r cwmni yn unig, fel corff, yn unol â Phennod 3, Rhan 16 o Ddeddf Cwmnïau 2006. Cyflawnwyd ein gwaith archwilio er mwyn i ni allu datgan wrth aelodau'r cwmni y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan wrthynt mewn adroddiad archwilydd, ac i ddim pwrpas arall. I'r graddau mwyaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn ysgwyddo cyfrifoldeb i neb, ac eithrio i'r cwmni ac aelodau'r cwmni fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.

Rees Batley (Uwch-archwilydd Statudol) ar ran ac yn enw KPMG LLP, Archwilydd Statudol

Cyfrifwyr Siartredig
3 Sgwâr y Cynulliad
Cei Britannia
Bae Caerdydd,
CF10 4AX
29 Mehefin 2022

Datganiad Incwm Cyfunol

am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

	Nodyn	2022 £000	Diwygiwyd 2021 £000
Refeniw	2	537,365	121,654
Treuliau gweinyddol (mae 2021 yn cynnwys pryniant bargaen o £3,901,000 - gweler nodyn 23)		(565,154)	(117,658)
Gwaged gweithredol – gwaged cyn treth		(27,789)	3,996
Treuliau ariannol	6	(1,289)	(270)
Llog sydd i'w dderbyn	6	13	10
Incwm ariannu net/ (traul)		(1,276)	(260)
Gwaged/(diffyg) cyn treth		(29,065)	3,736
Trethiant	7	(667)	513
Gwaged/(diffyg) am y flwyddyn		(29,732)	4,249
Datganiad o Incwm cynhwysfawr arall			
Eitemau na fyddant yn cael eu hailddosbarthu i elw neu golled:			
Ailbriso eiddo, offer a chyfarpar	8	(549,624)	2,078,772
Ailfesur rhwymedigaethau/asedau buddion diffiniedig	18	45	(60)
Cyfran effeithiol newidiadau mewn gwerth teg rhagfantoli llif arian	19	6,171	973
Treth ar incwm cynhwysfawr arall	7	(59)	(178)
Incwm cynhwysfawr arall am y flwyddyn, net treth incwm		(543,467)	2,079,507
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn		(573,199)	(2,083,756)

Mae'r gwaged ar gyfer 2020-21 wedi cael ei ddiwygio oherwydd addasiadau gwerth teg yn ystod y cyfnod mesur ar ôl caffael Rheilffyrdd TrC – gweler Nodyn 23.

Priodolir yr holl incwm cynhwysfawr i ddeiliad ecwiti Trafnidiaeth Cymru.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 114 i 152 yn rhan annatod o'r datganiadau ariannol hyn.

Datganiad sefyllfa ariannol cyfunol

ar 31 Mawrth 2022

	Nodyn	2022 £000	Diwygiwyd 2021 £000
Asedau anghyfredol			
Eiddo, offer a chyfarpar	8	2,681,987	3,037,097
Asedau anniriaethol	9	14,157	-
Ewyllys da	9	3,546	-
		2,699,690	3,052,738
Asedau cyfredol			
Rhestrau	11	9,343	4,826
Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	12	133,732	99,389
Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod	13	63,766	18,942
		206,841	123,157
Cyfanswm yr asedau		2,906,531	3,175,894
Rhwymedigaethau cyfredol			
Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	14	218,111	146,120
Rhwymedigaethau prydles	20	18,622	32,409
Darpariaethau	15	673	209
		237,406	178,738
Rhwymedigaethau anghyfredol			
Atebolrwyddau prydles	20	80,284	87,741
Grantiau gohiriedig y llywodraeth	17	1,062,630	821,091
Budd-daliadau i weithwyr	18	1,140	1,206
Darpariaethau	15	2,736	2,682
		1,146,790	912,720
Cyfanswm y rhwymedigaethau		1,384,196	1,091,457
Asedau net		1,522,335	2,084,437
Ecwiti			
Cyfalaf Cyfranddaliadau		-	-
Gwaged wedi'i gadw		4,810	4,876
Cyfraniadau Cyfalaf Wrth Gefn		11,097	-
Cronfa ailbriso wrth gefn		1,499,526	2,078,772
Cronfa Rhagfantoli Wrth Gefn		6,902	789
Cyfanswm ecwiti		1,522,335	2,084,437

Mae balansau'r Grŵp ar gyfer 2020-2021 wedi cael ei ddiwygio oherwydd addasiadau gwerth teg yn ystod y cyfnod mesur ar ôl caffael Rheilffyrdd TrC – gweler Nodyn 23.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn gan fwrdd y cyfarwyddwyr ar 29 Mehefin 2022 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:

J R Price
Cyfarwyddwr
Rhif cofrestru'r cwmni: 9476013

Datganiad Cyfunol am Newidiadau mewn Ecwiti

ar 31 Mawrth 2022

	Gwarged wrth gefn £000	Cyfraniad Cyfalaf - Cronfa wrth gefn	Ailbriso - Cronfa wrth gefn £000	Cronfa wrth gefn rhagfantoli £000	Cyfanswn ecwiti £000
Balans ar 1 Ebrill 2020	681	-	-	-	681
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod					
Gwarged (diwygiedig)	4,249	-	-	-	4,249
Incwm cynhwysfawr arall					
Ailbriso eiddo, offer a chyfarpar	-	-	2,078,772	-	2,078,772
Ailfesur rhwymedigaeth/ased buddion diffiniedig	(60)	-	-	-	(60)
Cyfran effeithiol o newidiadau mewn gwerth teg rhagfantoli llif arian	-	-	-	973	973
Treth ar incwm cynhwysfawr arall	6	-	-	(184)	(178)
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod	4,195	-	2,078,772	789	2,083,756
Balans ar 31 Mawrth 2021	4,876	-	2,078,772	789	2,084,437
Balans ar 1 Ebrill 2021	4,876	-	2,078,772	789	2,084,437
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod					
Diffyg	(29,732)	-	-	-	(29,732)
Incwm cynhwysfawr arall					
Ailbriso eiddo, offer a chyfarpar	-	-	(549,624)	-	(549,625)
Ailfesur rhwymedigaeth/ased buddion diffiniedig	45	-	-	-	45
Cyfran effeithiol o newidiadau mewn gwerth teg rhagfantoli llif arian	-	-	-	6,171	6,171
Treth ar incwm cynhwysfawr arall	(1)	-	-	(58)	(59)
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod	(29,688)	-	(549,624)	6,113	(573,199)
Cyfraniad Cyfalaf gan y Perchennog	-	11,097	-	-	11,097
Trosglwyddiad o'r Gronfa Ailbriso Wrth Gefn i'r Gwarged Wrth Gefn	29,622	-	(29,622)	-	-
Balans ar 31 Mawrth 2022	4,810	11,097	1,499,526	6,902	1,522,335

Mae'r gwarged ar gyfer 2020-21 wedi cael ei ddiwygio oherwydd addasiadau gwerth teg yn ystod y cyfnod mesur ar ôl caffael Rheilffyrdd TrC – gweler Nodyn 23.

Priodolir yr holl incwm cynhwysfawr i ddeiliad ecwiti Trafnidiaeth Cymru.

Datganiad cyfun o lifoedd arian

am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

	Nodyn	2022 £000	Diwygiwyd 2021 £000
Llif arian o weithgareddau gweithredol			
Gwarged/(diffyg) am y flwyddyn		(29,732)	4,249
<i>Addasiadau ar gyfer:</i>			
Pryniant Bargeinio ar ôl caffael	23	-	(3,901)
Dibrisiant, amorteiddiad ac amhariadau	8 & 9	112,950	19,828
Rhyddhau grantiau'r llywodraeth sydd wedi'u gohirio		(45,967)	(13,106)
Costau cyllid		1,202	260
Trethiant	7	667	(513)
		39,119	6,817
(Cynnydd)/lleihad yn y rhestrau	11	(1,153)	(101)
Cynnydd/gostyngiad mewn symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill	12	(13,974)	(85,942)
Cynnydd/(Gostyngiad) mewn symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	14	75,554	74,967
Cynnydd/(gostyngiad) mewn darpariaethau a buddion gweithwyr	15	558	944
Llog a dderbyniwyd	6	13	10
Treth a dalwyd	7	-	4
Arian parod net o weithgareddau gweithredol		100,118	(3,301)
Llif arian o weithgareddau buddsoddi			
Caffael eiddo, offer a chyfarpar	8	(299,636)	(148,170)
Caffael busnes (net o arian parod)		(10,578)	695
Caffael asedau anniriaethol		(2,842)	(7,809)
Gwariant cyfalaf ar asedau trydydd parti		-	(2,075)
Enillion ar ôl derbyn grantiau cyfalaf y llywodraeth	17	279,348	168,147
Arian net o weithgareddau buddsoddi		(33,708)	10,788
Llif arian o weithgareddau ariannu			
Ad-dalu benthyciad (wrth gaffael Pullman Rail Limited)		(6,000)	-
Derbyn benthyciad gan riant		6,900	-
Cyfraniad cyfalaf gan riant		11,097	-
Taliad rhwymedigaethau prydles		(33,583)	(5,217)
Arian net o weithgareddau ariannu		(21,586)	(5,217)
Cynnydd net mewn arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod		44,824	2,270
Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod ar 1 Ebrill		18,942	16,672
Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod ar 31 Mawrth		63,766	18,942

Datganiad sefyllfa ariannol y cwmni

ar 31 Mawrth 2022

	Note	2022 £000	2021 £000
Asedau anghyfredol			
Eiddo, offer a chyfarpar	8	2,435,576	2,809,163
Asedau anniriaethol	9	3,343	3,982
Buddsoddiadau	10	11,097	-
		2,450,016	2,813,145
Asedau cyfredol			
Rhestrau	11	72	15
Masnach a symiau derbyniadwy eraill	12	137,135	86,812
Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod	13	26,391	11,001
		163,598	97,828
Cyfanswm yr asedau		2,613,614	2,910,973
Rhwymedigaethau cyfredol			
Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill	14	157,480	93,420
Rhwymedigaethau prydles	20	626	-
Darpariaethau	15	673	209
		158,779	93,629
Rhwymedigaethau anghyfredol			
Atebolrwyddau prydles	20	12,996	13,451
Grantiau llywodraeth cyfalaf wedi'u gohirio	17	927,276	721,363
Buddion gweithwyr	18	504	424
Darpariaethau	15	2,736	2,682
		943,512	737,920
Cyfanswm y rhwymedigaethau		1,102,291	831,549
Asedau net		1,511,323	2,079,424
Ecwiti			
Cyfalaf Cyfranddaliadau		-	-
Gwarged wedi'i gadw		700	652
Cyfraniadau Cyfalaf Wrth Gefn		11,097	-
Cronfa Rhagfantoli Wrth Gefn		1,499,526	2,078,772
Cyfanswm ecwiti		1,511,323	2,079,424

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn gan fwrdd y cyfarwyddwyr ar 29 Mehefin 2022 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:

J R Price

Cyfarwyddwr

Rhif cofrestru'r cwmni: 9476013

Datganiad y cwmni o newidiadau mewn ecwiti

ar 31 Mawrth 2022

	Gwarged wrth gefn £000	Cyfraniad Cyfalaf - Cronfa wrth gefn	Ailbriso Cronfa wrth gefn £000	Cyfanswm ecwiti £000
Balans ar 1 Ebrill 2020	653	-	-	653
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod				
Gwarged	28	-	-	28
Incwm cynhwysfawr arall				
Ailbriso eiddo, offer a chyfarpar	-	-	2,078,772	2,078,772
Ailfesur rhwymedigaethau/asedau buddion diffiniedig	(29)	-	-	(29)
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod	(1)	-	2,078,772	2,078,771
Balans ar 31 Mawrth 2021	652	-	2,078,772	2,079,424
Balans ar 1 Ebrill 2021	652	-	2,078,772	2,079,424
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod				
Diffyg	(29,613)	-	-	(29,613)
Incwm cynhwysfawr arall				
Ailbriso eiddo, offer a chyfarpar	-	-	(549,624)	(549,624)
Ailfesur rhwymedigaethau/asedau buddion diffiniedig	39	-	-	39
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod	(29,574)	-	(549,624)	(579,198)
Cyfraniad Cyfalaf gan y Perchennog	-	11,097	-	-
Trosglwyddiad o'r Gronfa Ailbriso Wrth Gefn i'r Gwarged Wrth Gefn	29,622	-	(29,622)	-
Balans ar 31 Mawrth 2022	700	11,097	1,499,526	1,511,323

Nodiadau

Yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol

1 Polisiau cyfrifyddu

Mae Trafnidiaeth Cymru ("y Cwmni") yn gwmni cyfyngedig drwy warant sydd wedi'i gorffori a'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr yn y DU ac sydd â'i ddomisil yno. Y rhif cofrestredig yw 09476013 a'r cyfeiriad cofrestredig yw 3 Llys Cadwyn, Stryd Taf, Pontypridd CF37 4TH. Mae'r Cwmni yn is-gwmni sy'n dod o dan reolaeth lwy'r Gweinidogion Cymru (corff a ddiffinnir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006) ac oherwydd hyn ystyrir Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig..

Y sail ar gyfer paratoi

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol ar gyfer Trafnidiaeth Cymru a'i is-gwmnïau (gyda'i gilydd "y Grŵp" neu "TrC") wedi cael eu paratoi a'u cymeradwyo gan y cyfarwyddwyr yn unol â safonau cyfrifyddu Rhyngwladol yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

Mae datganiadau ariannol y rhiant-gwmni wedi cael eu paratoi'n gywir yn unol â Safon Adrodd Ariannol 101, Fframwaith Datgelu Llai ("FRS 101")

O dan adran a408 o Ddeddf Cwmnïau 2006, mae'r Cwmni wedi'i eithrio o'r gofyniad i gyflwyno ei gyfrif elw a cholled ei hun.

Wrth baratoi datganiadau ariannol y rhiant-gwmni, mae'r Cwmni wedi cymhwyso'r esemptiadau sydd ar gael o dan FRS 101 mewn perthynas â'r datgeliadau canlynol:

- Datganiad llif arian a nodiadau cysylltiedig
- Rhai datgeliadau o ran referniw
- Datgeliadau mewn perthynas â thrafodion gydag is-gwmnïau sy'n eiddo'n llwyr
- Datgeliadau mewn perthynas â rheoli cyfalaf

Gan fod datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys y datgeliadau cyfatebol, mae'r Cwmni hefyd wedi defnyddio'r esemptiadau sydd ar gael o dan FRS 101 yng nghyswllt y datgeliadau canlynol:

- Rhai datgeliadau sy'n ofynnol dan IFRS 3 Cyfuniadau Busnes mewn perthynas â chyfuniadau busnes a gyflawnir gan y Cwmni; a
- Rhai datgeliadau sy'n ofynnol dan IFRS 13 Mesur Gwerth Teg a'r datgeliadau sy'n ofynnol dan IFRS 7 Datgeliadau Offeryn Ariannol.

Paratoir y datganiadau ariannol ar sail cost hanesyddol ac eithrio ased rhwydwaith rheilffyrdd Llinellau Craidd y Cymoedd (CVL) ac asedau a rhwymedigaethau ariannol penodol (gan gynnwys deilliadau) wedi'u mesur yn ôl gwerth teg.

Oni nodir yn wahanol, mae'r polisiau cyfrifyddu isod wedi cael eu cymhwyso'n gyson i bob cyfnod a gyflwynir yn y datganiadau ariannol hyn.

Yn unol ag IFRS 3 'Cyfuniadau Busnes', mae'r wybodaeth ariannol gymharol wedi cael ei diwygio i adlewyrchu addasiadau i werth teg dros dro asedau a rhwymedigaethau a gaffaelwyd gan Keolis Amey ar 7 Chwefror 2021 yn ystod y cyfnod ail-fesur o flwyddyn yn dilyn caffael. Mae Nodyn 23 yn nodi effaith hyn.

Newid mewn polisiau cyfrifyddu

Mae nifer fach o IFRS sydd newydd gael eu mabwysiadu neu ddiwygiadau i IFRS wedi cael eu mabwysiadu yn y datganiadau ariannol hyn am y tro cyntaf, ac nid yw'r un ohonynt yn effeithio ar ffigurau cymharol a adroddwyd yn y cyfnod blaenorol.

Sail cyfuno

Mae is-gwmnïau i gyd yn endidau y mae gan y grŵp reolaeth drostynt. Y Grŵp:

- Cyfuno is-gwmnïau o'r dyddiad y mae'r rheolaeth yn trosglwyddo i'r grŵp ac yn dadgyfuno o'r dyddiad y daw'r rheolaeth i ben;
- Newid polisiau cyfrifyddu is-gwmnïau, lle bo angen, i sicrhau cysondeb â'r polisiau a fabwysiadwyd gan y grŵp;
- Dileu trafodion a balansau rhwng cwmnïau yng nghanlyniadau'r grŵp.

Busnes gweithredol

Ar adeg cymeradwyo'r datganiadau ariannol, mae cyfarwyddwyr y Cwmni yn disgwyl yn rhesymol bod gan TrC ddigon o gyllid wedi'i ddyrannu gan Lywodraeth Cymru i gyflawni ei gylch gwaith gweithredol ac i barhau mewn bodolaeth weithredol ar gyfer y cyfnod busnes gweithredol fel y nodir yn IAS 1 Cyflwyno Datganiadau Ariannol h.y. o leiaf 12 mis o ddyddiad y datganiadau ariannol hyn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi llythyr cylch gwaith i TrC, sy'n nodi'r blaenoriaethau ar gyfer TrC yn ystod tymor presennol y llywodraeth hyd 2026. Mae TrC hefyd yn cael llythyr cyllid blynyddol, ac mae'r diweddaraf yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023.

Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu llythyr o gefnogaeth yn nodi ei bwriad i barhau i ddarparu cyllid (gan gynnwys cyllid parhaus i Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyf) am o leiaf 12 mis o ddyddiad llofnodi'r cyfrifon hyn. Byddai disgwyl i'r gefnogaeth hon barhau hyd yn oed mewn sefyllfa negyddol (gweler y Datganiad Cydnerthedd am ragor o ystyriaethau).

Yn yr un modd ag unrhyw gwmni sy'n dibynnu ar endidau grŵp eraill am gymorth ariannol, mae'r cyfarwyddwyr yn cydnabod nad oes sicrwydd y bydd y cymorth hwn yn parhau ond, ar ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol hyn, nid oes ganddynt unrhyw reswm i gredu na fydd yn gwneud hynny.

Felly, mae'r cyfarwyddwyr yn dal i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol ar gyfer cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol

Dyfarniadau cyfrifyddu critigol

Mae'r prif benderfyniadau y mae TrC yn eu gwneud wrth roi ei bolisiau cyfrifyddu ar waith yn ymwneud â phrisio prisiad rhwydwaith rheilffyrdd Llinellau Craidd y Cymoedd.

Mae nifer o ddyfarniadau yn gysylltiedig â rhwydwaith rheilffyrdd CVL, yn enwedig mewn perthynas â'r cyfnod dibrisiant (gweler y polisi dibrisiant), a'r tybiaethau a ddefnyddir i lunio'r amcangyfrifon ar gyfer gweddill yr oes ddefnyddiol, costau iawndal tir a'r risg. Mae rhagor o fanylion am y tybiaethau hyn a'u sensitifrwydd yn cael eu nodi yn nodyn 8.

Ffynonellau allweddol o ansicrwydd o ran amcangyfrif

Mae TrC yn gwneud amcangyfrifon a rhagdybiaethau ar sail profiad hanesyddol a ffactorau eraill yr ystyrir eu bod yn berthnasol. Caiff yr amcangyfrifon a'r rhagdybiaethau hyn eu hadolygu'n rheolaidd a chaiff addasiadau eu cydnabod yn y cyfnod lle caiff yr amcangyfrif ei addasu.

Y prif amcangyfrif sy'n effeithio ar y flwyddyn ariannol bresennol yw prisio ased rhwydwaith rheilffyrdd CVL, sy'n cael ei drafod yn fanylach yn y polisi cyfrifyddu Eiddo, Offer a Chyfarpar, ac yn y datganiadau sensitifrwydd yn nodyn 8.

Refeniw

Mae gan TrC chwe chategori incwm:

- Grantiau'r Llywodraeth
- Prosiectau eraill gyda Llywodraeth Cymru
- Incwm cymhorthdal masnachfrait
- Refeniw teithwyr
- Refeniw cynnal a chadw rheilffyrdd
- Refeniw arall

Grantiau'r Llywodraeth

Mae TrC yn cael grantiau adnoddau a chyfalaf gan Lywodraeth Cymru a rhoddir cyfrif amdany'n nhw dan IAS 20 Grantiau'r Llywodraeth.

- Grant Adnoddau

Mae TrC yn cael grant adnoddau gan Lywodraeth Cymru i ad-dalu'r costau gweithredu y mae TrC wedi'u hysgwyddo neu y bydd yn eu hysgwyddo. Bydd y grant mewn perthynas ag ad-dalu costau gweithredu yn cael ei gydnabod fel incwm yn y cyfnod pan eir i'r treuliau perthnasol, gyda'r gweddill sy'n ddyledus i/gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gydnabod fel incwm gohiriedig neu gronedig ar y datganiad o'r sefyllfa ariannol. Mae incwm sy'n gysylltiedig â chostau gweithredu'r Cwmni yn ymddangos ar linell ar wahân ar y datganiad incwm.

- Grantiau Cyfalaf

Mae TrC yn cael grantiau gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â gwariant cyfalaf o fewn ei gylch gwaith, yn ogystal â chostau wedi'u costio sy'n gymwys ar gyfer cyllid cyllideb cyfalaf o dan Ganllawiau Cyllidebu Cyfunol Trysorlys Ei Mawrhydi. Ar gyfer cyllid grant mewn perthynas â gwariant cyfalaf TrC, mae TrC wedi dewis cyflwyno'r grant fel incwm gohiriedig yn hytrach na thynnu'r grant o swm cario'r ased. Caiff yr incwm ei gydnabod yn y datganiad incwm i gyd-fynd â'r costau perthnasol. Ar gyfer grant cyfalaf, mae hyn yn golygu cydnabod yr incwm dros oes ddefnyddiol yr ased fel bod y grant yn cyfateb i'r tâl dibrisio (h.y. y gost berthnasol). Mae cyllid grant cyfalaf mewn perthynas â chostau traul yn cael ei gydnabod fel incwm yn y cyfnod pan fydd treuliau perthnasol yn codi. Mae unrhyw wahaniaeth rhwng gwariant a ariennir gan grant a'r grant a dderbynnir yn cael ei gydnabod fel balans sy'n ddyledus i Lywodraeth Cymru/gan Lywodraeth Cymru yn y datganiad am y sefyllfa ariannol.

- Grantiau eraill gan y llywodraeth

Yn ogystal â'r grantiau a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru, mae TrC yn cael grantiau gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop mewn perthynas â phrosiect trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd (a dderbyniwyd yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru ond sydd bellach wedi talu'n uniongyrchol i TrC gan fod rôl y prif fuddiolwr wedi'i throsglwyddo i TrC). Mae'r grantiau hyn yn cael eu trin yr un fath â grantiau Llywodraeth Cymru. Gan fod cyllid ERDF yn cael ei dalu mewn ôl-daliadau, mae cyllid cronedig yn cael ei gydnabod i werth y gwaith y disgwylir iddo gael ei ariannu gan ERDF ond nid yw'r grant wedi'i dderbyn eto. Caiff hyn ei gyflwyno fel cyllid grant arall wedi cronni gan y llywodraeth o fewn symiau derbyniadwy.

Prosiectau eraill gyda Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn comisiynu TrC i gyflawni gwaith/gwasanaethau eraill sy'n arwain at ddarparu gwasanaethau'n uniongyrchol i Lywodraeth Cymru.

Ein polisi yw cydnabod y refeniw hwn dros amser wrth i feini prawf perthnasol IFRS 15 gael eu bodloni, yn benodol bod y contractau ar gyfer darparu gwasanaethau. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn ac yn defnyddio'r buddion a ddarperir ar yr un pryd wrth iddynt gael eu cyflawni a bydd yn cydnabod unrhyw waith sydd wedi'i gwblhau hyd yma.

Bydd swm y refeniw a gydnabyddir dros amser yn cael ei fesur gan y cynnydd a wneir tuag at lwyr fodloni'r rhwymedigaeth perfformio (cwmpas y gwaith a nodir yn y prosiect). Mae TrC wedi dewis seilio mesur y refeniw ar ddull mewnbwn ar sail y costau a ysgwyddir.

Incwm cymhorthdal masnachfrait

Mae incwm cymhorthdal masnachfrait yn cynrychioli symiau sy'n ddyledus i Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig gan Lywodraeth Cymru o dan y cytundeb grant OLR (o 7 Chwefror 2021 ymlaen) i sybsideiddio colled weithredol y cwmni (ar ôl refeniw teithio a refeniw arall), yn ogystal ag ariannu gwariant asedau cyfalaf penodol.

Caiff hwn ei ryddhau i'r datganiad incwm sy'n cyd-fynd â'r gwariant perthnasol (neu ddibrisiant asedau mewn perthynas â chyllid cyfalaf).

Refeniw teithwyr

Mae incwm teithwyr yn cynrychioli symiau y cytunwyd arnynt fel y'u priodolir i Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig gan systemau dyrannu incwm y Rail Settlement Plan Limited ("RSP"), yn bennaf mewn perthynas â derbynebion teithwyr. Mae'r RSP yn gweinyddu'r system dyrannu incwm yn niwydiant rheilffyrdd y DU ac yn dyrannu refeniw i weithredwyr yn bennaf ar sail modelau defnydd llwybrau y cytunwyd arnynt. Priodolir incwm yn bennaf ar fodolau o agweddau penodol ar batrymau teithio teithwyr ac, i raddau llai, o ddyraniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer llifoedd refeniw penodol. Gall y gyfran a briodolir o incwm tocyn tymor gynnwys rhywfaint o amcangyfrif – er enghraifft, caiff refeniw ei ohirio o fewn credydwy'r a'i ryddhau i'r Datganiad Incwm dros flwyddyn y tocyn tymor perthnasol.

Caiff refeniw ei ohirio pan fydd teithwyr yn prynu tocynnau ar gyfer teithio yn ystod cyfnodau ariannol neu docynnau tymor yn y dyfodol. Bydd hwn wedyn yn cael ei ryddhau yn yr un cyfnod ariannol â hyd y daith neu'r tocyn tymor.

Refeniw cynnal a chadw rheilffyrdd

Mae incwm cynnal a chadw rheilffyrdd yn cynrychioli refeniw a gynhyrchir gan Pullman Rail Limited drwy ddarparu gwasanaethau trwsio a chynnal a chadw cerbydau i'r diwydiant rheilffyrdd. Cydnabyddir refeniw dros amser gan nad yw'r gwaith a wneir yn creu ased gyda defnydd amgen i'r Cwmni ac mae gan y Cwmni hawl orfodadwy i dalu am berfformiad sydd wedi'i gwblhau hyd yma. Bydd swm y refeniw a gydnabyddir dros amser yn cael ei fesur gan y cynnydd a wneir tuag at lwyr fodloni'r rhwymedigaeth perfformio (cwmpas y gwaith a nodir yn y prosiect). Mae'r Cwmni wedi dewis seilio'r gwaith o fesur refeniw ar ddull mewnbwn ar sail y costau a ysgwyddir ar y sail nad yw'n gallu mesur canlyniad y contractau sydd ar y gweill yn rhesymol, ond ei fod yn disgwyl adennill y costau a ysgwyddir.

Refeniw arall

Mae refeniw arall yn cynnwys gwasanaethau ymgynghori trafndiaeth a ddarperir i drydydd partion, incwm rhent, ffioedd mynediad i orsafoedd, ad-daliadau, gwerthiant tanwydd ac incwm cynnal a chadw. Mae hefyd yn cynnwys incwm arlwygo trenau, sy'n cynnwys gwerthiannau arian parod a chardiau i gwsmeriaid sy'n teithio ar drenau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig.

Costau contract

Caiff y costau a ysgwyddwyd wrth gyflawni contractau trydydd parti eu nodi fel ased, ar yr amod bod y costau'n ymwneud yn uniongyrchol â chontract neu gontract disgwylidig, fod y costau'n creu neu'n gwella adnoddau a ddefnyddir i fodloni rhwymedigaethau perfformiad yn y dyfodol; a bod disgwyl i'r costau gael eu hadennill. Cofnodir costau cyffredinol a gweinyddol, neu gostau sy'n ymwneud â rhwymedigaethau perfformiad sydd wedi'u bodloni yn y contract, fel costau pan maent yn digwydd. Caiff ased contract ei amorteiddio ar sail systemig sy'n cyd-fynd â throsglwyddo'r nwyddau neu'r gwasanaethau y mae'r ased yn berthnasol iddynt i'r cwsmer.

Nid yw TrC yn cydnabod costau cynyddrannol wrth gael contract gan fod cyfnod amorteiddio'r ased y byddai fel arall wedi'i gydnabod yn flwyddyn neu lai.

Offerynnau ariannol

Mae offerynnau ariannol yn drefniadau contractiol sy'n arwain at ased ariannol un endid ac offeryn atebolrwydd ariannol neu ecwiti endid arall. Maen nhw'n cael eu cydnabod yn gyntaf pan fydd Grŵp yn dod yn rhan o ddarpariaethau contract yr offeryn.

Asedau Ariannol

Mae asedau ariannol yn cael eu dosbarthu i un o dri phrif gategori yn ôl y model busnes ar gyfer rheoli'r ased ariannol a nodweddiad llif arian cytundebol yr ased ariannol:

- Mae asedau ariannol ar gost amorteiddio yn asedau ariannol nad ydynt yn ddeilliadol, sy'n cael eu dal i gasglu llifoedd arian cytundebol, lle mae'r llifoedd arian hynny'n cynrychioli prif daliadau a'r llog yn unig. Caiff asedau ariannol ar gost amorteiddio eu mesur wedyn gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol (os yw'n dwyn llog) neu ar sail gwerth enwol ac maent yn agored i amhariad. Caiff enillion a cholledion eu cydnabod mewn elw neu golled pan fydd yr ased yn cael ei ddatgydnabod, ei addasu neu fod yn destun amhariad.
- Mae asedau ariannol ar werth teg drwy elw a cholled (FVTPL) yn cynnwys asedau ariannol sy'n cael eu dal ar gyfer masnachu, asedau ariannol sydd wedi'u dynodi ar sail cydnabyddiaeth gychwynnol am werth teg drwy elw neu golled, neu asedau ariannol y mae'n rhaid eu mesur yn ôl gwerth teg. Mae asedau ariannol yn cael eu dosbarthu fel rhai a ddelir ar gyfer masnachu os cawsant eu caffael at ddibenion gwerthu neu ailbrynu yn y tymor agos. Mae deilliadau hefyd yn cael eu dosbarthu fel rhai sy'n cael eu dal ar gyfer masnachu oni bai eu bod wedi'u dynodi'n offerynnau rhagfantoli effeithiol. Mae asedau ariannol ar werth teg drwy elw neu golled yn cael eu cario yn y datganiad o sefyllfa ariannol am werth teg, gyda newidiadau net mewn gwerth teg yn cael eu cydnabod yn y datganiad incwm o fewn costau cyllid. Mae costau trafodion sy'n deillio o gydnabyddiaeth gychwynnol yn cael eu gosod fel treuliau yn y datganiad incwm.
- Gwerth teg drwy incwm cynhwysfawr arall – nid oes gan y Grŵp unrhyw asedau ariannol sy'n cael eu dal am werth teg drwy incwm cynhwysfawr arall.

Rhwymedigaethau ariannol

Caiff rhwymedigaethau ariannol eu dosbarthu yn ôl sylwedd y trefniadau cytundebol. Mae rhwymedigaethau ariannol y Grŵp yn golygu symiau masnach taladwy sy'n cael eu mesur ar sail cost wedi'i hamorteiddio, gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol, ac unrhyw offerynnau ariannol deilliadol sy'n cael eu dosbarthu fel rhwymedigaethau ar ddyddiad y fantolen.

Deilliadau a gweithgareddau rhagfantoli

Mae offerynnau ariannol deilliadol yn cael eu cydnabod ar sail gwerth teg. Caiff enillion neu golledion wrth ail-fesur gwerth teg eu cydnabod ar unwaith fel elw a cholled. Fodd bynnag, lle mae deilliadau'n gymwys ar gyfer cyfrifyddu rhagfantoli, mae cydnabod unrhyw enillion neu golledion canlyniadol yn dibynnu ar natur yr eitem sy'n cael ei rhagfantoli (gweler isod).

Mae'r Grŵp yn dynodi deilliadau penodol fel offerynnau rhagfantoli llif arian i gynnal yr amrywioldeb mewn llifoedd arian sy'n gysylltiedig â rhagolygon tebygol iawn o drafodion, sy'n deillio o newidiadau mewn prisiau tanwydd.

Ar ddechrau perthynas rhagfantoli ddynodedig, mae'r Grŵp yn dogfennu'r amcan rheoli risg a'r strategaeth ar gyfer rhagfantoli. Mae'r Grŵp hefyd yn dogfennu'r berthynas economaidd rhwng yr eitem wedi'i rhagfantoli a'r offeryn sy'n rhagfantoli, gan gynnwys a oes disgwyl i'r newidiadau yn llifoedd arian yr eitem wedi'i rhagfantoli a'r offeryn sy'n rhagfantoli wrthbwysu ei gilydd.

Pan ddynodir offeryn ariannol deilliadol i ragfantoli'r amrywioldeb mewn llifoedd arian ased neu rwymedigaeth cydnabyddedig, neu'n drafodiad rhagweld tebygol iawn, cydnabyddir yn uniongyrchol y rhan sy'n cael effaith o unrhyw elw neu golled ar yr offeryn ariannol deilliadol yn y gronfa rhagfantoli. Caiff unrhyw gyfran rhagfantoli aneffeithiol ei chydnabod ar unwaith yn y datganiad incwm.

Pan fydd y trafodyn rhagweld yn arwain wedyn at gydnabod eitem anariannol (gan gynnwys eitem anariannol sy'n dod yn ymrwymiad cadarn y defnyddir cyfrifyddu rhagfantoli gwerth teg ar ei gyfer), bydd yr enillion neu'r golled gronol cysylltiedig yn cael eu tynnu o'r gronfa rhagfantoli ac yn cael eu cynnwys yn swm cario cychwynnol yr ased neu'r rhwymedigaeth anariannol.

Ar gyfer pob trafodyn a ragwelir arall sydd wedi'i ragfantoli, bydd yr enillion neu'r golled gronol cysylltiedig yn cael eu hailddosbarthu i'r datganiad incwm yn ystod yr un cyfnod neu gyfnodau pan fydd y llif arian disgwylidig wedi'i rhagfantoli yn y dyfodol yn effeithio ar elw neu golled.

Pan fydd yr offeryn rhagfantoli yn cael ei werthu, yn dod i ben, yn cael ei ddiddymu neu'n cael ei weithredu, neu pan fydd yr endid yn dirymu dynodiad y berthynas ragfantoli ond bod disgwyl o hyd i'r trafodyn rhagfantoli a ragwelir ddigwydd, mae'r enillion neu'r golled gronol ar y pwynt hwnnw yn aros mewn ecwiti ac yn cael eu gydnabod yn unol â'r polisi uchod pan fydd y trafodyn yn digwydd. Os nad oes disgwyl i'r trafodyn rhagfantoli ddigwydd mwyach, cydnabyddir yr enillion neu'r golled gronol nas gwirededwyd, a gydnabyddir mewn ecwiti, yn y datganiad incwm ar unwaith.

Asedau ariannol gydag amhariadau o ran credyd

Ar bob dyddiad adrodd, bydd y Grŵp yn asesu a oes amhariadau o ran credyd yn gysylltiedig â'r asedau ariannol a gariwyd ar gost wedi'i hamorteiddio. Gellir dweud bod 'amhariadau o ran credyd' yn berthnasol i ased ariannol os oes un neu ragor o ddigwyddiadau sy'n cael effaith niweidiol ar y llif arian a ragwelir ar gyfer y dyfodol wedi digwydd. Mae lwfans colled yn cael eu gydnabod am golledion disgwylidig ar swm sy'n cyfateb i golledion credyd disgwylidig oes.

Eiddo, offer a chyfarpar

Caiff asedau eu cydnabod i ddechrau ar sail cost, sy'n cynnwys pris prynu neu gost adeiladu, yn ogystal ag unrhyw gostau y gellir eu priodoli i gael yr asedau yn y lleoliad a'r cyflwr sy'n angenrheidiol er mwyn gallu eu gweithredu (e.e. costau gweithwyr y gellir eu priodoli'n uniongyrchol, cost paratoi a chlirio'r safle, costau danfon a thrin cychwynnol, costau gosod a chydodod a ffioedd proffesiynol).

Mae'r categori Asedau Rhwydwaith y Rheilffyrdd yn cael ei fesur yn ôl ei werth teg – gweler isod. Hefyd, mae asedau seilwaith rheilffyrdd gweithredol eraill ac asedau eiddo nad ydynt yn rhan o rwydwaith rheilffyrdd CVL yn cael eu hailbrisio. Mesurir categorïau eraill o eiddo, offer a chyfarpar gan ddefnyddio'r gost a oedd yn berthnasol gan dynnu colledion yn sgil amhariadau a dibrisiant sydd wedi cronni.

Rhwydwaith Rheilffyrdd a seilwaith rheilffyrdd arall

Ar 28 Mawrth 2020, cafodd TrC rai Asedau Rhwydwaith Rheilffyrdd a elwir yn Linellau Craidd y Cymoedd (CVL) gan Network Rail. Roedd y caffaeliad hwn yn cynnwys rheilffyrdd Aberdâr, Coryton, Merthyr Tudful, Rhymni a Threherbert.

Mae'r seilwaith rheilffyrdd, y gorsafoedd, y pontydd a'r asedau eraill hyn yn rhan o rwydwaith integredig arbenigol sy'n gwasanaethu ardal ddaearyddol ac felly maent wedi cael eu trin yn gyfwerth â'r canllawiau o dan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM ar gyfer asedau rhwydwaith (a ddefnyddir gan riant TrC, Llywodraeth Cymru, yn ei chyfrifon cyfunol). Rydym o'r farn bod y dull hwn yn rhesymol o dan IFRS gan fod IAS 16 yn llai rhagnodol yn ei brisiad, ac mae'r FREM yn darparu dehongliadau ychwanegol.

Mae asedau eiddo eraill sy'n gysylltiedig â rheilffyrdd TrC, sy'n rhan o'r llwybr sy'n eiddo i Network Rail ac nad ydynt yn rhan o Linellau Craidd y Cymoedd, yn cael eu cynnwys fel seilwaith rheilffyrdd arall ac yn cael eu hailbrisio ar wahân i rwydwaith rheilffyrdd Llinellau Craidd y Cymoedd.

Cafodd yr ased ei gydnabod yn wreiddiol am gost ond mae wedi cael ei ailbriso ar ei werth teg ar 31 Mawrth 2021 i gyd-fynd â pholisiau cyfrifyddu Llywodraeth Cymru. Mae'r gwerth teg hwn wedi cael ei adnewyddu eleni i ystyried gwybodaeth wedi'i diweddarau am gostau a bywydau defnyddiol o ran asedau.

Mae gwerth teg rhwydwaith CVL yn seiliedig ar Gostau Amnewid Dibrisiedig (DRC), gan ei fod yn ased arbenigol sy'n cael ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaeth i'r cyhoedd. I gynhyrchu'r prisiad hwn, mae angen defnyddio tybiaethau, amcangyfrifon a barn broffesiynol.

Caiff y DRC ei gyfrifo drwy bennu cost amnewid gros ar gyfer rhwydwaith CVL yn gyntaf. Mae'r gost amnewid gros wedyn yn cael ei haddasu (neu "ddibrisio") i adlewyrchu amcangyfrif gorau'r rheolwyr o gyflwr a chapasiti rhwydwaith CVL; y gost amnewid gros addasedig hon yw'r gost amnewid ddibrisiedig.

Pennir y gost amnewid gros yn unol â chanllawiau a gyhoeddir gan Sefydliad Brenhinol y Syrffewyr Siartredig. Mae'r canllawiau'n gofyn am dybiaethau penodol gan gynnwys:

- ased cyfwerth modern sy'n cael ei drin fel rhwydwaith sy'n union yr un fath o ran swyddogaeth, graddfa a chysylltedd, ond sy'n cael ei adeiladu gan ddefnyddio manylebau a dulliau modern; ac
- adeiladu ar unwaith ar safle maes glas.

Er mwyn cyrraedd prisiad terfynol y DRC, caiff y gwerth amnewid gros ei addasu i adlewyrchu amcangyfrif gorau'r rheolwyr o weddill oes ddefnyddiol yr asedau, gan ystyried cyflwr a chapasiti'r rhwydwaith. Cynhelir prisiad llawn o leiaf bob pum mlynedd, gyda mynegeion mewnbwn yn cael eu defnyddio ar gyfer rhestr brisiau safonol o gydrannau'r rhwydwaith mewn cyfnodau interim. Mae angen dyfarniad i bennu natur ased cyfwerth modern a chyflwr cyfredol yr asedau.

Mae prisiad Asedau Cyfatebol Modern yn defnyddio 'cydrannau' y gellir eu hailadrodd, sy'n cael eu cyfuno i ffurfio'r rhwydwaith. Dyma'r cydrannau:

- Gwaith tir
- Strwythurau
- Trydaneiddio, peiriannau a signalau
- Eiddo gweithredol
- Cledrau
- Telegyfathrebiadau

Mae pob gwaith adnewyddu sy'n cynnal potensial gwasanaeth y rhwydwaith rheilffyrdd yn cael ei gyfalafu. Mae gwariant dilynol sy'n ychwanegu at wasanaethau neu oes rhwydwaith CVL yn cael ei gyfalafu.

Mae gwelliannau ac adnewyddu asedau CVL yn cael eu cynnwys fel un swm ar gost fel asedau sy'n cael eu hadeiladu, nes byddant yn cael eu defnyddio, ac ar yr adeg honno bydd yr ased yn cael ei drosglwyddo i'r categori Rhwydwaith Rheilffyrdd a'i brisio yn DRC.

Cymerir symudiadau mewn gwerth am i fyny i'r gronfa ailbriso. Pennir symudiadau i lawr mewn gwerth yn erbyn unrhyw gredyd a ddelir yn y gronfa ailbriso nes bydd y credyd wedi dod i ben ac wedi hynny wedi'i wario yn y Datganiad Incwm.

Dibrisiant

Caiff dibrisiant ei godi ar y Datganiad Incwm ar sail llinell syth dros oes ddefnyddiol amcangyfrifedig pob rhan o eitem, offer neu gyfarpar. Nid yw tir yn cael ei ddibrisio. Mae'r amcangyfrif o'r oes ddefnyddiol ar gyfer asedau a ddelir ar sail cost fel a ganlyn:

- Gosodiadau a ffitiadau 5-7 mlynedd
- Offer a pheiriannau 5-10 mlynedd
- Adeiladau ≤25 mlynedd
- Gwella Eiddo 2 flynedd
- Offer Cyfrifiadurol 3-5 mlynedd
- Cerbydau modur 3 blynedd
- Cerbydau ≤35 mlynedd

Mae cydrannau'r rhwydwaith rheilffyrdd yn cael eu dibrisio dros eu hoes economaidd ddefnyddiol a amcangyfrifir; fel arfer mae'r rhain yn gyfartaleddau pwysedig ar gyfer amrywiaeth o gydrannau, o ystyried cymhlethdod y strwythurau hyn. Mae'r cyfartaleddau pwysedig hyn yn cael eu crynhoi isod:

- Gwaith tir 86 mlynedd
- Strwythurau 22 mlynedd
- Signalau a Phŵer 27 mlynedd
- Eiddo Gweithredol 20 mlynedd
- Trac 18 mlynedd
- Telegyfathrebiadau 8 mlynedd

Mae hon yn ddyfarniad critigol yn seiliedig ar y data sydd ar gael i TrC, ac mae angen dyfarniad gofalus mewn rhai achosion, yn enwedig ar gyfer cydrannau nad ydynt yn cael eu disodli'n aml, fel strwythurau a gwaith tir. Mae gan rai elfennau fywydau hir, fodd bynnag, ar gyfer y cyfrifiad blynyddol o ddibrisiant, mae'r bywydau sy'n weddill yn cael eu capio ar 100 mlynedd oherwydd ansicrwydd cynhenid y tu hwnt i'r cyfnod hwnnw.

Bydd dulliau o gyfrifo dibrisiant, oes ddefnyddiol a gwerthoedd gweddilliol yn cael eu hadolygu ar ddyddiad pob datganiad am y sefyllfa ariannol.

Cyfuniadau Busnes

Cyfrifir am bob cyfuniad busnes drwy ddefnyddio'r dull caffael. Cyfrifir am gyfuniadau busnes gan ddefnyddio'r dull caffael ar y dyddiad caffael, sef y dyddiad y trosglwyddir y rheolaeth i'r Grŵp.

Mae'r Grŵp yn mesur ewyllys da ar y dyddiad caffael fel gwerth teg y gydnabyddiaeth a drosglwyddwyd; llai swm cydnabyddedig net (gwerth teg yn gyffredinol) yr asedau adnabyddadwy a gaffaelwyd a'r rhwymedigaethau tybiedig. Pan fydd y gormodedd yn negyddol, bydd enillion pryniant bargaen yn cael eu cydnabod ar unwaith mewn elw neu golled.

Mae costau sy'n gysylltiedig â'r caffaeliad, ac eithrio'r rhai sy'n gysylltiedig â dyroddi gwarantau dyled neu ecwiti, yn cael eu trin fel costau a ysgwyddir.

Asedau ac ewyllys da anniriaethol

Cydnabyddiaeth

Mae asedau anniriaethol sy'n cael eu caffael gan y Grŵp yn cael eu datgan ar sail cost llai amorteiddiad cronedig a cholledion amhariad cronedig.

Amorteiddiad

Caiff amorteiddiad ei godi ar y datganiad incwm ar sail llinell syth dros oes ddefnyddiol amcangyfrifedig asedau anniriaethol. Caiff asedau anniriaethol eu hamorteiddio o'r dyddiad y maent ar gael i'w defnyddio. Amcangyfrif bod oes ddefnyddiol trwyddedau meddalwedd ac eiddo deallusol yn 5-10 mlynedd.

Rhestrau

Caiff rhestrau o'r hyn sydd ar gael eu priso ar y gost neu'r gwerth credadwy net, pa un bynnag yw'r isaf. Mae'r gost yn cynnwys y pris prynu a dalwyd am y stocestr. Mae'r gwerth gwiredadwy net yn seiliedig ar amcangyfrif o'r pris gwerthu, llai'r costau pellach y disgwylir iddynt godi wrth gwblhau a'u gwaredu. Gwneir darpariaeth ar gyfer eitemau sydd wedi dod i ben, sy'n symud yn araf neu sy'n ddiffygiol lle bo hynny'n briodol.

Asedau anariannol ac amhariadau

Caiff symiau cario asedau anariannol y Grŵp eu hadolygu ar bob dyddiad adrodd i benderfynu a oes unrhyw awgrym o amhariadau. Os oes awgrym o hynny, bydd swm adenilladwy'r ased yn cael ei amcangyfrif. Gellir disgrifio swm adenilladwy ased fel ei werth pan mae'n cael ei ddefnyddio neu ei werth teg gan dynnu'r costau i'w werthu, pa un bynnag yw'r mwyaf.

Caiff colled amhariad ei chydabod os bydd swm cario ased yn fwy na'r swm adenilladwy a amcangyfrifiwyd ar ei gyfer. Bydd colledion amhariadau'n cael eu cydnabod fel elw neu golled.

Buddion gweithwyr

Cynlluniau cyfraniadau diffiniedig

Cynllun buddion ôl-gyflogaeth yw cynllun â'r cyfraniadau wedi'u diffinio, lle mae'r Grŵp yn talu cyfraniadau penodol i endid ar wahân ac nid oes ganddo rwyngedigaeth gyfreithiol nac adeiladol i dalu symiau ychwanegol. Caiff rhwymedigaethau i gyfrannu at gynlluniau pensiwn cyfraniadau diffiniedig eu cydnabod fel cost yn y datganiad incwm yn y cyfnodau pan fydd gweithwyr yn darparu gwasanaethau.

Cynlluniau buddion diffiniedig

Mae gan y Grŵp ddau gynllun pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio

- Adran TrC o'r Cynllun Pensiwn Rheilffyrdd yng nghyswllt staff sy'n trosglwyddo i TrC o Network Rail fel rhan o gaffael asedau CVL.
- Adran Gwasanaeth Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig o Gynllun Pensiwn Rheilffyrdd mewn perthynas â staff sy'n trosglwyddo o Keolis Amey o dan drefniadau Gweithredwr y Dewis Olaf

Cyfrifir rhwymedigaeth net y Grŵp mewn perthynas â phob cynllun drwy amcangyfrif faint o fudd y mae gweithwyr wedi'i ennill yn gyfnewid am eu gwasanaeth yn y cyfnodau presennol a blaenorol. Caiff y budd hwnnw ei ddiystyru i bennu ei werth presennol, a chaiff gwerth teg asedau unrhyw gynllun (pris y cais) eu didynnu.

Mae'r diffyg a ddatgelir ar gyfer yr RPS yn cynrychioli 60 y cant o'r diffyg llwyr yn yr adran berthnasol o'r RPS, yn unol â chanllawiau'r ymddiriedolwyr sy'n nodi sut mae gwargedion a diffygion y cynllun yn cael eu rhannu rhwng y cyflogwr ac aelodau'r cynllun. Dim ond y diffyg net neu'r gwarged net y mae'n rhaid i'r grŵp ei ariannu dros oes y contract sy'n cael ei gydnabod.

Mae rhwymedigaeth adran Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig yn cael ei haddasu drwy addasiad masnachfaint, sy'n adlewyrchu faint o ddiffyg nad yw'r grŵp yn disgwyl ei ariannu dros oes y contract. Mae'r diffyg net, ar ôl addasu ar gyfer cyfran yr aelodau ac addasiad y fasnachfaint, yn cynrychioli gwerth presennol rhwymedigaeth y grŵp ar y dyddiad hwnnw. Mae'r driniaeth hon yn arwain at ased ad-dalu sy'n cynrychioli'r hawl i gael cyllid cymhorthdal Llywodraeth Cymru i ariannu'r rhwymedigaeth yn y gorffennol – mae hyn yn cael ei ddatgelu ar wahân o fewn asedau'r Grŵp.

Mae'r Grŵp yn pennu'r llog net ar yr atebolrwydd/(ased) buddion diffiniedig net ar gyfer y cyfnod drwy gymhwysu'r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir i fesur yr atebolrwydd buddion diffiniedig ar ddechrau'r cyfnod blynyddol i'r rhwymedigaeth/(asedau) buddion diffiniedig net. Y gyfradd ddisgownt yw'r arenillion ar y dyddiad adrodd ar y bondiau sydd â statws credyd sydd o leiaf yn AA ac sydd â dyddiadau aeddfedu sy'n debyg i delerau rhwymedigaethau'r Grŵp ac sydd wedi'u trosi i'r arian cyfred y disgwylir talu'r buddion ynddo.

Mae'r aifesuriadau sy'n deillio o gynlluniau buddion diffiniedig yn cynnwys enillion a cholledion actiwaraid, yr enillion ar asedau'r cynllun (ac eithrio llog) ac effaith y terfyn asedau (os oes rhai, heb gynnwys llog). Mae'r Grŵp yn eu cydnabod ar unwaith mewn incwm cynhwysfawr arall a'r holl dreuliau eraill sy'n gysylltiedig â chynlluniau buddion diffiniedig mewn treuliau budd-daliadau gweithwyr mewn elw neu golled.

Gwneir cyfrifiad rhwymedigaethau y buddion diffiniedig gan actiwari cymwys, gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau credyd. Pan fydd y cyfrifiad yn arwain at fudd i'r Grŵp, mae'r ased cydnabyddedig wedi'i gyfyngu i werth presennol y buddion sydd ar gael ar ffurf unrhyw ad-daliadau yn y dyfodol o'r cynllun neu ostyngiadau mewn cyfraniadau yn y dyfodol ac mae'n ystyried effaith andwyol unrhyw ofynion cyllido sylfaenol.

Darpariaethau

Mae darpariaethau'r Grŵp yn ymwneud â dadfeiliadau ar gyfer prydles eiddo penodol a hawliadau hunanyswiro sy'n ymwneud â seilwaith Llinellau Craidd y Cymoedd.

Mae'r Grŵp yn cydnabod darpariaeth yn y fantolen pan fydd gan y Grŵp rwyngedigaeth gyfreithiol neu adeiladol bresennol o ganlyniad i ddiwyddiad yn y gorffennol, y gellir ei fesur yn ddibynadwy, ac mae'n debygol y bydd angen all-lif o fuddion economaidd i setlo'r rhwymedigaeth.

Caiff darpariaeth dadfeiliadau ei chyfalafu fel rhan o gost yr ased ar ddechrau prydles, eiddo pan fydd angen gwariant sylweddol i ddychwelyd yr eiddo i'w gyflwr ar ddechrau'r brydles. Mae gwerth y ddarpariaeth yn seiliedig ar werth net presennol y llifoedd arian yn y dyfodol a ddisgwylir i setlo'r rhwymedigaeth ar ddiwedd y brydles ac fe'i hadolygir ar ddyddiad pob mantolen. Nid yw'r disgownt wedi'i rwymo drwy'r datganiad incwm tan ddiwedd cyfnod y brydles.

Disgwylir i'r ddarpariaeth hunanyswiro ddod i ben yn llwyr yn ystod y cyfnod nesaf ac felly nid oes angen disgownt. Y ddarpariaeth yw'r amcangyfrif gorau o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r hawliadau ar ddyddiad y fantolen..

Trethiant

Mae'r dreth ar yr elw neu'r golled ar gyfer y flwyddyn yn cynnwys treth gyfredol a threth ohiriedig. Cydnabyddir treth yn y datganiad incwm ac eithrio i'r graddau y mae'n ymwneud ag eitemau a gydnabyddir yn uniongyrchol mewn ecwiti, ac os felly mae'n cael ei chydabod mewn ecwiti.

Y dreth bresennol yw'r dreth ddisgwylidig sy'n daladwy neu'n dderbyniadwy ar yr incwm trethadwy neu'r golled ar gyfer y flwyddyn, gan ddefnyddio cyfraddau treth a ddaeth i rym neu a ddaeth i rym yn sylweddol ar ddyddiad y fantolen, ac unrhyw addasiad i'r dreth sy'n daladwy mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol.

Darperir treth ohiriedig ar wahaniaethau dros dro rhwng symiau cario asedau a rhwymedigaethau at ddibenion adrodd ariannol a'r symiau a ddefnyddir at ddibenion trethu. Mae swm y dreth ohiriedig a ddarperir yn seiliedig ar y modd y disgwylir i swm cario ymlaen yr asedau a'r rhwymedigaethau gael ei wireddu neu ei setlo, gan ddefnyddio cyfraddau treth a ddeddfwyd neu a weithredwyd yn sylweddol ar ddyddiad y fantolen.

Caiff ased treth ohiriedig ei gydnabod dim ond i'r graddau y mae'n debygol y bydd elw trethadwy ar gael yn y dyfodol, y gellir defnyddio'r gwahaniaeth dros dro yn ei erbyn.

Prydlesi

Fel prydlesai

Mae gan y Grŵp nifer o brydlesi, yn bennaf mewn perthynas â cherbydau rheilffordd yn ogystal ag asedau eiddo penodol.

Ar ddyddiad dechrau'r brydles (fel arfer pan fydd yr ased ar gael i'w ddefnyddio), mae'r Grŵp yn cydnabod ased hawl i ddefnyddio ac atebolwydd prydles.

Caiff yr ased hawl i ddefnyddio ei fesur i ddechrau yn ôl y gost, sy'n cynnwys swm cychwynnol atebolwydd y brydles a addaswyd ar gyfer unrhyw daliadau prydles a wnaed ar neu cyn y dyddiad cychwyn, ynghyd ag unrhyw gostau uniongyrchol cychwynnol a gafwyd ac amcangyfrif o gostau adfer yr ased sylfaenol (e.e. costau dadfeiliad), llai unrhyw gymhellion les a gafwyd.

Caiff yr ased hawl i ddefnyddio ei ddibrisio wedyn gan ddefnyddio'r dull llinell syth o'r dyddiad dechrau hyd ddiwedd tymor y brydles. Hefyd, caiff yr ased hawl i ddefnyddio ei leihau o bryd i'w gilydd gan golledion amhariad, os oes rhai, a'i addasu ar gyfer rhai ailfesuriadau o atebolwydd y brydles.

Mesurir atebolwydd y brydles i ddechrau ar sail gwerth presennol taliadau'r brydles nad ydyn nhw'n cael eu talu ar y dyddiad cychwyn, eu disgowntio gan ddefnyddio'r gyfradd llog ymhyg yn y brydles neu, os na ellir pennu'r gyfradd honno'n rhwydd, cyfradd fenthycy gynyddrannol y Grŵp.

Mae taliadau prydles a gynhwysir wrth fesur atebolwydd y les yn cynnwys y canlynol:

- taliadau sefydlog, gan gynnwys taliadau sefydlog mewnsylweddau;
- taliadau prydles amrywiol sy'n dibynnu ar fynegai neu gyfradd, a fesurir i ddechrau gan ddefnyddio'r mynegai neu'r gyfradd ar y dyddiad cychwyn; a
- chosbau am derfynu les yn gynnar oni bai fod y Grŵp yn weddol sicr o beidio â therfynu'n gynnar.

Caiff atebolwydd y brydles ei fesur yn ôl cost wedi'i hamortieiddio drwy ddefnyddio'r dull llog effeithiol. Caiff ei ailfesur pan fydd newid mewn taliadau les yn y dyfodol yn deillio o newid mewn mynegai neu gyfradd, mae newid yn amcangyfrif y Grŵp o'r swm y disgwylir iddo fod yn daladwy o dan warrant gwerth gweddilliol neu os oes taliad les sefydlog mewnsylweddau diwygiedig.

Pan ailfesurir atebolwydd y les fel hyn, gwneir addasiad cyfatebol i swm cario'r ased hawl defnydd, i'r graddau y caiff yr ased hawl i ddefnyddio ei leihau i ddim, gydag unrhyw addasiad pellach sy'n ofynnol o'r ailfesur yn cael ei gofnodi mewn elw neu golled.

Prydlesi tymor byr a phrydlesi asedau gwerth isel

Mae'r Grŵp wedi dewis peidio â chynabod asedau hawl i ddefnyddio ac atebolwyddau prydlesu ar gyfer prydlesi asedau gwerth isel a phrydlesi tymor byr. Mae'r Grŵp yn cydnabod taliadau'r brydles sy'n gysylltiedig â'r lesedd hyn fel cost ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

Fel prydleswr

Pan fydd y Grŵp yn gweithredu fel prydleswr, bydd yn penderfynu ai prydles cyllid ynteu prydles weithredol yw pob les.

Mae'r Grŵp yn cydnabod taliadau prydles a geir o dan brydlesi gweithredol fel incwm ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles fel rhan o incwm rhent.

Les a gaffaelwyd mewn cyfuniad busnes

Ar gyfer lesedd a gaffaelir mewn cyfuniad busnes, mae'r Grŵp yn mesur y rhwymedigaeth lesedd a gaffaelir ar werth presennol y taliadau prydles sy'n weddill, fel pe bai'r les a gaffaelwyd yn les newydd ar y dyddiad caffael. Mae'r ased hawl i ddefnyddio yn cael ei fesur wrth gaffael ar yr un swm â'r rhwymedigaeth prydlesi, wedi'i addasu i adlewyrchu telerau ffafriol neu anffafriol y brydles o'i gymharu â thelerau'r farchnad.

Ffioedd mynediad i'r cleddau, y depos a'r gorsafoddd

Mae Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig yn wynebu ffioedd mynediad cleddau, gorsafoddd a depos gan Amey (mewn perthynas â CVL) a Network Rail (mewn perthynas â gweddill y rhwydwaith rheilffyrdd) nad ydynt yn bodloni'r diffiniad o les o dan IFRS 16. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith nad oes unrhyw ased wedi'i nodi yn bodoli neu nad oes gan y Grŵp hawl i gaffael yr holl fuddion economaidd yn sylweddol, o ddefnyddio'r asedau drwy gydol y cyfnod defnyddio, neu fod Network Rail / Amey, nid y Grŵp, yn cyfarwyddo sut ac i ba ddiben y mae'r asedau'n cael eu defnyddio.

Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) sydd wedi'u mabwysiadu ond heb gael eu priodoli eto

Mae nifer o IFRS wedi cael eu mabwysiadu ond nid ydynt wedi cael eu rhoi ar waith gan y Grŵp yn y datganiadau ariannol cyfunol hyn gan y bydd eu dyddiadau dod i rym yn berthnasol i ddatganiadau ariannol yn y dyfodol. Nid oes disgwyl i'w mabwysiadu gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol.

2 Refeniw o gontractau gyda chwsmeriaid

Datgyfuno refeniw

Yn y tabl canlynol, mae'r refeniw yn cael ei rannu yn ôl llinellau gwasanaeth/cynhyrchion mawr ac amser cydnabod y refeniw.

	2022 £000	2021 £000
Llinellau gwasanaeth/cynhyrchion mawr		
Grant refeniw craidd Llywodraeth Cymru	65,243	41,884
Rhyddhau grant cyfalaf Llywodraeth Cymru yn unol â dibrisiant a amhariad	44,491	12,078
Grant refeniw craidd Llywodraeth Cymru (fel treuliau)	6,231	2,075
Prosiectau ymgynghoriaeth eraill Llywodraeth Cymru	6,038	4,626
Cymhorthdal masnachfrait	281,219	50,340
Derbynebion teithwyr	92,412	2,852
Refeniw cynnal a chadw rheilffyrdd	11,478	-
Incwm arall	30,253	7,799
Cyfanswm	537,365	121,654
Amser trosglwyddo nwyddau neu wasanaethau		
Incwm grant wedi'i gyfrifo o dan IAS 20	369,499	104,867
Cynhyrchion a gwasanaethau a drosglwyddwyd ar bwynt penodol	144,918	8,056
Cynhyrchion a gwasanaethau a drosglwyddwyd dros amser	19,928	6,542
Incwm rhent y cyfrifwyd amdano dan IFRS 16	3,021	2,189
Cyfanswm	537,365	121,654

Yn ystod y flwyddyn flaenorol, derbyniodd TrC hefyd arian grant adnoddau yng nghyswllt taliadau grant refeniw ar gyfer gwasanaethau trên, ac arian grant cyfalaf yng nghyswllt taliadau grant cyfalaf ar gyfer gwasanaethau trên. Hyd at 7 Chwefror 2021, cafodd yr arian hwn ei drosglwyddo'n uniongyrchol i'n darparwr gwasanaethau rheilffyrdd trydydd parti, Keolis Amey Wales Cymru Limited, sy'n masnachu fel Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru, o dan y cytundeb grant rhwng Gweinidogion Cymru a Keolis Amey Wales Cymru Limited.

Roedd TrC yn gweithredu fel asiant yn unig yn y trefniant hwn, ac o'r herwydd cafodd y taliadau a'r incwm eu netio o fewn Gwariant yn y datganiad incwm cyfunol. O 7 Chwefror 2021 ymlaen, mae'r arian hwn wedi cael ei drosglwyddo i'n his-gwmni, Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig, ac o'r herwydd, mae'r taliadau a'r incwm ers y dyddiad hwnnw yn cael eu dangos yn gros yn y datganiad incwm cyfunol.

Manylir isod gyfanswm yr arian grant yn ymwneud â'r cytundeb grant hyd at 7 Chwefror 2021, sydd wedi'i netio yn y gwariant:

	2022 £000	2021 £000
Cyllid grant refeniw Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth	-	305,844
Cyllid grant cyfalaf Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru	-	32,952
Cyfanswm	-	338,796

Balansau contract

Mae'r tabl canlynol yn rhoi gwybodaeth am agor a chau symiau derbyniadwy, asedau contract a rhwymedigaethau contract o gcontractau gyda chwsmeriaid, heb gynnwys incwm grant.

	Nodyn	Grŵp		Cwmni	
		2022 £000	2021 £000	2022 £000	2021 £000
Symiau derbyniadwy (masnach a symiau dyledus gan gwmnïau grŵp eraill)	12	26,374	6,462	31,806	28,138
Asedau contract (incwm cronedig)	12	10,201	14,017	8,834	5,690
Rhwymedigaethau contract (incwm gohiriedig)	14	(16,728)	(15,447)	(9,961)	(4,515)
		19,847	31,025	30,679	29,313

Mae'r asedau contract yn ymwneud â hawliau TrC i gael cydnabyddiaeth am waith sydd wedi'i gwblhau ond heb gael ei filio ar y dyddiad adrodd ar wasanaethau a ddarparwyd i Lywodraeth Cymru (incwm cronedig). Bydd asedau contract yn cael eu trosglwyddo i fod yn symiau derbyniadwy pan fydd yr hawliau'n dod yn ddiamed. Disgwylir y bydd yr holl asedau contract yn cael eu hanfonebu yn ystod 2022/23.

Mae atebolrwyddau'r contract yn ymwneud â chydabyddiaeth a gafwyd ymlaen llaw gan gwsmeriaid am y gwasanaethau hyn. Bydd y balans ar ddiwedd y flwyddyn yn cael ei gydnabod fel refeniw pan fydd y rhwymedigaethau sy'n ymwneud â pherfformiad wedi'u cyflawni, a disgwylir y bydd hyn yn digwydd yn ystod 2022/23.

Asedau wedi'u cydnabod o gostau i gyflawni contractau

Mae TrC yn cydnabod y costau a ysgwyddir wrth gyflawni contractau trydydd parti gyda chwsmeriaid fel ased, os yw'n debygol y bydd modd adennill y costau hyn. Ar ddyddiad y datganiad am y sefyllfa ariannol, swm yr ased hwn oedd £3,150,000 (2021: £1,202,000).

Pris y trafodiad wedi'i ddyrannu i'r rhwymedigaethau perfformiad sy'n weddill

Mae'r cyfnodau disgwylidiedig gwreiddiol, sef blwyddyn neu lai, yn berthnasol i bob un o'r rhwymedigaethau perfformiad nad ydyn nhw wedi'u bodloni ar ddyddiad y datganiad am y Sefyllfa Ariannol.

3 Tâl yr archwilydd

	2022 £000	2021 £000
Archwilio'r datganiadau ariannol hyn	71	80
Archwilio datganiadau ariannol is-gwmnïau	217	-
Symiau derbyniadwy gan archwilydd y Cwmni o ran gwasanaethau cydymffurfio â threthiant	20	5
Gwasanaethau trethu eraill	-	10
Cyfanswm	303	95

4 Nifer y gweithwyr a chostau

Nifer cyfartalog yr unigolion a gyflogwyd gan y Grŵp (gan gynnwys cyfarwyddwyr) yn ystod y flwyddyn, wedi'i ddadansoddi yn ôl categori, fel â ganlyn:

	Nifer y gweithwyr	
	2022	2021
Gwasanaethau canolog a chaffael rheilffyrdd, symud a rheoli contractau	204	111
Gweithrediadau Rheilffyrdd	2,777	2,684
Cynnal a Chadw Rheilffyrdd	124	-
Gwasanaethau ymgynghori	46	21
Arlwyo	96	104
Glanhau	85	6
Cyfanswm	3,331	2,926

Roedd y costau ar y gyflogres gyda'i gilydd ar gyfer yr unigolion hyn fel â ganlyn:

	2022 £000	2021 £000
Cyflog a thâl	156,849	31,521
Costau nawdd cymdeithasol	15,335	3,124
Cyfraniadau at gynlluniau cyfraniadau diffiniedig	1,404	927
Cost gwasanaeth cyfredol	9,210	1,411
Cyfanswm	182,798	36,983

5 Taliadau cydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr

	2022 £000	2021 £000
Taliadau cydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr TrC drwy'r gyflogres Cyfraniadau Cwmni TrC at gynlluniau pensiwn prynu arian	291 11	171 10
Cyfanswm	302	181

Yn ogystal â'r uchod, talodd TrC £277,000 i Lywodraeth Cymru (2021: £277,000) ynghylch gwasanaethau cyfarwyddwyr sydd wedi'u secondio o Lywodraeth Cymru.

Mae buddion ymddeol yn cronni i un cyfarwyddwr o dan gynllun prynu arian (2021: un).

6 Cyllid a thraul llog

Incwm cyllid

	2022 £000	2021 £000
Llog gan y banc sydd i'w dderbyn	13	10
Cyfanswm incwm cyllid	13	10

Mae llog banc sy'n dderbyniadwy yn TrC yn cael ei ad-dalu'n llawn i Lywodraeth Cymru ac mae'n cael ei ddefnyddio i leihau gofynion tynnu grantiau cylch gwaith.

Costau cyllid

	2022 £000	2021 £000
Llog ar fenthyciad gan riant gwmni	183	-
Elfen llog ar daliadau atebolrwyddau prydles	1,029	241
Datod disgownt ar ddarpariaethau	53	22
Llog net ar rwymedigaeth cynllun pensiwn â buddion diffiniedig net	24	7
Cyfanswm costau cyllid	1,289	270

7 Trethiant

Cydnabyddiaeth yn y datganiad incwm

	2022 £000	2021 £000
Traul treth gyfredol Y flwyddyn gyfredol Addasiadau ar gyfer blynyddoedd blaenorol	77 37	14 -
Cyfanswm y treuliau treth cyfredol/(credyd)	114	14
Costau treth wedi'u gohirio Tarddiad a gwrthdroi gwahaniaethau dros dro Addasiadau mewn perthynas â chyfnodau blaenorol	585 (32)	(527) -
Cyfanswm costau treth a ohiriwyd	553	(527)
Cyfanswm costau treth/(credyd)	667	(513)

Yn cael ei gydnabod yn yr incwm cynhwysfawr arall

	2022 £000	2021 £000
Ailfesur rhwymedigaeth/ased buddion diffiniedig Cyfran effeithiol o newidiadau mewn gwerth teg rhagfantoli llif arian	1 58	6 (184)
Cyfanswm costau treth/(credyd)	59	(178)

Y gyfradd dreth gyfredol yn y DU a ddefnyddiwyd ar gyfer y flwyddyn yw 19% (2020: 19%).

Cysoni'r gyfradd dreth effeithiol

	2022 £000	2021 £000
Gwarged/(diffyg) am y flwyddyn Cyfanswm costau treth / (credyd)	(29,732) 667	4,249 (513)
Gwarged/(diffyg) heb gynnwys treth	(29,065)	3,736
Treth yn defnyddio'r gyfradd bresennol ar gyfer treth gorfforaeth yn y DU (19%) Costau na ellir eu didynnu Newid yn y gyfradd dreth ar gyfer cyfrifiad treth gohiriedig Symiau (a godwyd)/a greddyddwyd i Incwm Cynhwysfawr Arall Symudiad mewn treth ohiriedig heb ei gydnabod Addasiadau mewn perthynas â chyfnodau blaenorol	(5,522) 5,384 845 (58) 13 5	710 (1,228) - - 5 5
Tâl treth/(credyd) am y flwyddyn	667	(513)

8 Eiddo, offer a chyfarpar

Grŵp

	Rhwydwaith rheilffyrdd a seilwaith rheilffyrdd arall £000	Tir, adeiladau a gwella lesddaliadau eraill £000	Cyfarpar ac offer, gosodiadau a ffitiadau £000	Cerbydau £000	Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu £000	Cyfanswm £000
Cost						
Balans ar 1 Ebrill 2020	520,858	658	2,730	-	84,824	609,070
Ychwanegiadau	16,398	17,993	2,510	14,315	120,665	171,881
